

Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2023/24

Gorffennaf 2024

The Council's Annual Report 2023/24

July 2024



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyflwyniad gan yr Arweinydd

Mae'n adeg o'r flwyddyn unwaith eto pryd gallwn ni fwrw golwg ar ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf drwy ein Hadroddiad Cyngor Blyneddol. Wrth imi ysgrifennu'r cyflwyniad hwn, rwy'n ystyried ein sefyllfa fel sefydliad yr adeg hon y llynedd a'n sefyllfa ar hyn o bryd. Rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i'r bron 188,000 o bobl sy'n galw Sir Gaerfyrddin yn gartref, gan wella pethau lle'r ydym wedi gallu a chyflawni rhai prosiectau arloesol, ond mae heriau sylweddol yn parhau i ddylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gweithio.



Fel yn achos pob Cyngor yng Nghymru, rydym mewn sefyllfa ariannol anodd iawn. Bellach mae gennym lai o arian i ddarparu gwasanaethau a hynny mewn cyfnod pryd mae'r galw am ein help a'n cymorth yn cynyddu. Mae hyn yn rhwystredig ac yn destun pryder fel ei gilydd ond mae'n rhoi cyfle i ni feddwl a gwneud pethau'n wahanol. Mae ein Rhaglen Drawsnewid i sicrhau bod ein gwasanaethau mor effeithiol ac effeithlon â phosibl yn gweithio ledled y Sir i gefnogi hyn, ac yn cael ei hategu gan yr egwyddor sylfaenol i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae ein gwaith ymgynghori â phreswylwyr yn dweud wrthym fod yr argyfwng costau byw yn dal i fod yn her, a dyna pam y mae ein hymdrechion i gefnogi mewn unrhyw ffordd y gallwn yn parhau. Mae ein gwasanaeth Hwb Bach y Wlad yn cynnig canllawiau a chymorth costau byw i breswylwyr sy'n byw yn y rhannau mwyaf gwledig o'r sir. Mae hyn yn cael ei ategu gan y cymorth a gynigir gan ymgynghorwyr Hwb yn y tair prif dref. Mae'n destun balchder clywed hanes y rheiny yr ydym wedi eu helpu.

Mae datblygiadau ym Mhentre Awel wedi parhau ar gyflymder, ac mae manteision ehangach i'r gymuned bellach yn cael eu gwredu. Mae busnesau lleol wedi elwa ar gontractau, mae swyddi wedi'u creu ac mae rhaglenni hyfforddiant i brentisiaid, graddedigion a hyfforddeion wedi'u cefnogi. Mae'r prosiect unigryw hwn yn argoeli'n dda iawn i'r Sir ac edrychaf ymlaen at weld y cynnydd dros y flwyddyn nesaf.

Mae adfywiad economaidd y Sir yn parhau gydag ailddatblygiadau gan gynnwys adeilad yr YMCA yn Llanelli, Neuadd y Farchnad Llandeilo a Pharc Gelli Werdd yn Cross Hands gyda'r amlycaf. Mae'r manau hyn yn cynnig cymysgedd o ofod adwerthu, swyddfeydd a manau preswyl sy'n cefnogi'r ardal leol drwy ddenu buddsoddiad, cefnogi busnesau a chreu swyddi.

Roedd arolwg allanol o'n Gwasanaethau Addysg yn canmol ein gweledigaeth glir a'n harweinyddiaeth gref sy'n cael effaith gadarn ar wella darpariaeth addysg a chanlyniadau dysgwr. Mae diwylliant o hunanwerthuso yn dangos ein hymrwymiad i adolygu'r gwasanaeth yn barhaus i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae presenoldeb wedi gwella, darperir prydau ysgol am ddim i'r holl grwpiau oedran priodol ac mae athrawon a disgyblion yn parhau i gyd-ddylunio cwricwlwm dysgu sy'n seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru. Rydym hefyd yn llwyr gydnabod y pwysau ariannol y mae ein hysgolion yn eu hwynebu a byddwn yn parhau i weithio gydag arweinwyr ysgol i fynd i'r afael â'r heriau parhaus hyn.

Mae mynediad at Wasanaethau Gofal Iechyd yn flaenoriaeth i'n preswylwyr ac er bod y rhan fwyaf o'r gwaith hwn y tu allan i gylch gwaith y Cyngor, rydym wedi gwneud camau sylweddol wrth ddatblygu gwasanaethau atal. Mae buddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl wedi ein galluogi i sefydlu llwybr llesiant ledled y Sir sy'n darparu dull cynhwysol ac ataliol ac mae gwaith pellach ar fentrau ataliol yn cael ei ddatblygu ar y cyd â phartneriaid.

Rydym wedi datblygu ystod o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd ac rydym yn gwneud cynnydd lle gallwn, ond rydym hefyd yn cydnabod bod heriau sylweddol i fynd i'r afael â hwy. Rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i wneud cynnydd ac rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio ar y cyd â'n partneriaid lleol a chenedlaethol gan gynnwys Llywodraeth Cymru ar yr agenda hon.

Fel sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf, er gwaetha'r heriau, rydym yn parhau i wneud cynnydd da mewn sawl maes ynghyd â bod mor arloesol a gwydn â phosibl yn wyneb pwysau a gofynion sylweddol. Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i'n staff, aelodau etholedig, sefydliadau partner ac ystod o randdeiliaid am eu hymdrechion a'u cymorth parhaus yn ein hymgais i wneud cynnydd pellach i wella bywydau'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

Y Cyngorydd Darren Price

Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin

Cynnwys

Cyflwyniad

Tudalen 5

Amcan Llesiant 1 - Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y Dechrau gorau poibl mewn Bywyn (Dechrau'n Dda)

Tudalen 13

Blaenoriaeth Thematig: Bywydau Iach - atal / ymyrraeth gynnar

Tudalen 15

Blaenoriaeth Gwasanaeth: Blynnyddoedd Cynnar

Tudalen 20

Blaenoriaeth Gwasanaeth: Addysg

Tudalen 25

Amcan Llesiant 2 - Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)

Tudalen 41

Blaenoriaeth Thematig: Trechu Tlodi

Tudalen 42

Blaenoriaeth Gwasanaeth: Tai

Tudalen 55

Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gofal Cymdeithnasol

Tudalen 59

Amcan Llesiant 3 - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)

Tudalen 66

Blaenoriaeth Thematig: Adferiad a Thwf Economaidd

Tudalen 68

Blaenoriaeth Thematig: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur

Tudalen 81

Blaenoriaeth Thematig: Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

Tudalen 89

Blaenoriaeth Thematig: Diogelwch Cymunedol, Cydnerthedd a Chydlyniant

Tudalen 94

Blaenoriaeth Gwasanaeth: Hamdden a Thwristiaeth

Tudalen 99

Blaenoriaeth Gwasanaeth: Gwastraff

Tudalen 103

Blaenoriaeth Gwasanaeth: Priffyrdd a Thrafnidiaeth

Tudalen 108

Amcan Llesiant 4 - Ein Cyngor: Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon

Tudalen 113

Galluogwyr Busnes Craidd

Tudalen 131

Atodiadau

Atodiad 1: Sut cafodd ein Hamcanion Llesiant eu clustnodi

Atodiad 2: Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Atodiad 3: Trosolwg ar Hunanasesiad y Cyngor

Atodiad 4: Datganiad Llywodraethu Blynnyddol

Atodiad 5: Mesurau'r Cyngor 2023-24

Cyflwyniad


Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn sefydliad mawr, cymhleth sydd â gweithlu o oddeutu 8,350 o weithwyr a chyllideb o dros £900m (refeniw a chyfalaf) ar gyfer 2024/25. O achos y cyllid annigonol i wasanaethau cyhoeddus o'r naill flwyddyn i'r llall am dros ddegawd, mae'r pwysau rydym yn ei wynebu wrth ddarparu gwasanaethau i'r tua 188,000 o bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn dal i fod yn fwy nag erioed. Wrth wneud hyn rydym yn ymdrechu i wneud cynnydd yn erbyn ein pedwar amcan llesiant.

Pwrpas yr adroddiad blynyddol hwn yw rhoi trosolwg o'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn ystod 2023/2024 yn erbyn yr amcanion llesiant hyn, sef:

1. **Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda),**
2. **Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda),**
3. **Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus),**
4. **Moderneiddio a datblygu ynhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor).**

Mae'r amcanion hyn wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf dybryd i'r Sir gan gyfrannu gymaint ag sy'n bosib i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae gan bob amcan set o ganlyniadau sy'n ein cefnogi i fesur ein cynnydd ac arwain ein gweithgarwch fel sefydliad. Cyfeirir at y rhain drwy gydol yr adroddiad hwn, fodd bynnag, mae ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2022-2027 yn rhoi trosolwg manwl. Fe'u datblygwyd yn 2022/2023 yn dilyn asesiad anghenion helaeth a chyfnod ymgynghori.

Er mai prif bwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi dealltwriaeth dda i drigolion, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid allweddol o sut rydym wedi bod yn perfformio, mae hefyd yn bodloni'r ddyletswydd statudol sydd arnom ni drwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, fel y nodir isod:



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015		Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021			
Gofyniad		Sut ydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol		Gofyniad	
Dangos i ba raddau mae ein hamcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant		Bydd hyn yn cael ei amlinellu yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer pob Amcan Llesiant ac yn cael ei amlinellu yn Atodiad		Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob cyngor yng Nghymru yn parhau i adolygu, trwy hunanasesiad, i ba raddau y mae'n bodloni'r 3 'gofyniad perfformiad', hynny yw'r graddau: 1. Mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol. 2. Mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. 3. Mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod. 4. Rhaid i ni ymgynghori ar y 'gofynion perfformiad.' Casgliadau ynghylch i ba raddau y cafodd y gofynion perfformiad eu bodloni yn ystod y flwyddyn ariannol honno	
Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni ein hamcanion llesiant		Darperir diweddariadau'r adroddiad blynyddol o dan y canlyniadau y manylir arnynt ar gyfer pob Amcan Llesiant. Mae cynnydd hefyd yn cael ei fonitro yn erbyn y dangosyddion poblogaeth a'r mesurau perfformiad a nodwyd ar gyfer pob Amcan Llesiant.			
Dangos bod yr amcanion llesiant yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy		Rydym yn cynnwys Astudiaeth Achos o fewn pob Amcan Llesiant			
		Bydd ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cefnogi'r asesiad hwn			
		Mae pob Amcan Llesiant yn cloi gyda Chynllun Gweithredu		Unrhyw gamau sydd i'w cymryd, neu sydd eisoes wedi'u cymryd, i gynyddu i ba raddau y bydd gofynion perfformiad yn cael eu bodloni	
Adroddiad Blynyddol					

Mesur Cynnydd a Hunanasesu

Yn greiddiol i'n hamcanion llesiant mae egwyddor sy'n hyrwyddo ffocws ar bob corff cyhoeddus yn cydweithio i ddatblygu canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

I fesur yn effeithiol ein cynnydd yn erbyn cyflawni ein hamcanion, rydym yn edrych ar ystod o ddata a thystiolaeth gan gynnwys canfyddiadau ein hunanasesiad a chanfyddiadau adroddiadau rheoleiddio i greu darlun mor gynhwysfawr â phosibl o'n cynnydd o ran tueddiadau dros amser ac o ran y modd yr ydym yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Er mwyn i ni wneud hyn yn effeithiol, rydym wedi datblygu cyfres ddata o ddangosyddion a mesurau, sydd, pan gânt eu hystyried gyda'i gilydd, yn cwmpasu ystod eang o wahanol ffynonellau, gan ein galluogi i fyfyrion ar y dystiolaeth sydd ar gael i ni yn gyffredinol. Mae'r ystod o ddata yn cwmpasu'r canlynol a chyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn a gellir ei weld yn llawn yn Atodiad 5:

Dangosyddion Poblogaeth

Yn bennaf maent yn cynnwys data sydd ar gael i'r cyhoedd ac a nodwyd i ddatblygu dealltwriaeth o dueddiadau a sefyllfa Sir Gaerfyrddin mewn perthynas ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Mae'r ffynonellau'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#), [Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth](#), Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mesurau Perfformiad

Cynnwys ffurflenni statudol, mesurau mewnol y Cyngor a gwybodaeth sylfaenol ar ffurf canfyddiadau ymgynghori yr ydym yn eu defnyddio i fesur a monitro perfformiad yn rheolaidd. Cyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor yw'r rhain.

Mae ein hamcanion llesiant hefyd yn fframio ein hymagwedd at hunanasesu. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi'r cyd-destun yr ydym yn arfer ein swyddogaethau ynddo, yn defnyddio adnoddau, ac yn sicrhau bod llywodraethu'n effeithiol:

- Mae'n sicrhau bod ein hunanasesiad yn strategol, gan ganolbwyntio ar y sefydliad, yn hytrach na gwasanaethau unigol ac i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion llesiant a'i ganlyniadau bwriadedig.
- Mae'n caniatáu inni fyfyrion ar lefel strategol ar sut mae ein holl swyddogaethau (gan gynnwys gweithgareddau corfforaethol) yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion llesiant, sut rydym yn gweithredu a pha gamau y mae angen i ni eu cymryd i wella ymhellach a pharhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol nawr ac yn y tymor hir.
- Mae defnyddio amcanion llesiant fel y fframwaith cyffredinol yn annog golwg fwy cyfannol ar berfformiad y Cyngor, gan gydnabod bod llawer o wasanaethau'n 'cydlynu' ac yn cyfrannu at un neu ragor o amcanion llesiant.
- Rydym yn parhau i reoli perfformiad gwasanaethau unigol drwy Gynlluniau Busnes Is-adrannol. Mae hyn yn rhan bwysig o ddull y Cyngor o reoli perfformiad fel y manylir yn ein [Fframwaith Rheoli Perfformiad](#) sy'n seiliedig ar gylch Cynllun/Gwneud/Adolygu.

Y Prif Egwyddorion

Gwerthoedd ac Ymddygiad Craidd

Mae gweledigaeth y Cyngor yn sail i bopeth a wnawn fel sefydliad.

‘Datblygu Sir Gaerfyrddin gyda’n gilydd: Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais.’

Wrth eu hystyried gyda’i gilydd, mae’r weledigaeth a’n gwerthoedd craidd a’n hymddygiadau yn ein helpu i wneud y penderfyniad cywir a llunio sut rydym yn gweithio gyda’n gilydd i ddarparu gwasanaethau a gwneud y gorau allwn.

Mae ein chwe gwerth craidd yn ffurfio’r egwyddorion cyffredinol sy’n fframio ein hugain ymddygiad, ac mae’r ymddygiadau hyn yn disgrifio’r camau gweithredu a’r dulliau unigol ar gyfer sut rydym yn gweithio ac yn trin eraill. Mae ein gwerthoedd fel a ganlyn ond gellir eu gweld yn llawn ynghyd â’n hymddygiadau yma:

- Gweithio fel un tîm,
- Canolbwyntio ar gwsmeriaid,
- Gwrando er mwyn gwella,
- Ymdrechu i ragori,
- Gweithredu ag uniondeb,
- Cymryd cyfrifoldeb personol.

Llywodraethu

Fel Cyngor rydym yn gyfrifol am sicrhau bod ein busnes yn cael ei wneud yn unol â’r gyfraith a safonau priodol. Rhaid i ni hefyd sicrhau y diogelir cyllid cyhoeddus, y rhoddir cyfrif priodol amdano ac y’i defnyddir yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol a sicrhau gwelliant parhaus yn hyn o beth. Rydym yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer Llywodraethu ein gwaith, gan hwyluso cyflawni ei swyddogaethau’n effeithiol, gan gynnwys bod â threfniadau priodol ar gyfer rheoli risg. Mae’r Cyngor yn gweld Llywodraethu Corfforaethol fel "gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i’r bobl iawn mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol." Mae’r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a’r prosesau, y diwylliannau a’r gwerthoedd hynny sy’n ein cyfarwyddo ac yn ein rheoli ni, ynghyd â’r modd y mae’n atebol i’r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae’r Fframwaith yn ein galluogi i fonitro i ba raddau y cyflawnwyd ein hamcanion strategol ac i ystyried a yw’r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel y’i cynhwysir yn ein Datganiad o Gyfrifon yn manylu ar sut rydym wedi cydymffurfio a’r gwahanol elfennau o’n Fframwaith Llywodraethu.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn deg ac yn gyfartal i bawb ym mhopeth a wnawn. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi egwyddorion ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn amlinellu sut y bwriadwn gyflawni ein cyfrifoldebau fel cyflogwr, darparwr gwasanaethau ac fel arweinydd cymunedol.

Fel corff cyhoeddus, mae angen i ni sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i'n gwasanaethau ac yn cael eu trin yn deg gan ein gwasanaethau. Mae angen i egwyddorion sylfaenol hawliau dynol hefyd fod wrth wraidd darparu gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cydraddoldeb mesuradwy trwy welliannau penodol mewn polisiau a'r ffordd y mae ein gwasanaethau a'n swyddogaethau'n cael eu darparu.

Rydym wedi ymrwymo i drin ein staff, a phobl Sir Gaerfyrddin, yn deg. Byddwn yn sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd eu hoedran, anabledd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd, cred neu ddiffyg cred, dosbarth cymdeithasol, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, newid rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, cyfrifoldeb am ddibynyddion neu am unrhyw reswm annheg arall.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus rhagorol yn cael eu darparu i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yn Sir Gaerfyrddin ac sy'n ymweld â'r sir. Caiff hyn ei ategu gan ein pedwar amcan cydraddoldeb ar gyfer 2024-2028:

- Bod yn gyflogwr o ddewis;
- Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda;
- Ymgorffori Cydlyniant Cymunedol yn ein sefydliad a'n cymuned; a
- Diogelu a chryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol.



Y Cyngor

Yn etholiadau lleol 2022 fe wnaeth trigolion Sir Gaerfyrddin ethol 75 o gynghorwyr sir yn cynrychioli ein 51 ward. Mae Cabinet y Cyngor yn cynnwys 10 o'r Cynghorwyr hyn, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, ac mae ganddynt gyfrifoldeb dros sicrhau cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant. Mae gan bob aelod Cabinet bortffolio y mae'n gyfrifol amdano, fel a ganlyn:



Y Cynghorydd Darren Price,
Arweinydd



Y Cynghorydd Linda Evans
Dirprwy Arweinydd ac Aelod
Cabinet dros Gartrefi



Y Cynghorydd Philip Hughes
Aelod Cabinet dros
Drefniadaeth a'r
Gweithlu



Y Cynghorydd Alun Lenny
Aelod Cabinet dros
Adnoddau



Y Cynghorydd Ann Davies
Aelod Cabinet dros
Faterion Gwledig a
Pholisi Cynllunio



Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen
Aelod Cabinet dros Newid
Hinsawdd,
Datgarboneiddio a
Chynaliadwyedd



Y Cynghorydd Edward Thomas
Aelod Cabinet dros
Wasanaethau Trafnidiaeth,
Gwastraff a Seilwaith



Y Cynghorydd Hazel Evans
Aelod Cabinet dros Adfywio,
Hamdden, Diwylliant a
Thwristiaeth



Y Cynghorydd Glynog Davies
Cyfarwyddwr Addysg a
Gwasanaethau Plant



Y Cynghorydd Jane Tremlett
Aelod Cabinet dros
Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

Am y Cyngor - Ystadegau Allweddol



75
o Gynghorwyr Sir yn
cynrychioli
51
o wardiau cymunedol



Ychydig dros
8,300
o weithwyr wedi'u
rhannu dros
5
adran



Cyllideb o dros
£900m
(refeniw a chyfalaf)



Diweddarau ein gwefan (dros
4.5 miliwn
o sesiynau defnyddwyr gan y
cynhoedd ar ein gwefan y flwyddyn)



Cymryd dros
175,000
o alwadau ac ymateb i dros
40,000
o ymholiadau electronig yn flynyddol
yn ein canolfan gyswilt



Dros
310,000
o anfonebau'r
flwyddyn



Penderfynu ar gyfartaledd o
1,400
o Geisiadau Cynllunio
y flwyddyn



Yn gyfrifol am y
rhwydwaith priffyrdd o
3,500 km
yn Sir Gaerfyrddin



Casglu dros
78,000
tunnell o wastraff
dinesig yn ystod y
flwyddyn



Rydym yn rheoli
ychydig dros
9,300
o dai cyngor



Cefnogir dros
3,500
o gleientiaid gyda
phedyn Gofal
Cymdeithasol



Mae gennym
18
o lyfrgelloedd yn y Sir
(gan gynnwys
gwasanaethau symudol
a chymunedol)



Rydym yn rhedeg
6
chanolfan hamdden yn
y Sir



Helpu cymaint â phosibl o'n
8,000
o fusnesau yn y Sir



18,000
o brydau ysgol y
dydd



Ar gyfartaledd mae ein cofrestryddion
yn cydnodi tua
2,500 o farwolaethau,
2,500 o enedigaethau
a thros
700
o briodasau a phartneriaethau sifil



1 ysgol feithrin,
94 ysgol gynradd,
12 ysgol uwchradd,
1 ysgol arbennig ac
1 uned cyfeirio disgyblion sy'n
darparu addysg i dros
27,000
o ddisgyblion

Amcan Llesaint 1

Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y Dechrau gorau posibl mewn Bywyd (Dechrau'n Dda)

Trosolwg cynnydd

Mae cefnogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd yn rhoi sylfaen gref ar gyfer cyfyngu ar anghydraddoldebau. Caiff yr hyn sy'n digwydd yn y blynyddoedd cynnar hyn effaith hirdymor ar ganlyniadau iechyd a llesiant, cyflawniad addysgol, a statws economaidd. Credir bod 34.6% o blant Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, felly mae'n hanfodol bod pob plentyn yn cael mynediad i'r un cyfleoedd, beth bynnag fo'u cefndir, a'u bod yn cael y cymorth cywir pryd a lle mae ei angen arnynt.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud ei orau glas yn hyn o beth, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar a system addysg sy'n gweithio'n dda ac sy'n cydnabod bod pob plentyn yn unigolyn. Cafodd ein gweledigaeth glir a'n harweinyddiaeth gref eu canmol mewn arolygiad allanol o'n Gwasanaethau Addysg, a chaiff hynny effaith bendant ar wella darpariaeth addysg a deilliannau dysgwyr. Dengys diwylliant o hunanwerthuso ymrwymiad i adolygu'r gwasanaeth yn barhaus, er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Rydym yn parhau â'n hymdrechion i gadw plant gartref gyda'u teuluoedd lle bo hynny'n bosibl, ac mae cyfradd gymharol isel y sir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn dangos hynny. Rydym hefyd yn cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r prinder gofalwyr maeth a nodwyd yn y Sir. Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu, ond mae'r lefel dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Mae cynllunio strategol yn canolbwyntio ar atal a meddwl yn gydlynol, ac mae'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Ranbarthol yn enghraifft nodedig o hyn.

Rydym yn cydnabod bod angen gwella'r cynnig gofal plant yn y Sir, ac mae camau priodol yn parhau i gael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn. Bydd mwy o ardaloedd yn elwa ar leoedd gofal plant a ariennir drwy ehangu darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg, ac mae Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant wedi'i ddatblygu sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r cynnig yn gyffredinol, ynghyd â ffocysu ar gryfhau'r cynnig cyfrwng Cymraeg.

Mae ein gwasanaeth addysg yn darparu cwricwlwm cyflawn sy'n ystyried anghenion unigol pob dysgwr. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cefnogaeth dda trwy ein ffocws strategol ar ddarparu cynnig addysg gynhwysol, ac mae ysgolion wedi ymateb yn dda i ddiwygiadau. Er bod presenoldeb wedi gostwng yn dilyn cyfnod Covid, rydym yn gweld rhai arwyddion o adferiad. Fodd bynnag mae hon yn flaenoriaeth barhaus yn sicr er mwyn sicrhau gwelliant pellach sy'n cael ei gynnal. Caiff presenoldeb ei fonitro'n agos ar gyfer yr ysgol gyfan yn ogystal ag ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion fel y rhai sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae athrawon a disgyblion yn cyd-lunio cwricwlwm cyflawn sy'n seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae ffocws ar brofiadau dysgu y mae codi safonau addysgol yn rhan annatod ohonynt, gan ddatblygu llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol yn effeithiol yn ogystal â sgiliau Cymraeg a Saesneg dwyieithog. Nodwyd meysydd i'w dathlu a'u gwella mewn arolygiad diweddar gan Estyn, ac adlewyrchir hynny yn yr adroddiad hwn.

Sir Gaerfyrddin sydd â'r lefelau gordewdra yn ystod plentyndod uchaf yng Nghymru gyda 30.5% o blant 4-5 oed dros bwysau neu'n gordewdra. Mae ymrwymiad y Cyngor i wneud popeth o fewn ei allu i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn yn amlwg yn yr amrywiaeth o fentrau Actif sydd ar waith i sicrhau bod gan blant a phobl ifanc fynediad at weithgareddau sy'n gwella eu hiechyd a'u llesiant. Yn ogystal, mae cyflwyniad cyffredinol y cynnig prydau ysgol am ddim yn parhau i symud ymlaen yn dda gan sicrhau bod plant yn cael prydau maethlon a chytbwys sy'n cefnogi eu datblygiad.

Yn Gryno

- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i alluogi plant a phobl ifanc i gael dechrau cadarnhaol mewn bywyd, a phrofir hyn gan yr ymagwedd amlochrog at gefnogi llesiant a datblygiad plant a phobl ifanc yn y gymuned.
- Er bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal, mae ein cyfraddau'n gymharol isel yng nghyd-destun awdurdodau lleol eraill.
- Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth wedi cynyddu wrth i'r prinder gofalwyr maeth fod yn her. Fodd bynnag, ceir ymdrechion i fynd i'r afael â hyn trwy gydweithio â Maethu Cymru ac ymgyrch recriwtio genedlaethol.
- I gydnabod pwysigrwydd bod yn actif yn ifanc, mae'r rhaglen 'Amser Actif' yn datblygu hyder a sgiliau corfforol plant ysgol gynradd, gan ddangos gwelliannau sylweddol mewn symudiadau a sgiliau trin ymhlith y cyfranogwyr.
- Gwelwyd llwyddiannau hefyd mewn nofio mewn ysgolion, gyda chanran nodedig o'r cyfranogwyr yn cyrraedd safon 'nofiwr diogel'.
- Mae'r tîm Gofal Cymdeithasol a Diogelu Iechyd wedi gweithio i wella nifer y disgyblion ysgol sy'n derbyn brechiadau.
- Ein prif ffocws yw sicrhau bod plant yn ddiogel trwy fuddsoddi mewn atal ac ymyrraeth gynnar yn ogystal â dulliau arloesol o ddiogelu. Mae gennym weithlu cryf sy'n ymwybodol o drawma ac sy'n gweithio mewn model sy'n ymwybodol o ymlyniad, sy'n cadw plant a phobl ifanc yn flaenllaw yn yr hyn a wnawn gan ddefnyddio signs of safety i gadw teuluoedd gyda'i gilydd lle bynnag y bo modd.



Sut ydyn ni'n gwneud?

- Rydym yn parhau i fod â'r nifer isaf o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed yn Sir Gaerfyrddin o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, ac ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 116.33. Ein ffigwr ar ddiwedd mis Mawrth 2023 oedd 51.80 fesul 10,000 o'r boblogaeth, ac mae hyn yn cyfateb i 190 o blant sy'n derbyn gofal. Ddiwedd mis Mawrth 2024 cynyddodd hyn i 259, sef cynnydd o 36%. Ni fydd y data cymharol ar gyfer hyn fesul 10,000 o'r boblogaeth ar gael tan ddiwedd 2024, ond rydym wedi bod yn isel yng nghyd-destun awdurdodau lleol eraill ers blynyddoedd lawer.
- Roedd 209 o blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth 2024, o'i gymharu â 149 y flwyddyn flaenorol. Mae prinder gofalwyr maeth yn lleol ac yn genedlaethol o hyd sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliad. Mae'r adran yn cydweithio ar draws y rhanbarth gyda Maethu Cymru a derbyniodd ymgyrch recriwtio gofalwyr maeth cenedlaethol sylw mawr yn y cyfryngau.



Canlyniad: Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n wynebu plant o gefndiroedd difreintiedig a allai effeithio ar eu cyfleoedd yn nes ymlaen yn eu bywydau.

Gwasanaeth Anabledd

Mae'r gwasanaeth Anabledd 0-25 wedi cyd-gynhyrchu Canllaw Pontio gyda ac ar gyfer pobl ifanc ag anableddau a'u teuluoedd i'w cefnogi drwy'r broses o droi'n oedolyn. Bydd y canllaw electronig deinamig hwn ar gael trwy ein gwefan a llwyfannau rhyngwyd eraill yn dilyn ei lansio.

Y Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i ddatblygu ei arfer a thros y misoedd diwethaf mae wedi bod yn canolbwyntio ar fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP) ac ar gyswllt drwy sawl lleoliad lle mae plant wedi parhau i gael cyswllt uniongyrchol parhaus â rhieni geni a brodyr a chwiorydd biolegol ar ôl mabwysiadu. Mae Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i ddod o hyd i leoliadau mabwysiadol yn y rhanbarth ar gyfer plant o'r rhanbarth. Fodd bynnag, mae gostyngiad cyffredinol yn nifer yr ymholiadau yng Nghymru gan bobl a hoffai fabwysiadu, ac mae'r nifer yn llai eleni. Mae swyddog recriwtio marchnata newydd wedi'i benodi ac mae'n gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gan ganolbwyntio ar recriwtio mabwysiadwyr, yn enwedig ar gyfer grwpiau o frodyr a chwiorydd.

Mentrau Chwaraeon a Hamdden

'Nod 'Amser Actif' yw datblygu hyder, cymhelliant a sgiliau corfforol plant ysgol gynradd drwy gynnwys disgyblion mewn gweithgareddau hwyliog, yn enwedig y rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol y tu allan i'r ysgol. Gan dargedu ysgolion sydd â chanran uchel o ddisgyblion Prydau Ysgol am Ddim a chanran isel o ffigurau Gwirioni ar Chwaraeon, cymerodd 5 ysgol ran yn y rhaglen 8 wythnos, lle roedd Hyfforddwr Cymunedau Actif yn cyflwyno sesiynau ac yn asesu datblygiad 97 o blant, yr oedd 17 ohonynt yn ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cynhaliwyd cyfanswm o 51 sesiwn gyda 637 o gyfranogwyr yn arwain at welliant sylweddol mewn ystod o sgiliau. Dangosodd y disgyblion a gymerodd ran yn y sesiynau gynnydd mewn cymhelliant a hyder wrth gymryd rhan.

Yn 2024, derbyniodd Chwaraeon a Hamdden Actif gyllid drwy'r Gronfa Arloesi Gwledig i recriwtio hyfforddwr chwaraeon a gweithgareddau cymunedol a chynnig mynediad am ddim i 29 o ysgolion i blatfform 'Actif Unrhyw Le i Ysgolion' Actif. Nodwyd y 29 ysgol hyn yn seiliedig ar eu lleoliadau gwledig, lefelau amddifadedd economaidd a data 'gwirioni ar chwaraeon'. Bydd yr ysgolion yn gallu cael mynediad at amserlen o sesiynau chwaraeon a gweithgareddau wedi'u ffrydio'n fyw yn ogystal â chyfres o ddosbarthiadau ar-alw i wella iechyd a llesiant plant (ac athrawon). Disgwylir i hyn gael ei lansio'n llawn ym mis Medi a bydd yn cael ei gyflwyno yn y pen draw ar draws holl ysgolion y Sir, a thu hwnt.

Ym mlwyddyn academiaidd 2022/2023 (hyd at fis Awst 2023) cymerodd 3,524 o ddisgyblion oed cynradd ran yn Rhaglen Nofio Ysgolion Actif Hamdden. Ar y cyfan cyrhaeddodd 25% safon 'nofiwr diogel'. Rydym yn parhau i gynnig sesiynau nofio am ddim ar y penwythnos ar gyfer rhai dan 16 oed, ac mae sesiynau ychwanegol ar gael yn ystod gwyliau haf yr ysgolion. Achubodd 2,377 fantais ar y sesiynau hyn yn 2023/24, sy'n gynydd bach ar y flwyddyn flaenorol (2,237).

Nifer sy'n derbyn Brechiadau

Gweithiodd y tîm Gofal Cymdeithasol a Diogelu Iechyd ar y cyd â chydweithwyr addysg a nyrsys ysgol i wella nifer y disgyblion sy'n cael eu brechu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Cysylltodd y Swyddogion Cymorth a Chyngor Diogelu Iechyd â'r rhai nad oeddent wedi ymateb i gynyddu'r nifer sy'n cael eu brechu rhag y fflw. Cafodd cyfanswm o 773 o alwadau ffôn eu gwneud gan y tîm; 306 o alwadau i bobl oedd heb ymateb mewn ysgolion cynradd a 467 o alwadau i rai oedd heb ymateb mewn ysgolion uwchradd.

Canlyniad: Mae teuluoedd o gefndiroedd difreintiedig yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth iechyd a llesiant yn eu hardaloedd lleol.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae prinder gofalwyr maeth yn lleol ac yn genedlaethol, sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliad. Trwy ddatblygu, mae'r ystod a'r math o leoliadau i blant sy'n derbyn gofal yn parhau i gynyddu drwy strategaeth breswyl yr adran a'r strategaeth farchnata a recriwtio ar gyfer maethu.

Rydym wedi bod yn datblygu ein cyflenwad o leoliadau mewnol â chymorth a lleoliadau llety preswyl i helpu'r uchelgais o adfer cydbwysedd y farchnad a chymryd elw allan o ofal plant. Mae dau eiddo wedi'u prynu ac mae trydydd yn cael ei nodi. Mae ein Cynllun Llety â Chymorth mewnol sy'n cefnogi pobl ifanc ôl-16 wedi parhau i ddatblygu, gyda 7 darparwr bellach yn cynnig lleoliadau. Bydd y datblygiadau hyn yn helpu plant i aros yn eu cymunedau lleol ac yn atal yr angen am leoliadau y tu allan i'r sir. Mae angen datblygu lleoliadau pellach i gynyddu'r cynnig a chysylltu'r gefnogaeth â'r capasiti cyffredinol ar gyfer lleoliadau ledled Sir Gaerfyrddin.

Mentrau Chwaraeon a Hamdden

Mae Chwaraeon a Hamdden Actif yn cynnig ac yn hwyluso ystod eang o gyfleoedd i blant a theuluoedd gael mynediad i weithgareddau i wella eu hiechyd a'u llesiant. Mae hyn yn cynnwys ein 'haelodaeth aelwyd' sy'n galluogi hyd at 2 oedolyn a 4 plentyn i ymuno o dan un aelodaeth gan sicrhau gwell gwerth am arian. Cynyddodd nifer yr aelodaethau aelwyd 182 (11%) yn ystod y flwyddyn.

Mae gan Actif berthynas ardderchog â'r gwasanaethau cymdeithasol, ac mae cyfle i blant sydd dan ofal y gwasanaethau cymdeithasol gael mynediad i'w raglenni gweithgareddau ar ôl ysgol ac adeg gwyliau. Mae 359 o blant wedi elwa ar hyn yn ystod 2023-24.

Yn ystod 2023-24 sicrhodd Actif £435k o gyllid y Ffyniant Gyffredin i gyflwyno gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a rhai i blant yn 8 o neuaddau cymunedol y Sir ac ar draws ardal Llanelli.

Going Places

Yn 2023/24 dewiswyd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin i fod yn rhan o gydweithrediad arloesol 5 mlynedd gydag ArtFund ac amgueddfeydd y DU ar Going Places, rhaglen ymgysylltu â'r gymuned ac arddangos. Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon, derbyniodd y bartneriaeth £500k i adeiladu'r achos dros gyllid cenedlaethol ar gyfer arddangosfeydd teithiol cynaliadwy ac arloesi ffyrdd newydd o weithio gyda chymunedau i greu rhaglenni gweithgareddau mewn amgueddfeydd. Bydd natur hirdymor y prosiect yn drawsnewidiol yn Sir Gaerfyrddin gyda'r flaenoriaeth yn cael ei rhoi ar gyd-dylunio gwasanaethau gyda phobl ifanc, a datblygu sgiliau diwylliannol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn cymunedau gwledig.

Menter Nofio Am Ddim

Gan fod y rhan fwyaf o bobl sy'n mynychu sesiynau'r fenter nofio am ddim yn gallu nofio eisoes, efallai fydd y rhai nad ydynt yn gallu nofio yn teimlo wedi'u heithrio. O ystyried hyn, roeddem wedi cynnig gwersi nofio am ddim i blant gafodd eu nodi yn ystod eu gwersi nofio yn yr ysgol yn rhai sy'n tangyflawni ac yn annhebygol o ennill statws 'nofiwr diogel' erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Cymerodd 56 o bobl ifanc ran yn y gwersi nofio ychwanegol hyn yng Nghanolfan Hamdden Llanelli yn ystod gwyliau haf yr ysgolion. Roeddent wedi gallu datblygu eu gallu yn y dŵr a'u hyder ymhellach, ac adeiladu ar hynny a pharhau i fwynhau gweithgareddau dyfrol, gan gynnwys y sesiynau nofio am ddim.



Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd gennym stondin yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri. Roedd yr wythnos yn canolbwyntio ar y cymorth yr ydym yn ei ddarparu i deuluoedd ac yn fwy penodol am ymgysylltu â phlant. Roedd plant yn mwynhau chwarae gyda'n gemau a'r gweithgareddau, a oedd wedi'u cynllunio i deuluoedd feithrin ymlyniad agosach â'u plant.

Gwnaethom ddarparu cyngor a chymorth i lawer o deuluoedd mabwysiadol o bob rhan o'r rhanbarth ac ymhellach i ffwrdd, cefnogi ysgolion i gefnogi plant mabwysiedig yn well yn y dosbarth, a siarad â nifer o bobl a oedd yn ystyried mabwysiadu fel llwybr at ddechrau teulu.

Cyfiawnder Ieuentid

Tîm Cyfiawnder Ieuentid Sir Gaerfyrddin yn cael ei sgorio fel 'Rhagorol'

Mae Tîm Cyfiawnder Ieuentid Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cael ei sgorio fel 'Rhagorol' gan Arolygiaeth Prawf EF yn ei harolygiad o wasanaethau troseddu ieuentid yn Sir Gaerfyrddin, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2024. Roedd yr arolygiad yn cynnwys tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth; ansawdd y gwaith gyda phlant a ddedfrydwyd gan y llysoedd; ac ansawdd gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys.

Gill Adams, Prif Reolwr Tîm Cyfiawnder Ieuentid Sir Gaerfyrddin yn ennill Gwobr Flynyddol Ymddiriedolaeth Butler a gyflwynwyd mewn seremoni yn Llundain ddydd Mawrth,

19 Mawrth 2024 gan Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Anne. Cafodd Gill ei chydnabod am ei hymroddiad diflino i gyfiawnder ieuentid ers blyneddau lawer a'i rôl ehangach fel Prif Reolwr Gwasanaeth Cymorth Ieuentid yn Sir Gaerfyrddin.

Gwobrau Ymddiriedolaeth Butler yw'r unig gwobrau ledled y DU sy'n benodol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau carcharu a chyfiawnder cymunedol.



Er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg iawn, byddwn yn datblygu strategaeth cymorth cynnar amlasiantaethol. Byddwn hefyd yn cyflwyno polisi teg a thryloyw ar gyfer dyrannu adnoddau i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

Er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o leoliadau maeth mewnol i ddiwallu ystod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin, byddwn yn cynyddu capasiti'r gwasanaeth maethu er mwyn rheoli'r galw heddiw ac yn y dyfodol, gwella'r cyfraddau recriwtio a chadw, a rhoi cymorth i Ofalwyr Maethu. Er mwyn diwallu ystod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin, byddwn yn gweithredu rhaglen strategol ar gyfer gwasanaethau preswyl gan gynnwys caffael, adnewyddu a datblygu tri chartref plant newydd.

Mae ein Clwb Actif yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau plant i ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu â phlant yn ystod gwyliau'r ysgol er mwyn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd gweithgareddau corfforol iddynt. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf yn nifer y plant sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth hwn gan y gwasanaethau plant, felly mae angen i ni wneud ein gorau i ateb y galw hwnnw.

Yn Gryno

- Mae cyfradd gymharol isel y sir o Blant sy'n Derbyn Gofal yn dystiolaeth o'r gwaith ataliol a wneir yn Sir Gaerfyrddin a'n hymrwymiad parhaus i gadw plant gartref gyda'u teuluoedd lle bo hynny'n bosibl.
- Mae ein Strategaeth Cymorth i Deuluoedd yn cael ei hadolygu i fod yn Strategaeth Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn diwallu'r anghenion ar yr adeg gywir.
- Mae'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Ranbarthol wedi'i lansio, gyda blaenoriaethau lleol ar gyfer mamolaeth a thrawsnewid blynyddoedd cynnar yn cael eu gweithredu.
- Mae ehangiad gofal plant Dechrau'n Deg yn cael ei gyflwyno i ddarparu gofal plant wedi'i ariannu o safon i fwy o ardaloedd, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant.
- I gydnabod pwysigrwydd cynnig gofal plant digonol a'r gostyngiad yn nifer y lleoedd gofal plant yn y sir rhwng 2022/23 a 2023/24, datblygwyd Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant.
- Yn ogystal, mae ymdrechion i sicrhau gweithlu sefydlog yn y gwasanaethau plant, drwy ail-alinio'r tîm rheoli, gweithredu fframwaith dilyniant ymarferwyr profiadol, a recriwtio hyfforddeion gweithwyr cymdeithasol newydd.

Sut ydyn ni'n gwneud?

- Bu'n rhaid i 8.5% o blant mewn gofal yn Sir Gaerfyrddin yn 2023/24 symud 3 gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn, sy'n cyfateb i 22 allan o'r 259 o blant, o gymharu â 7.4% (14 allan o 190) yn 2022/23. Roedd cynnydd o 36% yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth 2024, i 259 o gymharu â 190 y flwyddyn flaenorol.
- Mae 213 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn cynnig 4,214 o leoedd gofal plant a ddarperir gan warchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, cylchoedd meithrin, Dechrau'n Deg, Clybiau ar ôl Ysgol a Chlybiau Gwyliau. Mae adroddiad cryno ein 5ed Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Statudol yn parhau i gael ei rannu gyda darpar-ddarparwyr gofal plant, ac mae hefyd ar gael ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.
- Cefnogwyd 10,461 o unigolion o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, ac o'u plith roedd 6,234 (60%) yn unigolion newydd.
- 78.1% presenoldeb plant mewn lleoliad gofal plant di-dâl Dechrau'n Deg a neilltuwyd ar gyfer plant cymwys 2-3 oed i'w paratoi ar gyfer yr ysgol, sy'n fwy na'r targed o 75%.
- Roedd 97% o deuluoedd sydd ag anghenion llesiant cymdeithasol ychwanegol cysylltiedig â thlodi, sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg, yn derbyn ymyriadau amser penodol gan y Tîm Dechrau'n Deg ehangach.
- Cafwyd cyfradd absenoldeb anawdurdodedig o 1.5% mewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg rhad ac am ddim a neilltuwyd ar gyfer plant 2-3 oed cymwys i'w paratoi ar gyfer yr ysgol. Mae'n galonogol gweld teuluoedd yn rhoi gwybod am absenoldeb ac yn ymgysylltu â lleoliadau gofal plant wrth roi gwybod am absenoldeb.



Canlyniad: Gwell argaeledd o ran lleoliadau addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar ar draws y sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig; gyda ffocws penodol ar ddarparu a chryfhau gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg i'r gweithlu gofal plant a mentrau cymorth iaith i rieni fel Clwb Cwtch. Rhennir gwybodaeth a chymorth drwy amrywiol gyfryngau, digwyddiadau, rhaglenni hyfforddiant, ac adnoddau eraill i geisio cynyddu darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y Sir. Mae Swyddog y Gymraeg Blynyddoedd Cynnar wedi cydweithio â sefydliadau ymbarél CWLWM i gefnogi darparwyr a theuluoedd â'u datblygiad Cymraeg, ac mae llawer wedi dangos diddordeb/cofrestru ar gyfer rhaglen Addewid Cymraeg CWLWM sef Darparu gwasanaeth integredig dwyieithog a fydd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru.



Mae gennym 81 o warchodwyr plant cofrestredig ar hyn o bryd sydd â chyfanswm o 660 o leoedd gofal plant. Mae hyn wedi gostwng o 90 o warchodwyr plant (717 lle) y llynedd. Mae recriwtio a chynaliadwyedd gwarchod plant tymor hir wedi bod yn anodd yn ystod 2023-24, tra bo pob ymdrech wedi'i gwneud mewn gwahanol ddigwyddiadau. Mae'r terfyn amser i ennill y cymhwyster perthnasol a chofrestru ar adeg pan fo costau byw yn effeithio ar incwm aelwydydd wedi effeithio ar recriwtio i'r sector.

Gofal Plant Dechrau'n Deg

Mae'r gwaith o ehangu gofal plant Dechrau'n Deg wedi parhau er mwyn darparu gofal plant a ariennir o safon i ragor o ardaloedd ledled Sir Gaerfyrddin. Mae dros 1,170 o godau post wedi'u hychwanegu hyd yma ac mae 12 o'r 13 ardal a nodwyd bellach wedi'u cofrestru'n llawn i Dechrau'n Deg. Mae Swyddog Cymraeg y Blynyddoedd Cynnar uchod wedi dechrau gweithio gyda'r holl ddarparwyr gofal plant ar draws Dechrau'n Deg, gan hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru. Mae ein Ap Dechrau'n Deg yn llwyddiant ac wedi cael ei fireinio gan ei gwneud hi'n haws i rieni gael gafael ar wybodaeth a chynghor defnyddiol, yn ogystal â gweld beth sy'n digwydd yn eu cymunedau lleol.

Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant

Mae'r Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant ar gyfer 2023-24 ar y gweill ac wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2024.

Canlyniad: Cadw plant gartref gyda'u teuluoedd lle bynnag y bo modd.

Gwarcheidwaid Arbennig

Mae gwaith ataliol yn cael ei wneud fel bod plant yn cael cymorth ar yr adeg gywir, gan gadw teuluoedd gyda'i gilydd lle mae'n ddiogel gwneud hynny ac atal yr angen i dderbyn gofal, ac er gwaethaf niferoedd yn codi, gennym ni mae un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru. Rydym wedi adolygu'r gefnogaeth a roddir i Warcheidwaid Arbennig i hyrwyddo hyn fel dewis arall yn hytrach na derbyn gofal, gyda chefnogaeth teuluoedd/ffrindiau. Bu i system dalu safonol i ofalwyr Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig gychwyn o fis Ebrill 2024.

Teuluoedd yn Gyntaf

Mae naw prosiect Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i ddarparu cymorth ataliol hanfodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y Sir. Cyflawnwyd ystod o ymyriadau gan gynnwys iaith a chwarae, cymorth cyntaf pediatrig, rhaglen Star, rhianta ar ôl trawma, a sgiliau bywyd i grybwyll ond rhai, yn ogystal â phartïon wedi'u trefnu, hamperi bwyd, pecynnau llesiant, dillad, teithiau amrywiol, diwrnodau hwyl, a gweithgareddau.

Y Strategaeth Cymorth i Deuluoedd

Mae'r Strategaeth Cymorth i Deuluoedd yn cael ei hadolygu ac yn ei chamau datblygu cychwynnol fel Strategaeth Blynyddoedd Cynnar, i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar yn diwallu anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd ar yr adeg gywir gan ddefnyddio cyfleoedd i integreiddio gwasanaethau.

Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar

Mae'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Ranbarthol wedi'i lansio, ac mae Grŵp Gweithredol Sir Gâr wedi rhoi blaenoriaethau lleol ar waith ar gyfer trawsnewid mamolaeth a blynyddoedd cynnar.

Canlyniad: Caiff teuluoedd sy'n wynebu anawsterau eu cynorthwyo i ddarparu cartrefi sefydlog, diogel a sicr i'w plant.

Mae prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i ddatblygu ac adeiladu mwy o gysylltiadau o fewn cymunedau a chynnal partneriaethau gwaith cryfach gyda darparwyr eraill a busnesau lleol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, ymwelwyr iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth tân, ysgolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Coleg Sir Gâr, Dechrau'n Deg, Cymunedau am Waith.

Cynnig Gofal Plant

Mae'r Cynnig Gofal Plant 30 awr i Gymru yn galluogi rhieni plant 3-4 oed sy'n gymwys ac sy'n gweithio i gael 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir am 48 wythnos y flwyddyn. Yn ystod 2023/24, cymeradwywyd 1,019 o geisiadau ar gyfer Sir Gaerfyrddin a gwerth £2,400,840 o daliadau i ddarparwyr gofal plant, sy'n arbediad sylweddol i lawer o deuluoedd lleol sy'n gweithio y gallent fod wedi ei chael yn anodd fforddio talu am ofal plant. Mae hefyd wedi helpu i gynnal darparwyr gofal plant lleol drwy ddarparu incwm rheolaidd gwarantedig.



Tîm Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar

Mae Tîm Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn brosiect ar y cyd rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin sy'n cwmpasu 11 ward etholiadol yn ardal wledig Cwm Gwendraeth, sy'n cynrychioli 1,250-1,300 o blant 0-5 oed a thua 1,020 o deuluoedd (yn seiliedig ar lwythi achosion ymwelwyr iechyd). Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys Ymwelwyr Iechyd a Bydwagedd sy'n gweithio yng Nghwm Gwendraeth, Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd, Gweithiwr Chwarae, Gweithiwr Cymorth Paratoi i fod yn Rhiant, Cynorthwydd Cyswllt Ysgol, a Chysylltydd Cymunedol sy'n gweithio i nodi a chynnal perthynas gydag asiantaethau partner a'r gymuned. Ategir y tîm gan ddamcaniaethau pontio, i gryfhau'r gymuned drwy gefnogi teuluoedd â phlant ifanc fel eu bod yn wybodus, yn hyderus ac yn gallu cael gafael ar gymorth pan fo angen. Fel darparwyr cyffredinol, mae gan yr Ymwelwyr Iechyd a'r Bydwagedd gyswllt uniongyrchol â phob menyw feichiog a phob teulu sydd ag o leiaf un plentyn o dan bum mlwydd oed, gan ddarparu rhaglenni gofal Cymru Gyfan a nodi teuluoedd sydd angen cymorth. Mae'r cymorth hwn yn amrywio o ofal mamolaeth i ymweliadau iechyd i gefnogaeth un-i-un neu grwpiau hawdd eu cyrraedd mewn lleoliadau ar draws yr ardal gan weithio'n agos gyda chymunedau ac asiantaethau trydydd sector a chyhoeddus, y mae pob un ohonynt yn hanfodol i'r gwaith. Cefnogir teuluoedd o'r cyfnod cynenedigol hyd at saith oed, gan gynnwys y cyfnod pontio i'r ysgol, sy'n ddryrys weithiau. Yn ei bedwaredd blwyddyn erbyn hyn, mae wedi tyfu ac esblygu o ddechrau ansicr yn y cyfnod pan oedd Covid yn ei anterth, i ehangu a darparu gwasanaeth sy'n cael ei groesawu a'i ddefnyddio gan lawer.



Bwyd a Hwyl 2023

Mae Bwyd a Hwyl yn rhaglen addysg gyffrous mewn ysgolion a gynhelir dros 12 diwrnod yn ystod gwyliâu ysgol yr haf a ariennir gan CLILC. Mae'n cael ei ddarparu gan staff a phartneriaid ysgolion ynghyd â chymorth gan Gyngor Sir Caerfyrddin a gweithwyr ieuchyd proffesiynol. Mae'r rhaglen yn darparu bwyd a maeth, addysg, gweithgarwch corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol. Cynhaliwyd Bwyd a Hwyl yn llwyddiannus mewn 6 ysgol yn Sir Gaerfyrddin dros wyliâu'r haf 2023: Ysgol y Bedol, Ysgol Pontyberem, Ysgol Penrhos, Ysgol y Betws, Ysgol Bro Banw ac Ysgol Llandeilo. Roedd tua 200 o blant 3-11 oed wedi elwa ar y rhaglen Bwyd a Hwyl.



Caiff tystysgrif Marc Ansawdd ei ddyfarnu sy'n cadarnhau bod ysgol yn hwylusydd Bwyd a Hwyl. Dyfernir gwobr efydd i ysgolion yn ystod eu blwyddyn gyntaf, gwobr arian yn ystod eu hail flwyddyn ac aur ar gyfer cynlluniau sydd wedi bod wrthi am fwy na 3 blynedd.

**Beth gallwn ni
wneud yn well?**

Byddwn yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r bylchau yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-27, gan gynnwys hyrwyddo a datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg ymhellach. Byddwn hefyd yn gweithredu ehangiad Dechrau'n Deg yn raddol unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Ein nod fydd gweithredu blaenoriaethau allweddol y Cynllun Gweithredol Mamolaetha Blynnyddoedd Cynnar a'r Strategaeth Mamolaeth a Blynnyddoedd Cynnar Ranbarthol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Sector Gwirfoddol, er mwyn symud tuag at fodel cyflawni integredig.

Byddwn yn sicrhau gwasanaeth cymorth teuluol effeithiol sy'n cefnogi teuluoedd i wneud y newidiadau sydd eu hangen ar blant fel bod llai o blant yn symud ymlaen i lwybr amddiffyn plant, a bod plant yn gallu aros gartref/dychwelyd adref yn ddiogel. Rydym am wella trefniadau parhad cynnar trwy sefydlu cydraddoldeb ffioedd a lwfansau rhwng gofalwyr Gwarcheidiaeth Arbennig a gofalwyr maeth, i annog gofalwyr cysylltiedig i fod yn Warchodwyr Arbennig, gan gadw plant gyda'u teuluoedd ac allan o ofal; cadw plant gyda'u teuluoedd ac allan o ofal.

Byddwn yn datblygu'r cyfleusterau sych iau yn ein Cyfleusterau Actif i ddarparu cyfleoedd cynaliadwy i blant fod yn egniol, gan ddefnyddio mewnwelediad i fesur llwyddiant. Hefyd, byddwn yn cefnogi ac yn datblygu 50 o sefydliadau cymunedol newydd i ddarparu cyfleoedd gweithgarwch corfforol cynaliadwy e.e. Us Girls, Anabledd, Clybiau Ieuentid.

Yn Gryno

- Mae presenoldeb wedi gwella yn 2023-24, ac mae'r Strategaeth Bresenoldeb ar fin cael ei chwblhau, gydag adnoddau cymorth i ysgolion yn parhau i gael eu mireinio a'u datblygu ymhellach.
- Mae nifer y Disgyblion ym Mlynnyddoedd 11 ac 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi cyflawni gwaith ieuenctid pontio ôl-16 yn unol â Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru.
- Rydym yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei werthfawrogi a'i werthfawrogi'n gyfartal, ac i gyflawni ein blaenoriaethau uchelgeisiol.
- Fel un tîm Addysg a Gwasanaethau Plant, rydym wedi gweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael cefnogaeth lwyddiannus i gael mynediad i'w haddysg a'r holl wasanaethau oedd eu hangen arnynt.
- Roedd y gwahanol arolygiadau wnaed yn ystod 2023/24 yn dystiolaeth o hyn. Nododd arolygiad Estyn o'n gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol: 'Caiff gwasanaethau addysg Sir Gaerfyrddin eu harwain yn gadarn gan uwch-swyddogion ac aelodau etholedig, sy'n rhannu gweledigaeth glir ar gyfer addysg yn yr awdurdod. Cefnogir hyn gan ddiwylliant agored a chadarnhaol a phrosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella sy'n drylwyr, ar y cyfan. Trwy hyn, mae arweinwyr yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth addysg a chanlyniadau dysgwyr yn y rhan fwyaf o'u meysydd cyfrifoldeb ac yn gallu gosod cyfeiriad clir ar gyfer gwelliant pellach yn y dyfodol...'

Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae'r Cyngor yn cynnal 1 ysgol feithrin, 94 ysgol gynradd, 12 ysgol uwchradd ac 1 ysgol arbennig sy'n darparu addysg i fwy na 27,000 o ddisgyblion.
- Derbyniodd ein harolwg preswylwyr 2023 bron i 4,000 o ymatebwyr, gyda'r mwyafrif yn cytuno bod ysgolion lleol yn darparu addysg dda i blant a phobl ifanc gyda sgôr^[1] o 0.41. Mae hyn yn ostyngiad bach ar sgôr 2022 o 0.52 ond mae'n parhau i fod yn gytundeb cyffredinol.
- Mae cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yn ystod 2023/24 gyda 2.3% (46 allan o 1,987) o gymharu â 1.9% (36 allan o 1,914) y flwyddyn flaenorol.



[1] Y Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.

Canlyniad: Mae disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cefnogi'n llawn.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn rhan annatod o wasanaeth rheng flaen yr Awdurdod Lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae gan y gwasanaeth hwn gyfrifoldebau statudol ac mae'n darparu cymorth ac ymyrraeth pan fo angen.

Mae'r Awdurdod wedi gweithredu Rhaglen Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru i gefnogi system ADY newydd sy'n canolbwyntio ar y person, ac sy'n cefnogi dysgwyr â dysgu personol i gyflawni deilliannau effeithiol. Fodd bynnag, mae hyn yn erbyn cefndir o gyni ac adfer yn dilyn covid. Mae tîm cymorth canolog y Cyngor yn sicrhau bod ysgolion yn meithrin y gallu i nodi anghenion yn gynnar, gwneud y ddarpariaeth gywir, ac yna monitro ac adolygu'r ddarpariaeth hon. Mae ysgolion wedi bod angen cymorth sylweddol gan y Gwasanaeth ADY i gyflawni'r disgwyliad hwn oherwydd toriadau cyllidebol a disgwyliadau newydd ar gydlynwyr ADY ac athrawon dosbarth. Roedd y galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol o ganlyniad i'r galw annisgwyl am leoliadau awtistig yn golygu bod angen defnyddio adnoddau adrannol a nodwyd ar gyfer twf i ymateb yn amserol i ddatblygu darpariaeth arbenigol newydd i lenwi bylchau a nodwyd yn ddarpariaeth Anhwylderau'r Sbectwm Awtistiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth arbenigol uwchradd o ran Anhwylderau'r Sbectwm Awtistiaeth. Mae'r sefyllfa hon wedi golygu bod adnoddau i gefnogi adeiladu capasiti yn ein hysgolion prif ffrwd i ddiwallu anghenion dysgwyr wedi gorfod cael eu cyfeirio at ddarpariaeth arbenigol, gan effeithio ar allu'r adran i gyrraedd targedau ar gyfer cryfhau arferion cynhwysol.

Mae strategaeth y Cyngor ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn datgan bod addysg gynhwysol yn golygu bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael cwricwlwm wedi'i bersonoli a rhwydweithiau cymorth priodol. Rydym wedi ymrwmo i'r gred mai 'dysgu cynhwysol' yw'r arfer gorau mewn addysgu a dysgu. Rydym yn rhoi pwyslais cryf ar gefnogi ysgolion yn y meysydd allweddol canlynol:

- Asesu cryfderau ac anghenion yn gywir;
- Cynllunio'n effeithiol i adeiladu ar gryfderau a mynd i'r afael â meysydd lle mae angen;
- Mabwysiadu dulliau addysgeg i wneud y gorau o ddysgu unigol;
- Cynnwys plant wrth bennu eu nodau dysgu a gwerthuso eu cynnydd tuag at dargedau y cytunwyd arnynt;
- Ymgysylltu â rhieni i'w hysbysu am gynnydd eu plant a'u cynnwys wrth gefnogi dysgu eu plant;
- Gwerthuso cynnydd plant unigol a chynnydd grwpiau a dosbarthiadau;
- Mireinio'r dull o addysgu a dysgu yn sgil gwerthuso;
- Cynnal cofnodion systematig i adrodd am gynnydd ac i alluogi ymarfer myfyriol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r system ADY newydd eu hymgorffori mewn ysgolion ac maent i raddau helaeth wedi cael eu croesawu gan ysgolion, ymarferwyr, rhanddeiliaid, rhieni a gofalfwyr. Mae Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn Ysgolion yn frwdfrydig ac wedi ymrwmo i nodi anghenion yn gynnar a sicrhau bod yr ymyriadau cywir ar waith i sicrhau bod disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Fodd bynnag mae Penaethiaid yn teimlo bod toriadau i'r gyllideb yn effeithio ar eu gallu i ddarparu ar gyfer dysgwyr mewn modd priodol ac amserol.

Mae clystyrau o ysgolion yn cyfarfod bob hanner tymor i sicrhau bod pob ysgol yn gwneud cynnydd cyson o ran monitro ac adolygu'r ddarpariaeth i fodloni gofynion y Cod, fel y tystiolaethir gan y rhannau o adroddiadau Estyn sy'n rhoi sylw i ADY. Mae model cymorth gwahaniaethol yr Adran ADY yn gofyn am fewnbwn ac arweiniad helaeth gan swyddogion canolog, ond mae'n rhaid cydbwysu hyn yn erbyn yr effaith bositif gaiff ar ein hysgolion. Gyda llygad ar y dyfodol, rydym yn cydnabod y gallai'r amser a neilltuir i gefnogi ysgolion effeithio ar allu'r adran i fonitro ac adolygu'r ddarpariaeth mewn ysgolion, a nodwyd fel un o swyddogaethau statudol yr awdurdod lleol yn Neddf a Chod ALNET.

Mae ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi gweithio'n galed i ddatblygu capasiti'r gweithlu ac i gyflawni trawsnewid yn yr amser a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ysgolion yn ymgymryd â dulliau Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Unigolion (PCP) ac yn nodi anghenion yn gynnar i wneud darpariaeth brydlon ac effeithiol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â chreu Cynlluniau Datblygu Unigol effeithiol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Ar gyfer dysgwyr na nodir bellach fod ADY ganddynt, mae ysgolion Sir Gaerfyrddin yn gweithredu strategaethau i barhau i ddiwallu eu hanghenion ac i fonitro cynnydd yn barhaus fel y bo'n briodol ac maent yn parhau i dderbyn cymorth addas wedi'i dargedu. Fel y mynegir uchod, mae hyn yn heriol mewn cyfnodau o gyni, toriadau cyllidebol, a disgwyliadau uwch ar y systemau mewn ysgolion.

Mae'r Tîm Cynhwysiant Canolog yn helpu gyda gweithio clwstwr - gweithio ysgol i ysgol, rhannu arferion ac adnoddau arbenigol. Mae Ymweliadau Cymorth Ysgolion ADY a ddarperir gan y Tîm Ymgynghorol ADY yn cynnig cymorth parhaus gydag olrhain ac ymweliadau ysgol wedi'u teilwra i fynd i'r afael â thrawsnewid ADY a sicrhau ansawdd.

Trwy gefnogaeth gwasanaethau canolog, mae'r berthynas waith agos a'r dogfennau canllaw wedi cefnogi ysgolion i gymhwyso'r ddeddf a'r cod gan sicrhau cysondeb wrth benderfynu ar ADY a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

Mae capasiti'r Adran ADY wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf yn dilyn dyrannu twf. Fodd bynnag, mae Adran ADY Sir Gaerfyrddin yn dal yn fach o gymharu â'r timau ADY mewn awdurdodau lleol eraill. Mae heriau'n codi pan beryglir rhifau'r staff, sydd wedyn yn golygu bod yr adran yn fregus o ran cyflawni ei dyletswyddau statudol.

Mae darpariaeth gyfartal gan Sir Gaerfyrddin yn y Gymraeg a'r Saesneg - adnoddau, asesiadau, staffio a digonolrwydd darpariaeth arbenigol, ac yndilyn arolygiad Estyn yn Sir Gaerfyrddin, bu'n llwyddiannus yn cynnal Rhaglen Arweiniol Genedlaethol Llywodraeth Cymru ac mae'n gweithio gydag Arweinydd y Gymraeg i ddatblygu offer ac adnoddau Gymraeg.

Rhaglen Llythrennedd Corfforol

Cafodd y rhaglen Llythrennedd Corfforol ei hymestyn i'r Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol yn 2023 i sicrhau bod pob plentyn yn y Sir, beth bynnag ei allu, yn cael cyfle i ddod yn fwy hyderus wrth gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Trwy ddull ysgol gyfan, cafodd staff o 3 uned hyfforddiant ar sut y gallant addasu gweithgareddau fel eu bod yn addas i anghenion eu disgyblion, a chefnogaeth barhaus i ddilyn gan y Swyddog Pobl Ifanc Egniol. Mae 6 uned arall yn rhan o'r rhaglen ar gyfer tymor yr haf. Gwahoddwyd ysgolion hefyd i'r Digwyddiad Cyfres INSPORT cyntaf, a drefnwyd gan Chwaraeon Anabledd Cymru gyda chymorth y Tîm Pobl Ifanc Egniol. Roedd y digwyddiad yn darparu cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cynhwysol i bobl ifanc anabl, gyda 57 o ddisgyblion o bob rhan o'r Sir yn cymryd rhan.



Canlyniad: Cynyddu cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion a mynediad i addysg ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.

Un o argymhellion Arolygiad Estyn o'n gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol oedd:

Gwella presenoldeb disgyblion' yn ysgolion yr awdurdod.

Gwella presenoldeb yw un o flaenoriaethau'r Cabinet newydd. Er bod yr awdurdod wedi nodi presenoldeb fel maes pwysig sydd angen sylw, mae'r gwelliannau ar draws ysgolion wedi bod yn amrywiol. Mae cynnydd cryf wedi bod yn lleiafrif yr ysgolion, er bod cyfraddau presenoldeb ysgol cyffredinol yr awdurdod yn parhau i fod yn isel yn dilyn y pandemig.'


Gwellodd presenoldeb yn y flwyddyn academiaidd lawn ddiwethaf, 2022-23, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen gwelliant pellach a pharhaus yn y blynyddoedd i ddod, ac, o'r herwydd, bydd hyn yn para'n flaenoriaeth.

Mae dangosfwrdd data presenoldeb wedi'i ddatblygu i gefnogi monitro presenoldeb ym mhob ysgol, ar gyfer yr ysgol gyfan yn ogystal â grwpiau unigol o ddisgyblion fel y rhai sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bellach hon yw'r brif ffordd o gael a rhannu data presenoldeb, a ddwywaith y flwyddyn mae'r holl ysgolion yn cael crynhoad o ddata ledled y sir i feincnodi eu cynnydd yn erbyn ysgolion tebyg a rhai yn eu clystyrau.

Mae hyfforddiant ar gyfer staff ysgol sy'n gyfrifol am wella presenoldeb wedi'i drefnu fel digwyddiad blynyddol i rannu arfer da ac i gyd-lunio strategaethau yn yr ysgol.

Datblygwyd ymgyrch gyfryngau ynghylch presenoldeb ochr yn ochr ag Adran Marchnata a Chyfryngau'r awdurdod i gyfleu neges gadarnhaol i rieni a chymunedau am fynychu'r ysgol. Mae Strategaeth Bresenoldeb drawsadrannol yn cael ei datblygu sy'n cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Gwella Ysgolion, Gwasanaeth Ieuenctid, Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg, a bydd yn cael ei chwblhau ym mlwyddyn academiaidd 2023-24. Bydd mireinio a datblygu adnoddau ategol ymhellach ar gyfer ysgolion yn digwydd yn barhaus trwy 2023-24.

Mae'r graff uchod yn dangos effaith sylweddol pandemig Covid ar bresenoldeb ysgolion yn Sir Gaerfyrddin fel ym mhob awdurdod lleol ac yn dangos yr adferiad graddol ers hynny. Ein nod yw adfer presenoldeb ysgol i lefelau 2019 o leiaf ac i wella o'r fan honno.



Dysgwyr agored i niwed

Bydd Cynnydd Strategol Adran Addysg a Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei lywio gan gyfres o 'Grwpiau Ffocws' cydweithredol mewn modd strategol a gweithredol, gan gydymffurfio â chynllun busnes yr adran. Nod y Grŵp Ffocws ar Gynhwysiant ac Ymgysylltu yw sicrhau system addysg ragweithiol, gynhwysol i bawb gan gynnwys pob grŵp agored i niwed. Mae presenoldeb pob grŵp agored i niwed yn cael ei fonitro drwy'r dangosfwrdd y cyfeirir ato uchod a'i adrodd i'r Tîm Rheoli Adrannol a'r Grŵp Ffocws perthnasol fel uchod. Mae presenoldeb yr holl grwpiau o ddysgwyr yn faes ffocws allweddol mewn trafodaethau rhwng y Tîm Cymorth Addysg ac ysgolion.

Addysg Ddewisol yn y Cartref

Mae ein tîm Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi cryfhau ein gweithdrefnau lleol i sicrhau bod ysgolion, teuluoedd a dysgwyr yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau pan ystyrir Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae newid i'r 'ffurflen ymadael' yn ein galluogi i ddeall yn well y rhesymau pam mae rhieni'n dewis y math hwn o addysg, a gwybodaeth am y plentyn cyn cael addysg ddewisol yn y cartref.

- Ar hyn o bryd mae gan Sir Gaerfyrddin 657 o ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref (mae'r nifer hwn yn amrywio ac yn tueddu i fod yn uwch ar ddiwedd tymor yr haf).
- Mae'r staff wedi gweithio'n effeithiol gyda theuluoedd ac yn ystod 2023/24 cafodd 79.25% o'r plant hyn ymweliad blynyddol.
- Mae nifer o bobl ifanc wedi sefyll ystod o arholiadau TGAU ac mae'r cyrhaeddiad wedi bod yn dda.
- Mae'r grant Addysg Ddewisol yn y Cartref a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau ac adnoddau i deuluoedd fel bod profiad dysgu pobl ifanc yn fwy cyfoethog.

Osgoi Ysgol ar Sail Emosiwn

Mae Sir Gaerfyrddin wedi cynhyrchu pecyn cymorth hyfforddiant 'arfer gorau' ar gyfer ysgolion ac asiantaethau cymorth mewn perthynas ag Osgoi Ysgol ar Sail Emosiwn (EBSA). Mae'r prosiect pecyn cymorth yn datblygu dealltwriaeth o EBSA ar draws ysgolion, gan ddarparu mewnbyn seicolegol, ac o anghenion EBSA sy'n cyflwyno. Ymgysylltwyd ag 11 (o 12) o ysgolion uwchradd rhwng Ionawr 2023 a Mawrth 2024. Rydym yn gweithio ar gynyddu ymwybyddiaeth o fewn ysgolion a chydag asiantaethau eraill drwy hyfforddiant a chymorth ymgynghori.

Mae ysgolion uwchradd yn dangos gwell dealltwriaeth o ymddygiadau EBSA sy'n cyflwyno, ac yn gweithio i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion EBSA yn dod i'r amlwg yn hytrach nag aros i anghenion sefydlu.

Y Tîm Cyflawniad Grwpiau Lleiafrifol ac Ethnig

Mae'r tîm Cyflawniad Grwpiau Lleiafrifol ac Ethnig (MEAS) yn darparu:

- Canllawiau a chymorth wedi'u targedu ar gyfer ysgolion sydd â dysgwyr y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn leithoedd Ychwanegol iddynt.
- Canllawiau addysgeg gyffredinol ar gyfer ysgolion (hyfforddiant ac adnoddau).
- Cyngor penodol ar gyfer ysgolion sydd â theuluoedd o ffoaduriaid neu geiswyr lloches.
- Cefnogi proses sefydlu mewn ysgolion ar gyfer newydd-ddyfodiaid.
- Darparu cefnogaeth iaith gyntaf i newydd-ddyfodiaid mewn Arabeg, Pwyleg ac Wcreineg.
- Cynorthwyo â TGAU iaith y cartref.
- Cyfieithu i deuluoedd.
- Datblygu cysylltiadau â sefydliadau Cymorth Ieuencid Ethnig megis yr Ysgol Noddfa, Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i godi ymwybyddiaeth, hyrwyddo cydraddoldeb a herio gwahaniaethu.

Gwasanaeth Sipsiwn, Romani a Theithwyr

- Rydym wedi datblygu perthynas agos â rhieni ynghylch addysg eu plant, y gefnogaeth a'r cyngor a roddir iddynt yn ogystal â chyfeirio at asiantaethau eraill.
- Cymorth yn cael ei roi gan Gynorthwyydd Addysgu i ddisgyblion Sipsiwn, Romani a Theithwyr.
- Cysylltiadau gwaith agos gydag adrannau eraill yn y Sir i sicrhau bod disgyblion Sipsiwn, Romani a Theithwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
- Monitro presenoldeb bob tymor.

Ymagwedd Ymwybodol o Drawma

Mae'r ymagwedd hon yn dod yn rhan o'r drefn yn ein hysgolion lle caiff 'oedolyn sydd ar gael yn emosiynol' ei benodi o fewn yr ysgol i gysylltu â'r plentyn/person ifanc a'r teulu, sy'n gwneud gwahaniaeth o ran sut mae teuluoedd sy'n cael cymorth yn teimlo.

Canlyniad: Cyflwyno cwricwlwm cyflawn sy'n codi safonau addysgol.

Y Cwricwlwm Newydd

Mae athrawon a disgyblion yn cyd-ddylunio cwricwlwm dysgu sy'n seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae profiadau dysgu yn ein hysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn gynhwysol a phwrpasol, gan anelu yn llwyddiannus at leihau effaith tlodi.

Yn gynyddol, mae cysylltiad pwrpasol rhwng profiadau dysgu a'r gymuned leol, ein Cynefin, gan sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gyfoethog o'u hardal a'u treftadaeth.

Mae ein hysgolion i bob pwrpas yn cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn ddysgwyr galluog uchelgeisiol sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau, gan ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a Saesneg dwyieithog yn effeithiol. Mae ystod eang o brofiadau dysgu yn sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn datblygu eu sgiliau arloesi a meddwl yn greadigol, gan sicrhau eu bod yn wybodus am Gymru a'r byd.

Mae ymgysylltu â phrofiadau a gweithgareddau dysgu yn sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn datblygu fel unigolion hyderus iach, gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddysgu yn yr ysgol, yn yr awyr agored ac yn ein hamgylchedd lleol

Mae meysydd dysgu a phrofiad yn cynnwys ffocws ar lythrennedd ieithoedd a chyfathrebu, gwyddoniaeth a thechnoleg, mathemateg a rhifedd, y celfyddydau mynegiannol, y dyniaethau ac iechyd a llesiant.

Mae'r cwricwlwm hefyd yn datblygu gwybodaeth disgyblion am hawliau dynol, perthnasoedd priodol a rhywioldeb, amrywiaeth, a pharchu gwahaniaethau, yn ogystal â darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am yrfaeoddd a'r gweithle.

Caiff ysgolion gefnogaeth dda i gryfhau eu harferion addysgu ac i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu'n effeithiol. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu yn gadarn neu'n well mewn llawer o ysgolion, gan sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cyd-fynd â disgwyliadau uchel athrawon. Mae cynnydd a safonau disgyblion yn cael eu monitro ar y cyd, ac mae cymorth wedi'i drefnu i sicrhau bod ysgolion mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'u blaenoriaethau datblygiadol. Y prif feysydd ffocws o hyd yw datblygu sgiliau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol, gan gynnwys defnyddio'r sgiliau hyn ar draws ystod eang o feysydd pwnc. Cynnydd disgyblion unigol yw'r ffocws allweddol o hyd, gyda chynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sail i gynllunio profiadau dysgu ar draws llawer o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rhai sydd mewn grwpiau penodol, yn gwneud cynnydd da o ran datblygiad sgiliau yn y blynyddoedd cynnar, ac o ran eu rhifedd, eu llythrennedd a'u sgiliau digidol dros amser.

Arolygiadau Estyn

Crynodeb o Ganlyniadau Estyn 2017-2024



Ers mis Mawrth 2022 ceir fframwaith arolygu newydd ac nid yw Estyn bellach yn darparu dyfarniadau crynodol ar gyfer meysydd arolygu unigol. Gall arolygwyr barhau i wneud ysgol yn destun Adolygiad Estyn os ydynt yn barnu y byddai'r ysgol yn elwa ar gael cyfnod byr o amser i wella ychydig agweddau ar ei gwaith. Mae'r ddau gategori statudol o gamau dilynol yn parhau heb newid. Dyma pan mae angen gwelliant sylweddol ar ysgolion neu lle mae angen mesurau arbennig arnynt.

Rydym eisiau lleihau cyfran yr ysgolion sydd angen camau dilynol ar ôl arolygiad Estyn.

Blwyddyn Academaidd	Nifer yr Archwiliadau	Dim Dilyniant	Adolygiad Estyn	Gwelliant Sylweddol	Mesurau Arbennig
2017-18	17	13	3	1	
2018-19	14	5	6		3
2019-20	13	7	6		
2020-21 (Covid)	Dim Arolygiadau				
2021-22 (Arolygiadau yn ailgychwyn Fframwaith Newydd)	13	11		1	1
2022-23	21	17	3		1
2023-Mawrth 24	13	10		1	2

Ers i Estyn ailddechrau arolygu ysgolion ar ôl Covid ym mis Mawrth 2022, nid oes llawer o'n hysgolion wedi cael unrhyw gamau dilynol neu ychydig mewn categori. Bron ym mhob achos, mae aliniad agos rhwng canlyniadau Estyn a dealltwriaeth yr adran o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

Nodwyd chwe Astudiaeth Achos arfer da yn ein harolygiadau rhwng Medi 2023 a Mawrth 2024. Barnwyd bod yr ysgol a osodwyd mewn Gwelliant Sylweddol ym mis Mawrth 2022 a'r un a osodwyd mewn Mesurau Arbennig ym mis Mehefin 2022 wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'u hargymhellion, ac fe'u tynnwyd o'r categorïau ym mis Rhagfyr 2023. Rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024 cynhaliwyd 13 o arolygiadau, 10 heb unrhyw gamau dilynol, 1 Gwelliant Sylweddol a 2 Mesurau Arbennig. Roedd yr ysgolion oedd angen camau dilynol wedi cael eu nodi fel ysgolion oedd yn achosi pryder. Fodd bynnag, nid oedd y mesurau roddwyd ar waith wedi sicrhau cynnydd digonol cyn arolygiad Estyn.

Cyrhaeddiad

Yn gyffredinol, roedd canlyniadau arholiadau TGAU a Safon Uwch yn is na'r lefel cyn y pandemig (Blwyddyn Academaidd 2018/19). Fodd bynnag, wrth i ni newid yn ôl i drefniadau asesu cyn y pandemig, arhosodd rhywfaint o'r gefnogaeth ar gyfer dysgwyr a safodd arholiadau yn 2022/23. Roedd y gefnogaeth hon ar ffurf gwybodaeth ymlaen llaw ac ymagwedd gefnogol at raddio. Oherwydd y trefniadau archwilio amrywiol sydd ar waith ers 2018/19, rhaid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau rhwng blyneddau dilynol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol dros amser o'r manau cychwynnol.

- Yn Sir Gaerfyrddin, dyfarnwyd gradd A*-C i 67.8% o'r holl geisiadau a dyfarnwyd gradd A*-A i 21.7% o'r ceisiadau.
- Cyflawnodd cyfanswm o 96.6% o fyfyrwyr Safon Uwch yn Sir Gaerfyrddin raddau A*-E.
- Trwy gyfuniad o arholiadau ac asesiadau, sy'n berthnasol i wahanol gyrsiau, mae cyfanswm o 29.4% o fyfyrwyr Safon Uwch ledled Sir Gaerfyrddin wedi derbyn gradd A neu A* eleni; ac mae 88.7 % o fyfyrwyr UG Sir Gaerfyrddin wedi cael graddau A-E.



Rhaglen Llythrennedd Corfforol

Mewn ymateb i ddata lleol a chenedlaethol mae'r Tîm Cymunedau Actif wedi datblygu rhaglen 'Llythrennedd Corfforol' i wella ansawdd chwaraeon ysgol a gweithgarwch corfforol. Cyflawnwyd hyn ar ffurf dull ysgol gyfan trwy becyn o hyfforddiant, mentora a chymorth i staff ysgolion. Cafodd 62 o Ysgolion Cynradd hyfforddiant ar gyfer eu gweithlu staffio cyfan, yn ogystal â sesiwn fentora ddilynol i wreiddio'r dysgu a darparu cymorth pellach. Mae adborth gan staff ysgolion yn dangos cynnydd o 30% mewn lefelau hyder a chymhwysedd gyda gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd llythrennedd corfforol. Mae hyn yn ei dro wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad corfforol a hyder y disgyblion i'w hysbrydoli i Wirioni ar Chwaraeon am Oes.



Rhaglen Llysgenhadon Chwaraeon Ifanc

Mae'r Rhaglen Llysgenhadon Chwaraeon Ifanc mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae 330 o Lysgenhadon Efydd o 90 o ysgolion cynradd a thros 40 o Lysgenhadon Arian ac Aur o 9 o ysgolion uwchradd (ym mlwyddyn academaidd 2023/24) wedi ysbrydoli ac arwain y genhedlaeth nesaf i fod yn fwy egnïol. Mae Llysgenhadon Ifanc yn derbyn hyfforddiant, adnoddau a chefnogaeth barhaus i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn hyderus wrth gyflwyno gweithgareddau allgyrsiol yn eu hysgolion, gyda thua 51,000 o gyfranogwyr wedi'u cofnodi yn rhymor yr Hydref a'r Gwanwyn.



Rhaglen Feicio

Mae rhaglen feicio Actif i ysgolion yn sicrhau bod plant yn dysgu'r sgil o reidio beic yn hyderus mewn amgylchedd diogel. Fel rhan o'r cynnig, gall ysgolion hurio beiciau balans a phedlo am flwyddyn, ynghyd â chael hyfforddiant a chefnogaeth gan y tîm. Yn 2023/24, manteisiodd 15 ysgol ar y rhaglen, gydag ychydig dros 5,000 yn cymryd rhan mewn sesiynau allgyrsiol, lle cafodd y plant gyfle i ddysgu reidio beic, ac unwaith yn llwyddiannus, anogir plant i barhau i feicio y tu allan i'r ysgol.

Roedd gwahaniaethau cadarnhaol enfawr yn lefelau hyder staff, gan sicrhau bod sesiynau'n cael eu cyflwyno'n fedrus a'u bod o ansawdd uchel.

Bellach mae gan bob un o'r 12 ysgol uwchradd fynediad at 20 beic ar gyfer eu hysgol, a ddefnyddir yn rhymor yr haf yn ystod amser cwricwlaidd ac allgyrsiol. Mae gweithwyr ieuenctid hefyd yn defnyddio beiciau ar gyfer grwpiau ymyrryd.



Canlyniad: Prydau ysgol maethlon am ddim i bob disgybl ysgol gynradd.

Mae'r Gwasanaeth Arlwyyo yn gyfrifol am ddarparu prydau ysgol ym mhob un o ysgolion Sir Gaerfyrddin gan gynnwys:

- Yn gweini tua 18,000 o brydau bwyd bob dydd.
- Cydymffurfio â safonau cenedlaethol gan gynnwys bwyta'n iach, hylendid bwyd ac alergenau.
- Gwasanaeth brecwast am ddim ym mhob ysgol gynradd bron.

Rydym yn cynnig bwydlen sy'n cydymffurfio â rheoliadau Llywodraeth Cymru ac sy'n cyrraedd y radd uchaf sydd ar gael ar gyfer cydymffurfio a chydbwysedd maethol. Mae bwydlenni yn cael eu dadansoddi'n faethol gan ddefnyddio meddalwedd datblygu rysâit Saffron.

Rydym yn parhau i weithio gyda rhieni, ysgolion a rhanddeiliaid allanol i reoli dietau ac alergeddau arbennig. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau gofal unigol ar gyfer disgyblion, cyfarfodydd 1-1 gyda rhieni a system waith gadarn i sicrhau amgylchedd bwyta iach a diogel. Rydym yn mynd y tu hwnt i'r canllawiau a'r gwaith cyfredol i gynnwys disgyblion nad ydynt yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd yn y grwpiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai â hawl i fwydlen deiet arbennig (h.y. myfyrwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion ag anawsterau synhwyrdd ac ati)

Prydau Ysgol am ddim

Roedd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch ymestyn hawl Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn ysgol gynradd angen cryn dipyn o gynllunio, ariannu a buddsoddi i feithrin gallu a pharatoi ar gyfer gweithredu'r ymrwymiad. Darperir darpariaeth prydau ysgol ar gyfer 97 lleoliad yr Awdurdod drwy 3 gegin gynhyrchu ganolog, 85 o geginau cynhyrchu sydd ynghlwm wrth leoliadau yn ogystal â danfoniadau rhwng geginau cynhyrchu a 15 canolfan fwyta.

Mae Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Disgybl Ysgol Gynradd wedi cael eu cynnig i ddisgyblion Meithrin a Derbyn ers Medi 2022; Blwyddyn 1 ers Ionawr 2023; Blwyddyn 2 ers Ebrill 2023; Blynnyddoedd 3 a 4 ers Medi 2023; Blwyddyn 5 ers Chwefror 2024; gyda Blwyddyn 6 yn dechrau yn Ebrill 2024.

	Wythnos 1	Wythnos 2	Wythnos 3
Llyn	3 Mhefin, 24 Mhefin, 15 Gorffennaf, 2 Medi, 23 Medi, 14 Hydref	10 Mhefin, 1 Gorffennaf, 9 Medi, 30 Medi, 21 Hydref	17 Mhefin, 8 Gorffennaf, 16 Medi, 7 Hydref
Meirch	Pizza Margherita (L) (C) Pis Pib neu Bwyd Tafel a Phwydau Eirin Gwladol a Hufen (L)	Pasta Ffai Tomato a Basil (L) (C) Bwyd Gwladol Cawl Hufen a Bwyd NEWYD! Bwyd Ffai Ffai Ffai (L) a Thapiou Allt	Pasta Ffai a Hufen neu Bwyd Haf Gog (L)
Iau	Bollagrotte Cig Eiddon neu Bolognese Llawen (L) (C) Slegat a Bwyd Gwladol Pffag (L) a Bwyd a Sudd Ffynhau	Korrio Cwrt neu Korrio Quorn (L) (C) Bwyd Cymryd a Bwyd Hufen Cawl Rice Kriog (L) a Gwladol a Llawen	Llawen Cwrt neu Korrio Bwyd neu Llawen Cwrt Quorn (L) (C) Bwyd Cymryd Cawl Hufen a Bwyd Sawl Ffai (L)
Gwener	Tafel Bwyd neu Ffai Quorn (L) (C) Slegat (L) Hufen a Bwyd Gwladol Dewls a Ddws a Gwladol Bwyd Gwladol (L) a Thapiou Allt	Cig Eiddon Cymryd Hufen neu Ffai Quorn (L) (C) Pwdrin Bwyd Hufen a Bwyd Gwladol Dewls a Ddws a Gwladol Pwdrin a Bwyd a Sudd Ffynhau	Tafel Bwyd neu Ffai Quorn neu Ffai Quorn (L) (C) Slegat (L) Hufen a Bwyd Gwladol Dewls a Ddws a Gwladol NEWYD! Bwyd a Sudd Ffynhau a Llawen

(L) = Opsiwn Llysieuol / (C) = Bwyd Cartref

Canlyniad: Mwy o addysg ddwyieithog ac addysg cyfrwng Gymraeg.

Ein gweledigaeth yw sicrhau dilyniant cyfrwng Gymraeg drwy addysg statudol i fyd gwaith neu addysg bellach ac uwch. Rydym yn cynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn sy'n derbyn addysg cyfrwng Gymraeg yn unol â dynodiadau newydd Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cryfhau ac ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr drwy Ganolfannau Iaith gyda darpariaeth benodol ar gyfer hwyrddfyddiaid a gwella safonau. Rydym yn sicrhau bod dysgwyr ag ADY yn cael cyfleoedd ieithyddol sy'n hafal i rai eu cyfoedion prif ffrwd.

Mae ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'n cynllun gweithredu wedi'u trefnu o dan 7 prif ganlyniad:

1. Mwy o blant meithrin/plant 3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/plant 5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Mwy o blant i barhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i gam arall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.
6. Cynnydd yn y ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn unol â dyletswyddau a nodir gan ddeddfwriaeth.
7. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu dysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Categoreiddio leithyddol Ysgolion

Buom yn gweithio gydag ysgolion i'w symud i'r system categoreiddio ieithyddol newydd. Yn unol â chanllawiau, rydym wedi arwain drwy nodi categori sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ieithyddol bresennol ym mhob ysgol orau. Rydym hefyd wedi pennu categori fel uchelgais i bob ysgol, sef y categori i anelu at fod yn rhan ohono o fewn 10 mlynedd. Mae 80% o ysgolion yn cytuno â'u categori arfaethedig a chynhaliwyd cyfres o sgysiau a chyfarfodydd gyda'r ysgolion oedd am fwy o amser i ystyried y sefyllfa.

Canlyniad: Ysgolion ar gyfer dysgu cymunedol cynaliadwy sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Cyflwr Adeiladau Ysgol a'r Rhaglen Moderneiddio Addysg

Oherwydd buddsoddi, cafodd 72% o ysgolion Sir Gaerfyrddin eu graddio'n rhai "Da" neu "Foddhaol" am gyflwr yr adeiladau, cynnydd o'r ganran o 63% y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae buddsoddiad pellach yn heriol gan fod cost gwella neu adeiladu ysgolion newydd wedi chwyddo'n sylweddol, gan roi pwysau ychwanegol ar gyllideb gyfalaf gyfyngedig. Amhosibl fydd cyflawni holl ddyheadau'r Cyngor Sir.


Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'r Adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg a fydd yn arwain at strategaeth ddiwygiedig i helpu i reoli ein rhaglen waith, rhestr flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi ac ymgynghori, a fydd yn sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion Addysg yn yr 21ain Ganrif. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiadau datgarboneiddio o stad ysgolion yr Awdurdod Lleol. Bydd yr asesiadau'n cynnwys datblygu strategaeth amlinellol ar gyfer datgarboneiddio pob safle ysgol. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi sut y gallwn wneud ein hysgolion yn fwy effeithlon o ran ynni. Rydym wedi ymgynghori ynghylch ein Strategaeth ddrafft ar gyfer y Rhaglen Moderneiddio Addysg. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr adborth.

Ar ôl cwblhau ei archwiliadau helaeth, gall Cyngor Sir Caerfyrddin gadarnhau nad oes olion o Goncrit Awyredig Awtoclawiedig Cyfnerth (RAAC) wedi'u nodi yn unrhyw un o'n lleoliadau ysgol. Mae'r ffocws hwn yn cadarnhau ein hymrwymiad i sicrhau diogelwch a llesiant ein dysgwyr a'n staff addysg.

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal ymarfer gwersi a ddysgwyd o gynlluniau blaenorol a Covid i sicrhau bod ein briff ysgolion ar gyfer y dyfodol yn berthnasol. Rydym hefyd yn edrych ar egwyddorion carbon niwtral a'r fethodoleg addysgu sy'n sail i'r cwricwlwm newydd.

Yn ogystal â'r gwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol a gwblhawyd yn 2022-2023, rydym wedi datblygu gwaith ADY ymhellach yn Ysgol y Model ac Ysgol Glan-y-Môr gan ddefnyddio ail grant ADY gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi helpu i wella a datblygu'r ddarpariaeth Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig y gellir ei darparu yn y ddwy ysgol, trwy lety a chyfleusterau addas i'r diben.

Adnoddau Synhwyrdd



“Fel ysgol, rydym yn ddiolchgar iawn am yr adnoddau synhwyrdd. Mae'r conau nyddu coch yn boblogaidd iawn, ac mae'r plant wrth eu boddau”. **Ysgol Y Felin**




“Mae'r plant yn mwynhau archwilio'r matiau gweddol ac mae hyn wedi bod o gymorth gyda'u sgiliau canolbwytio, talu sylw ac arsylwi.” **Ysgol Y Felin**



"Mae'r conau synhwyrdd yn helpu'r plant i ymlacio ac yn helpu ein disgyblion i reoli eu hymddygiad." **Ysgol Y Felin**



"Fe wnaeth yr e-bost annisgwyl yn dweud ein bod wedi cael rhai adnoddau synhwyrdd ein helpu gyda'n gweledigaeth o wneud ein canolfan yn llawer mwy cyfeillgar i ddisgyblion ar gyfer ein dysgwyr mwy synhwyrdd." **Canolfan Bro Tywi**



"Mae ein disgyblion yn gofyn yn annibynnol am gael mynd i mewn i'r den dywyll. Maen nhw'n mwynhau archwilio'r goleuadau a'r gwrthrychau ac erbyn hyn mae gennym ni weithgareddau rhyngweithio dwys hyfryd yn digwydd yn ein den dywyll."

Ysgol Y Model



"Mae un o'n disgyblion yn gofyn am gael mynd ar y matiau synhwyrdd bob bore pan fydd yn cyrraedd yr ysgol. Mae hi'n mwynhau'r teimlad ar ei thraed."

Ysgol Y Model



"Rydym ni'n gosod rhai gwrthrychau synhwyrdd yn eu blychau synhwyrdd unigol. Mae rhai disgyblion yn dod â'r adnoddau atom i gyfathrebu i ni eu bod am eu defnyddio. Mae'r adnoddau wedi cefnogi staff i gydnabod yr hyn y mae disgyblion yn ei hoffi a'i fwynhau ac wedi ein helpu i feithrin perthynas ddyfnach gyda'n disgyblion".

Ysgol Y Model

“Mae'r adnoddau a ddarparwyd wedi ein hysbrydoli i gynllunio mwy o weithgareddau synhwyrdd fel rhan o'n trefn ddyddiol. Mae'r adnoddau eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant ein disgyblion a'u cyrhaeddiad academaidd.” **Canolfan Bro Tywi**

“Fel canolfan, rydym wedi gallu creu cynlluniau cylched synhwyrdd unigol ar gyfer ein disgyblion gan ddefnyddio'r adnoddau synhwyrdd”.

Balancing is fun. I like playing with the toys. It helps me to be calm.



Pan ddychwelodd plant, athrawon a staff Ysgol Pen-bre o'u gwyliau hanner tymor ddydd Mawrth, 20 Chwefror 2024, roedd adeilad newydd sbon yn eu disgwyl.

Mae gan adeilad newydd yr ysgol gynradd, ar gyfer dysgwyr 3-11 oed, gapasiti ar gyfer 270 o ddisgyblion cynradd a 30 o leodd meithrin ac fe'i codwyd fel rhan o fuddsoddiad Rhaglen Moderneiddio Addysg Llywodraeth Cymru a Sir Gaerfyrddin, B a B.

Wedi'i chodi ar dir ger safle'r hen ysgol, mae'r ysgol newydd yn darparu cyfleusterau a llety hollol fodern i ddisgyblion a staff. Mae'r cyfleuster Dechrau'n Deg, oedd wedi'i leoli mewn ystafell ddosbarth symudol ar wahân ar hen safle'r ysgol, wedi cael ei gynnwys yn adeilad newydd yr ysgol o dan yr unto.





Cynhaliwyd Arolwg Estyn ar Wasanaethau Addysg yn Sir Gaerfyrddin ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddwyd Adroddiad ym mis Medi 2023 gyda'r argymhellion canlynol:

A1: Gwella presenoldeb disgyblion yn ysgolion yr awdurdod.

A2: Cryfhau prosesau gwella ysgolion, yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd.

A3: Mireinio ymagweddau at hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella.

Rydym yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn drwy gynllun gweithredu.

Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Bresenoldeb i weithio ochr yn ochr ag ysgolion i wella cyfraddau presenoldeb ysgolion a gwella mynediad i addysg ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed. Byddwn yn ceisio sicrhau bod safon y dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion o ansawdd uchel i gynorthwyo ein dysgwyr i wneud cynnydd priodol. Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i gyflwyno cwricwlwm llawn a chyflawn sy'n anelu at godi safonau addysgol a sicrhau bod disgyblion yn deall ac yn dathlu eu hanes, eu daearyddiaeth a'u diwylliant lleol.

Byddwn yn adolygu'r holl ddyddiadau derbyn disgybl i'r ysgol a'r ystodau oedran ar draws y Sir. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r ddarpariaeth ôl-16 gan gynnwys yr holl randdeiliaid er mwyn sicrhau darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.

Amcan Llesiant 2

Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)

Trosolwg cynnydd

Mae galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda yn flaenoriaeth i'r Cyngor er mwyn cydnabod mai ased mwyaf y Sir yw'r bobl sy'n byw yma. Er bod incwm wythnosol gros wedi gwella'n sylweddol yn y Sir, credir bod dros draean yr aelwydydd yn dal i fyw mewn tlodi ac mae amddifadedd materol ar gynnydd. O ystyried hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gefnogi aelwydydd i liniaru effeithiau tlodi a chostau byw cynyddol. Mae ein Cynllun Trechu Tlodi penodedig yn manylu ar y mentrau cymorth eang a'n hymrwymiad i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod preswylwyr yn cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo a mynediad at wasanaethau priodol.

Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn ogystal â buddsoddiad parhaus mewn tai presennol yn hybu iechyd a llesiant ac yn ffurfio sylfaen ar gyfer safonau byw gwell. Mae fforddiadwyedd tai yn y Sir yn cymharu'n gadarnhaol â chyfartaleddau cenedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gellir gwneud mwy i wella mynediad at dai addas gan ganiatáu i breswylwyr fyw yn ardal eu magwraeth. Rydym yn parhau i gyflawni yn erbyn ein Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy a'n Rhaglen Datblygu Adfywio Tai. Yn ogystal, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng ail gartrefi, byddwn yn codi premiwm ar ail gartrefi ac eiddo sy'n wag yn y tymor hir. Bydd ein gwaith ar dai presennol a gwella argaeledd darpariaeth newydd ar draws ein cymunedau gwledig yn allweddol i alluogi cydnerthedd a chydlyniant cymunedol. Yn gadarnhaol, mae ein hymdrechion parhaus wedi gweld gwelliant parhaus yng nghanran yr aelwydydd sy'n cael eu hatal rhag bod yn ddigartref.


Gyda phobl yn byw'n hirach, bydd mwy o alw ar wasanaethau yn y blynyddoedd i ddod. Mae amrywiadau hefyd mewn disgwyliad oes iach rhwng dynion a merched ac mae lefelau Sir Gaerfyrddin yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. I gydnabod hyn, mae datblygu strategaeth atal yn cadarnhau ein hymrwymiad i ddull poblogaeth gyfan o atal, a disgwylir bydd hyn yn lleihau'r galw am ymyrraeth statudol. Y nod hirdymor yw helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth gartref cyhyd â phosibl, atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a chefnogi'r broses o ryddhau pobl o'r ysbyty yn amserol er mwyn sicrhau bod y rheiny sydd angen gofal ysbyty da yn gallu cael hynny. Yn gadarnhaol ddigon, mae gwelliant nodedig wedi bod wrth i lai o bobl aros yn yr ysbyty am ofal cartref. Mae ymdrechion cydweithredol a gwasanaethau integredig rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd wedi'u cryfhau, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar lif ysbytai ac yn lleihau rhestrau aros.

I gydnabod bod sgoriau Llesiant Meddwl Oedolion yn gostwng, gwnaed buddsoddiadau yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i ddarparu llwybr llesiant ar draws y Sir, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal.

Mae nifer yr oedolion sydd â dau neu fwy o Ymddygiadau Ffordd o Fyw Iach wedi cynyddu ychydig, sy'n gadarnhaol ac yn adlewyrchu nifer y gwasanaethau iechyd a llesiant sydd ar gael i'n trigolion. Wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn rhoddwyd cydnabyddiaeth i hygyrchedd gyda llawer o weithgareddau wedi'u cyflwyno mewn ffordd arloesol. Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff wedi cynyddu'n sylweddol, gyda 1,537 wedi dod i law yn ystod 2023/24, a chyfradd gwblhau uchel o dros 70% ar gyfer y rhaglen 16 wythnos.

Yn Gryno


- Mae dros draean aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi ac mae'r rhan fwyaf o drigolion yn cytuno bod tlodi yn broblem yn eu hardal. Nod ein Cynllun Trechu Tlodi yw lleihau a mynd i'r afael â'r pwysau a'r heriau a achosir gan dlodi i drigolion a chymunedau lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at dlodi yn gymhleth ac wedi gwreiddio'n ddwfn.
- Mae fforddiadwyedd tai yn Sir Gaerfyrddin yn cymharu'n gadarnhaol ag awdurdodau lleol eraill. Mae hyn yn bwysig gan fod mynediad at dai fforddiadwy a phriodol yn hanfodol i gynnal ansawdd bywyd da. Yn unol â hyn, mae atal digartrefedd hefyd wedi gwella.
- Mae incwm wythnosol gros wedi gwella'n sylweddol yn y Sir. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn golygu safon byw well pan gaiff ei ystyried yn erbyn pwysau chwyddiant a chostau byw sy'n codi'n gyffredinol. Ategir hyn gan ddata Incwm Gwario Aelwydydd sy'n rhoi syniad o 'les materol' ac yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru.



Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae 34.6% o holl aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, [1]mae hyn yn cyfateb i tua 28,730 o aelwydydd. Mae hyn yn ostyngiad bach ers y llynedd sy'n adlewyrchu tueddiadau a welwyd yn genedlaethol.
- Bu cynnydd sylweddol yn yr enillion wythnosol Gros Cyfartalog yn Sir Gaerfyrddin[2], o £617.80 (2022) i £678.60 (2023) gyda'r ffigyrau ail uchaf yng Nghymru. Mae ffigyrau Sir Gaerfyrddin wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU o £681.70.
- Dangosodd ein harolwg preswylwyr 2023 fod cytundeb cyffredinol â'r datganiad; 'Mae tlodi yn broblem yn fy ardal i'.

Cyflog Gros Wythnosol Cyfartalog ar gyfer enillion llawn amser. (2023)
(ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol)



Canlyniad: Help a chefnogaeth i liniaru effeithiau'r argyfwng 'costau byw' a thlodi yn y Sir.

Pêl-droed Stryd Actif

Ers lansio yn Llanelli ym mis Ionawr 2024, mae Pêl-droed Stryd Actif eisoes wedi cyfrannu'n sylweddol at liniaru effeithiau'r argyfwng costau byw a thlodi yn Sir Gaerfyrddin. Gyda 21 o chwaraewyr wedi'u cofrestru trwy Pêl-droed Stryd Actif, mae'r sesiynau bellach yn ehangu i Rydaman. Mae'r sesiynau hyn wedi darparu amgylchedd cefnogol i aelodau'r gymuned sy'n wynebu caledi ariannol, unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae gan gyfranogwyr fynediad at brydau poeth, cawodydd, a chefnogaeth wyneb yn wyneb wrth gyfoedion a gweithwyr proffesiynol, gan feithrin ymdeimlad o gymorth cymunedol a chyd-helpu.

Mae'r fenter wedi gwella hunan-barch a rheolaeth ymhlith y cyfranogwyr, gan arwain at ymgysylltu ystyrlon a chanlyniadau cadarnhaol. Er enghraifft, cafodd un cyfrannwr dŷ drwy'r Panel Llety leuenctid ar ôl rhannu ei stori mewn sesiwn. Cafodd unigolyn arall ymyrraeth gynnar a chefnogaeth gan y Swyddfa Datblygu Cyn-Llety yn dilyn tor-perthynas, gan atal achos posibl o ddigartrefedd.

Ar ben hynny, mae Pêl-droed Stryd Actif wedi trefnu cydweithredu ag adrannau awdurdodau lleol eraill, gan wella effeithlonrwydd gwasanaethau cymorth a rhannu gwybodaeth. Mae'r dull cyfannol hwn wedi bod o fudd nid yn unig i'r cyfranwyr ond hefyd i'r gymuned ehangach.

Yn ogystal, mae partneriaethau gyda sefydliadau fel Mind a phrosiect Wallich wedi ehangu effaith y sesiynau. Wedi'i ysbrydoli gan lwyddiant Pêl-droed Stryd Actif, mae prosiect Wallich yn ystyried mentrau tebyg mewn awdurdodau lleol eraill, gan ddangos y potensial i ddefnyddio'r rhaglen yn ehangach.

Polisi Prisiau Cymdeithasol

Parhaodd Actif i weithredu ei bolisi prisio cymdeithasol, gan ddarparu mynediad am bris rhatach i fyfyrwyr, teuluoedd, oedolion hŷn, personél y lluoedd arfog a chyn-filwyr, plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr, ynghyd â chymorth i ffoaduriaid o Wcraïn ar ddechrau'r flwyddyn. Arweiniodd hyn at 8,364 o bobl yn ymaelodi â chyfleusterau Actif yn ystod 2023-24.

Cynllun Trechu Tlodi

Ym mis Gorffennaf 2023 fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Trechu Tlodi sy'n nodi ein hymdrechion i leihau a mynd i'r afael â'r pwysau a'r heriau a achosir gan dlodi i'n trigolion a chymunedau lleol. Rydym yn cydnabod bod yr argyfwng costau byw presennol yn cael effaith sylweddol ar ein trigolion, ond rydym hefyd yn cydnabod yr effaith hirdymor a gaiff tlodi felly rydym yn awyddus i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a dod o hyd i ffyrdd o gynorthwyo ein trigolion i godi eu hunain allan o dlodi. Mae'n rhaid i ni sylweddoli na allwn ni fel Cyngor ddatrys tlodi ein hunain - mae angen rhoi sylw i nifer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y sefyllfa, ar lefel Gymreig ac ar lefel y DU. Fodd bynnag mae gennym rôl flaenllaw o ran cefnogi ein trigolion a'n cymunedau i helpu eu hunain, trwy waredu'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cael cymorth, a grymuso pobl i wneud drostynt eu hunain.

Yn ogystal, mae trechu tlodi ac effaith tlodi yn un o amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, ac fel Cyngor byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ar feysydd lle mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd, er mwyn gwneud cynnydd ar yr amcan hwn.

Dyweddodd y Cyng. Ann Davies, Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig:

Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i gefnogi ein holl breswylwyr i gael yr help, y gefnogaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt, yn enwedig gan ein bod ni i gyd yn wynebu heriau o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau byw. Rydym am annog pawb i geisio cymorth os oes ei angen arnynt.



DIWEDDARIAD AR GYNNYDD: Cyhoeddodd Archwilio Cymru Adroddiad Cenedlaethol 'Amser am Newid' – Tlodi yng Nghymru ym mis Tachwedd 2022. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar her tlodi yng Nghymru a sut mae'r llywodraeth yn ymateb. Roedd yn cydnabod nad yw mynd i'r afael â thlodi yn effeithiol yn hawdd ac mae'n eithriadol o anodd i Lywodraeth Cymru a chynghorau yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn nodi arfer gorau a nifer o argymhellion rydym wedi'u cyflawni i raddau helaeth yn Sir Gaerfyrddin, gyda chmau pellach yn deillio o'n Cynllun Trechu Tlodi yn cael eu datblygu.

Cymorth a Chyngor

Rydym wedi bod yn gwella, yn cyfathrebu, ac yn gweithio'n agos gyda thua 25 o sefydliadau partner yn barhaus i gefnogi cwsmeriaid gyda'r costau byw cynyddol fel rhan o'n hagenda trechu tlodi. Mae hyn wedi helpu i wella dealltwriaeth o rolau ein gilydd wrth gefnogi cwsmeriaid gyda chostau byw cynyddol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi adeiladu ar y ffordd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid, ac mae hyn wedi gwella gyda'r digwyddiadau rydym wedi'u mynychu a'r atgyfeiriadau at a chan wahanol bartneriaid, i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael y cymorth gorau sydd ar gael. Mae'r berthynas waith gyda Gweithio yn Sir Gaerfyrddin, Cymunedau am Waith a Mwy (C4W+) a Chyngor ar Bopeth (CAB) wedi cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan bawb ac rydym yn gobeithio y gallwn ymestyn ac adeiladu ar hyn yn ystod 2024/25.

Ym mis Medi 2023 lansiodd Hwb Bach y Wlad, estyniad i'n canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid Hwb (yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman). Mae Hwb Bach y Wlad yn galluogi Ymgynghorwyr Hwb arbenigol i gynnig cymorth ariannol a llesiant cofleidol ar gyfer anghenion amrywiol ein trigolion gwledig, gyda phecynnau cymorth wedi'u teilwra yn dibynnu ar amgylchiadau unigolyn. Bydd y canolfannau Hwb newydd hyn yn ei gwneud yn haws i drigolion mewn ardaloedd mwy gwledig gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau. Mae ein Hymgyngorwyr Hwb yn cynnig cefnogaeth wedi'i thargedu yng Nghydweli, Llandeilo, Llanymdyfri, Crosshands, Cwmaman, Talacharn, Sanclêr, Hendy-gwyn ar Daf, Castellnewydd Emlyn a Llanybydder drwy amserlen reolaidd.



Mae sicrhau cyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i ddarparu Hwb Bach y Wlad yn ein deg tref yn profi i fod yn llwyddiant ysgubol gyda'r gwasanaeth yn derbyn llawer o ganmoliaeth. Mae mwy na 1,900 o unigolion wedi cael eu clustnodi yn ystod y 12 mis diwethaf, gan roi i gynifer o'n preswylwyr gyngor ariannol a llesiant mewn cyfnod sy'n parhau i fod yn un lle mae argyfwng costau byw. Yn sgil ei boblogrwydd a'r gefnogaeth mae'n ei rhoi, rydym yn mawr obeithio, yn dilyn cael arian gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, y gallwn gadw Hwb Bach y Wlad fel rhan o'n model staff craidd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai dim ond tan fis Rhagfyr 2024 y mae Hwb Bach y Wlad wedi ei ariannu ar hyn o bryd.

Mae canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid Hwb yn Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman yn parhau i ddenu nifer fawr o ymwelwyr ac i gefnogi llawer gyda'u hymholiadau bob dydd, yn ogystal â chefnogi ein trigolion gyda'u cymorth ariannol a llesiant. Drwy'r cynllun dewisol costau byw, mae tri swyddog cymorth cyllidebu personol wedi'u penodi i gynorthwyo'r rhai sydd o bosibl yn cael trafferth gyda'u gwariant misol. Mae hyn wedi cael ei groesawu ac mae'n ychwanegiad gwyb at y cymorth a gynigiri'n trigolion yn y canolfannau Hwb. Yn ogystal â hyn, rydym wedi meithrin perthnasoedd gwaith cryf ac wedi symleiddio ein prosesau er mwyn cael cysondeb o ran mynediad i'n holl fanciau bywd.

Cefnogaeth i Hawlio

Rydym yn parhau i gynorthwyo teuluoedd i hawlio'r holl gymorth y mae ganddynt hawl i'w gael ac rydym yn mynd ati i ganfod gwybodaeth fel bod modd i hawliadau am Fudd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gael eu prosesu cyn gynted â phosibl. Rydym yn annog pobl i dderbyn Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai ac yn gweithio'n agos gyda'n Tîm Tai a Chymdeithasau Tai.


Dros y ddwy flynedd ddiwethaf dyrannwyd £100k ychwanegol i'r gronfa Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai drwy'r cynllun dewisol costau byw. Yn ogystal, rydym yn cyfeirio ac yn atgyfeirio teuluoedd at gyngor a chymorth perthnasol, gan gynnwys ceisiadau am y taliadau grant atal digartrefedd, sy'n gronfa ddewisol ychwanegol a weinyddir gan y Tîm Tai. Mae ein Swyddog Cymorth Cyllidebu Personol o fewn y Tîm Gwasanaethau Refeniw wedi bod yn gweithio gyda'r rhai sy'n mynd i ôl-ddyledion gyda'u Treth Gyngor, gan weithio'n agos gyda'r canolfannau Hwb. Roeddem wedi helpu cwsmeriaid drwy naill ai: trefnu apwyntiad Cymorth Cyllideb Personol iddynt, eu cyfeirio at y Tîm Adfer i drafod trefniadau talu, sefydlu Debyd Uniongyrchol i sicrhau taliadau rheolaidd, neu eu cyfeirio at Hawlio'r hyn sy'n ddyledus i chi.

Yn ystod y flwyddyn daeth y Ffurflen Gais Hanfodion Ysgol (Mynediad at y Grant Datblygu Disgyblion) yn Wasanaeth Cyngor Trafodiadol ychwanegol oedd ar gael i'r cyhoedd ar-lein. Os yw plentyn eisoes yn cael prydau ysgol am ddim, efallai y bydd mwy o help ar gael drwy'r Grant Datblygu Disgyblion sy'n darparu cymorth ariannol i deuluoedd ar incwm isel i brynu hanfodion ysgol. Mae cyllid o hyd at £125 ar gael ar gyfer pob dysgwr cymwys, a £200 ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 7.

Cymorth cyn-llety

- Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, roedd y Tîm Cymorth Cyn-Llety wedi cefnogi cyfanswm o 776 o denantiaid newydd ar draws deiliadaeth gan helpu i gyflawni £793,180 o arbedion â chymorth ar ffurf manteisio i'r eithaf ar incwm a grantiau.
- Helpodd staff Cyn-llety gyda manteisio i'r eithaf incwm a chwblhau nifer o geisiadau am fudd-daliadau a oedd yn effeithio'n ariannol ar y tenantiaid. Rydym yn bartneriaid dibynadwy i wneud cais i Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru (DAF) sy'n darparu grantiau ar gyfer nwyddau gwyn, tanwydd oddi ar y grid a Thaliadau Cymorth Brys, yn ogystal ag aseswyr wedi'u gwirio ar gyfer Dŵr Cymru, lle gallwn wneud cais am gyfraddau dŵr is i aelwydydd cymwys. Yn ystod 2023/24 roedd y tîm yn llwyddiannus yn ymgeisio am y nifer fwyaf o'r ceisiadau grant hyn yn Sir Gaerfyrddin.

DAF Dyfarniadau Grantiau



- Mae cymorth cyn-llety wedi'i ehangu i'r Sector Rhentu Preifat ac wedi cefnogi 73 o denantiaethau drwy gyllid y Grant Cymorth Tai.
- Mae Swyddogion Cymorth Sector Rhentu Preifat wedi'u lleoli yn y 3 prif Swyddfa Canolfan Waith, gan gymryd atgyfeiriadau ar gyfer unrhyw un sy'n gwneud cais am Gredyd Cynhwysol a chael costau tai.
- Rydym wedi darparu hyfforddiant penodol i:
 - 36 o bobl ifanc agored i niwed sydd mewn perygl,
 - 58 o bobl ifanc drwy Barod am Gartref dros 6 sesiwn hyfforddi mewn Canolfannau Gwaith,
 - 29 aelwyd o Atgyfeiriadau o'r Porth, Ymgynghorydd Opsïynau Tai, ac ati.
- Darparwyd hyfforddiant Barod am Gartref gennym mewn ysgolion am y tro cyntaf gan gyrraedd dros 270 o ddisgyblion o Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth, Ysgol Gyfun Emlyn, ac Ysgol Gyfun Sant Ioan Lloyd.
- Rydym yn darparu hyfforddiant fel rhan o'r modiwl ar gyfer Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fel rhan o gwrs Gweithwyr Ieuencid.
- Mae gennym bartneriaeth weithio sefydledig gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu hyfforddiant i geiswyr gwaith ifanc fel rhan o'u hymrwymiad fel hawlwyr.

Canlyniad: Caiff pobl eu cynorthwyo i fanteisio ar gyfleoedd lleol boed hynny trwy ddechrau busnes, ennill cymwysterau neu gael gwaith ystyrlon.

Budd i'r Gymuned

Rydym yn parhau i fynd ar drywydd Budd i'r Gymuned drwy ein Gweithgaredd Tandro Caffael. Drwy gontractau a ddyfernir rydym yn gofyn i gyflenwyr a chontractwyr penodedig ddarparu cyfleoedd recriwtio a hyfforddiant ystyrlon wedi'u targedu, ac elfennau o'r gofyniad hwn yw ymgysylltu â grwpiau difreintiedig, gan gynnwys y di-waith tymor hir. Gan weithio gyda rhaglenni cyflogaeth gan gynnwys Gweithffyrdd+ a Cymunedau am Waith+ rydym yn annog cyflenwyr i ddarparu lleoliadau profiad gwaith tymor byr i annog unigolion yn ôl i'r gweithle. Mae atebion arloesol ar gyfer cyfleoedd recriwtio a ddarperir yn cael eu datblygu drwy Rwydwaith Cyflogadwyedd Sir Gaerfyrddin, sy'n cyfarfod yn fisol.

Trwy gydweithio rydym wedi sefydlu Hwb Cyflogaeth misol ar y safle ym Mhentre Awel. Cyflwynir yr Hwb gan Acorn Recruitment mewn partneriaeth â Bouygues UK. Yn fisol, bydd Acorn yn cyflwyno sesiwn cyflogadwyedd i bobl a gyfeiriwyd o'r Rhwydwaith Cyflogadwyedd. Mae hyn yn gwaredu llawer o'r ddibyniaeth ar swyddi gwag yn cael eu hysbysebu i'r grŵp ac asiantaethau/prosiectau'n anfon CV's yn ddall. Mae Acorn yn gweithio'n agos gydag is-contractwyr BYUK ac mae ganddo ddealltwriaeth dda o linell amser pecynnau ac felly gall roi pobl mewn swyddi gwag yn unol â hynny. Ar hyn o bryd mae rhai wedi cael eu recriwtio drwy'r broses hon ond bydd hyn yn cael ei gynyddu dros y misoedd nesaf wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo ac wrth i ragor o grefftwyr gyrraedd ar y safle.

Hwb Sgiliau

Trwy ein Tîm Cymunedol ar gyfer Anableddau Dysgu, mae ein Hwb Sgiliau wedi agor ac yn cyflwyno gweithdai mewn gwaith coed, crochenwaith a sgiliau byw bob dydd i unigolion ag anabledd neu gyflwr iechyd meddwl sy'n wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at gyfleoedd hyfforddi a gwaith. Mae'r Hwb yn gwneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cynyddu annibyniaeth, yn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, ac yn gwneud y mwyaf o botensial. Ein Haddewid a'n Pwrpas: Cefnogi oedolion i dyfu, datblygu a theimlo'n ddiogel, gan berthyn i'w cymuned.

Cytunwyd ar gyllid drwy'r gronfa arloesi ranbarthol ar gyfer dwy swydd cyflogaeth â chymorth ychwanegol a fydd yn creu capasiti ychwanegol i gefnogi pobl i gael gwaith. Mae cynlluniau'r dyfodol yn cynnwys edrych ar botensial menter gymdeithasol a chydweithio ag addysg bellach i gynnig hyfforddiant achrededig a dewisiadau amgen i goleg preswyl i bobl ifanc ag anabledd dysgu. Mae'r Hwb Sgiliau hefyd yn ehangu a gall ddarparu cyfleoedd dydd i'r rhai sydd â phroblemau iechyd emosiynol a meddyliol.

Ffit i Gyflogi

Yn ystod 2023-24, ymgysylltodd Ffit i Gyflogi ag 20 o gyfranogwyr dros ddau gwrs 8 wythnos, gan gynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a datblygu sgiliau.

Enillodd cyfranogwyr sgiliau amrywiol, gan gynnwys cyfathrebu, gwydnwch, datrys problemau, amynedd, arweinyddiaeth, hyfforddi, ac adeiladu tîm. Roeddent yn falch o fynychu pob sesiwn, cwblhau ardystiadau fel Gwobr Arweinwyr Tag, a goresgyn heriau personol. Adroddodd yr holl gyfranogwyr ganlyniadau emosiynol cadarnhaol, gan ddatblygu hyder a sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer eu bywydau personol a phroffesiynol.

Mae'r prosiect wedi hwyluso llwybrau at gyflogaeth ac addysg yn llwyddiannus, gan alluogi cyfranogwyr i sicrhau rolau hyfforddi a chymryd rhan mewn hyfforddiant cyn cyflogaeth. Dangosodd canlyniadau llyfr cofnod fod 100% o'r cyfranogwyr naill ai wedi gwella neu wedi cynnal eu llesiant emosiynol, heb neb yn sgorio "Trist" ar ôl sesiynau.

Daeth pob prosiect i ben gyda digwyddiad dathlu lle rhannodd cyfranogwyr eu cyflawniadau gyda theulu a ffrindiau, wedi'u hysbrydoli gan siaradwyr gwadd.

Lleoedd Actif

Datblygwyd ein prosiect Lleoedd Actif a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin i rymuso lleoliadau cymunedol ar draws y Sir i gynyddu'r ddarpariaeth a mynediad at wasanaethau yn lleol. Un o brif amcanion y prosiect yw adnabod, uwchsgilio a mentora unigolion o fewn ardaloedd gwledig i gynyddu eu potensial cyflogaeth yn y diwydiant hamdden, h.y. hyfforddiant ffitrwydd ac iechyd, hyfforddiant chwaraeon, gwella sgiliau digidol, cymorth cyntaf, codi a chario ac ati.

Platfform Gwirfoddoli Actif

Nod Platfform Gwirfoddoli Actif yw hwyluso cyfleoedd gwirfoddoli ledled Sir Gaerfyrddin drwy gysylltu pobl sydd am wirfoddoli â sefydliadau sydd eisiau gwirfoddolwyr ym maes chwaraeon a hamdden. Ein nod yw bod o fudd i gymunedau lleol drwy ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi o'u hamser, eu hegri a'u sgiliau drwy wirfoddoli a'n helpu ni yn ein gwaith i wella llesiant drwy ysbrydoli ein poblogaeth i fod yn egnïol am oes. Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn ein cymunedau, tra hefyd yn helpu i gysylltu pobl a chreu cyfleoedd i bobl ddysgu sgiliau newydd, ennill profiadau, a gwella eu llesiant. Mae hyn yn rhan o ymgyrch ehangach i wella cysylltiadau rhwng y gymuned i gyflogaeth â thâl.



Canlyniad: Gwell cyfleoedd i'r holl drigolion wella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol er mwyn cael swyddi.

Multiply 24

Cyflwynir Multiply24 mewn partneriaeth â Choleg Sir Gâr ac Addysg Oedolion Cymru ac mae'n canolbwyntio ar ymestyn allan a darparu dysgu hyblyg, gan ganolbwyntio ar leoliadau anodd eu cyrraedd/gwledig.

Nod y prosiect yw nodi ac ymgysylltu â phobl ifanc dros 19 oed ac oedolion sydd â lefelau isel o sgiliau rhifedd - gan eu grymuso i ddilyn cyrsiau rhifedd ac ennill cymwysterau mathemateg lefel 2. Bydd hyn yn y pen draw yn arwain at ganlyniadau marchnad lafur gwell i'r cyfranogwyr ac yn gwella sgiliau'r gweithlu presennol.

Nod Multiply24 yw sicrhau mynediad cyfartal trwy ddysgu hybrid, dysgu trwy hyfforddi a mentora ac addysgu realiti cymysg - gan ddefnyddio offer Realiti Rhithwir i ail-greu cyd-destunau bywyd go iawn i ddatblygu lefelau hyder y cyfranogwyr.

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

 Adroddiad ar addysg oedolion yn narpariaeth gymunedol Dysgu Oedolion Sir Gaerfyrddin yn y Bartneriaeth Gymunedol (Mawrth 2024)

CANFYDDIADAU:	DYFARNIAD:
Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion Sir Gaerfyrddin yn gweithio'n briodol gyda'i gilydd i ddarparu ystod addas o gyrsiau ar gyfer dysgwyr ar draws y Sir. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd addas ac yn datblygu ac yn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae'r bartneriaeth yn darparu cyrsiau mewn ystod briodol o leoliadau o ansawdd da. Ar draws y bartneriaeth, mae tiwtoriaid yn rhoi lefelau cryf o gefnogaeth i ddysgwyr.	ARDDERCHOG At ei gilydd, mae adroddiad Arolwg Estyn yn rhagorol ac yn adlewyrchu'n gywir ansawdd a safonau addysgu a dysgu. Mae dau argymhelliad ar waith ynghylch gweithio mewn partneriaeth strategol a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Cynllun Gweithredu Ôl- arolygiad cadarn ar waith ac mae cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn y camau gweithredu angenrheidiol.

Rhaglenni Cyflogadwyedd

Mae dwy Raglen Gyflogadwyedd ar waith yn Sir Gaerfyrddin sef Cymunedau am Waith a Mwy (C4W+) a Sir Gaerfyrddin yn Gweithio, gan nodi cyfleoedd hyfforddi a sgiliau allweddol drwy ymgysylltu â busnesau a nodi sgiliau allweddol sy'n ofynnol. Mae'r rhaglenni hyn wedi darparu ystod eang o gymorth i bobl ar draws y rhanbarth yn ystod 2023/24 gan gynnwys 240 o unigolion i mewn i swyddi, 41 i wirfoddoli a 66 i hyfforddiant/cymwysterau, maent hefyd wedi cefnogi 213 o fusnesau.

Canlyniad: Cydnabod a cheisio cyfyngu ar y rhwystrau anghymesur y mae grwpiau ymylol yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau a chymorth sy'n caniatáu iddynt fyw a heneiddio'n dda.

Ein nod fel Cyngor yw cefnogi a hyrwyddo cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran lle gall pobl heneiddio'n dda a byw bywyd hwyrach o ansawdd uchel. Mae creu cymunedau sy'n gyfeillgar i oedran yn rhoi cyfle i ni sicrhau nad yw oedran yn rhwystr i fyw'n dda. Mae'n ein galluogi i greu amgylchedd lle gall pobl hŷn gymryd rhan mewn cymdeithas a chael eu gwerthfawrogi am y cyfraniadau cadarnhaol y maent yn eu gwneud, rhywle y gall pobl deimlo eu bod wedi'u cynnwys a chymryd rhan yn y gweithgareddau y maent yn eu gwerthfawrogi a rhywle y gallant barhau i fyw yn eu cartrefi cyhyd ag y bo modd, teimlo'n ddiogel, yn gyfforddus ac yn ddiogel.

Mae nifer y bobl 65 oed a hŷn yn y Sir wedi cynyddu 18.9% ers Cyfrifiad 2011. Gwelwyd y cynnydd mwyaf trawiadol ymysg y grwpiau oedran hŷn, yn enwedig y rheiny rhwng 60 a 74 oed ac 85 oed a hŷn, lle cofnodwyd 24.1% o gynnydd a 32.4% o gynnydd, sy'n atgyfnerthu model poblogaeth sy'n heneiddio. Erbyn 2039 rhagwelir y bydd bron i 1 o bob 3 o drigolion Sir Gaerfyrddin yn 65 oed a hŷn a dyna pam ei bod yn bwysig ein bod yn ystyried effaith cymdeithas sy'n heneiddio nawr.

Mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn heneiddio, ac mae bod yn fwy ystyriol o oedran yn her i bob cymuned yn y Sir, er mwyn cefnogi pobl i allu byw'n dda wrth iddynt heneiddio. Mae gennym ni, fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus, gyfrifoldeb i sicrhau bod ein preswylwyr yn byw bywydau bodlon drwy roi cyfle i bawb 'heneiddio'n dda' a chymryd rhan lawn mewn bywyd cymunedol.

Cyfamod y Lluoedd Arfog

Rydym wedi ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog, gan sicrhau bod anghenion personél y lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd yn cael cefnogaeth a chydabyddiaeth ymroddedig.

Yn rhan annatod o'r ymrwymiad hwn mae cynnwys cwestiwn y lluoedd arfog ym mhob ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hyn nid yn unig yn codi ymwybyddiaeth o'n Cymuned Lluoedd Arfog, ond hefyd yn sicrhau bod anghenion a safbwyntiau unigryw personél gwasanaeth, cyn-filwyr a'u teuluoedd yn cael eu hystyried yn gyson mewn datblygiadau polisi a gwasanaethau.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i gryfhau trwy gyfarfodydd tymhorol gyda chynrychiolwyr y lluoedd arfog, gan feithrin amgylchedd cydweithredol ar gyfer mynd i'r afael â materion a gwella'r rhwydwaith cymorth ar gyfer y gymuned filwrol. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd hyn yn llwyfan ar gyfer rhannu diweddariadau, trafod heriau, a chydlynu ymdrechion i wella ansawdd bywyd y rhai sydd wedi gwasanaethu, sy'n gweithredu egwyddorion y cyfamod.

Rhwydwaith Heneiddio'n Dda

Sefydlwyd Rhwydwaith Heneiddio'n Dda Sir Gaerfyrddin yn 2021 gyda'r nod o ddwyn ynghyd sefydliadau sy'n gweithio i gefnogi pobl i heneiddio'n dda. Mae'r rhwydwaith wedi'i gynllunio i uno a hysbysu'r gymuned sydd gennym yma yn y Sir, trwy drafod materion allweddol.

Mae aelodau'n derbyn cylchlythyrau misol sy'n darparu erthyglau defnyddiol ar y prosiectau a'r gweithgareddau sy'n rhedeg ar draws Sir Gaerfyrddin yn ogystal â'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael gan y Cyngor a darparwyr eraill.

Rhaglen Chwaraeon a Gweithgareddau Corfforol 60+ Actif

Yn 2023-2024, cafwyd ychydig o dan 160,000 o bresenoldebau yn ein rhaglen chwaraeon a gweithgareddau corfforol 60+ Actif, lle roedd trigolion ar draws y Sir yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o sesiynau gan gynnwys gweithgareddau yn y gadair, cyrlio, cylchedau chwaraeon ac ymarfer i gerddoriaeth.

Mae rhai cyfranogwyr wedi rhoi'r adborth canlynol "Mae'r rhaglen ymarfer corff yn sicr yn gweithio'n dda i ni. Mae yna welliant i'n hiechyd a'n llesiant, ac mae pawb yn dweud bod eu cydbwysedd yn gwella. Mae gan bob un ohonom anghenion gwahanol oherwydd problemau iechyd a dywedodd un ohonom heddiw y gallai nawr glymu ei esgidiau heb orfod eistedd i lawr! Gall eraill wisgo eu sanau heb eistedd i lawr. Ry'n ni'n cryfhau o wythnos i wythnos".

Mae ein menter nofio 60+ am ddim yn parhau i gael ei gynnig yn ein pedwar pwll nofio. Yn ogystal, mae nofio am ddim yn cael ei gynnig i gyn-filwyr yn y lluoedd arfog. Cynhaliwyd dros 20,000 o nofiadau am ddim yn ystod cyfnod 2023/2024.

Cyfathrebu'r Cyngor

Mae ein tîm Marchnata a'r Cyfryngau wedi parhau i hyrwyddo'r ystod bresennol o gymorth costau byw sydd ar gael i drigolion. Dosbarthwyd taflen cyngor costau byw gyda'r hysbysiad Treth Gyngor blyneddol, ac rydym yn parhau i gynnwys cyngor pellach gyda'r holl filiau treth gyngor a llythyrau atgoffa a gyflwynir drwy gydol y flwyddyn. Mae'r daflen yn darparu ystod o wybodaeth am y cyngor a'r cymorth sydd ar gael i helpu trigolion â'u costau byw yn Sir Gâr. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr ystod eang o gymorth a ddarperir yn ein tri phrif Hwb a Hwb Bach y Wlad (a ariennir hyd at fis Rhagfyr 2024), yn ogystal â manylion cyswllt cysylltiadau a phartneriaid allweddol. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn mynychu digwyddiadau allweddol yn rheolaidd ledled y Sir ac yn hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael i'n trigolion am grantiau penodol fel y Grant Hanfodion Ysgol, sy'n darparu cyllid tuag at wisg ysgol a hanfodion eraill, ynghyd â hyrwyddo Prydau Ysgol am Ddim ar sail prawf modd a Phrydau Ysgol Am Ddim i Bob Disgybl.

Gweithgaredd ar draws ein holl ganolfannau Hwb		
	2022/23	2023/24
Ymholiadau Cyffredinol	36,259	42,684
Apwyntiadau	9,933	15,579
Hawliwch Eich Eiddo - trwy Gynghorydd Hwb	1,520	1,916
Ymholiadau Hwb Bach Y Wlad (Hyd 23 - Maw 24)	0	4,814


Canlyniad: Lleihau digartrefedd a gweithio tuag at ddod ag ef i ben.

Er ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu, mae'n rhaid i ni barhau i wella'r ffordd yr ydym yn ymateb i'r pwysau tai presennol drwy arferion gwaith arloesol, cefnogaeth, hyblygrwydd a buddsoddiad. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at beidio â diwallu angen tai, gofynion gwasanaeth dyddiol a chostau sylweddol uwch. Mae'n bosibl bydd problemau cydlyniant cymunedol hefyd wrth reoli ceiswyr lloches a chyn-droseddwr, gyda llawer o'r galw heb ei gynllunio. Yn seiliedig ar ddadansoddiad pellach o'r risgiau presennol, rydym bellach wedi cynyddu'r sgôr risg i adlewyrchu'r pwysau.

Mae'r galw am dai a llefydd i'r digartref yn parhau i fod yn sylweddol (rydym yn cael rhwng 40 a 50 o achosion o gyflwyno'n ddigartref bob wythnos ar hyn o bryd) a bydd galwadau ychwanegol o ran cyn-droseddwr a cheiswyr lloches yn ystod y misoedd nesaf. Mae argaeledd llety dros dro addas hefyd yn parhau i fod yn her ac mae cynnydd diweddar wedi bod yn y defnydd o sefydliadau fel Travel Lodge a Premier Inn fel lleoliadau tymor byr. Gallai hyn arwain at bwysau cyllidebol/cost yn ystod 24/25 ond mae hyn yn cael ei fonitro'n fisol.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i wella o ran atal aelwydydd rhag bod yn ddigartref, gan ddod o hyd i opsiynau addas/cynaliadwy i dros 70% o'r teuluoedd ac unigolion sy'n dod atom am help. Gwnaed hyn drwy sawl ymyriad gan gynnwys:

- Gwella cyngor ar y pwynt cyswllt cyntaf drwy'r Tîm Hwb Tai;
- Adolygu ac esblygu newidiadau i'r arferion gweithredol yn barhaus yn unol â'r galw cynyddol;
- Defnyddio'r Polisi Dyraniadau Brys i gyfateb ein cartrefi yn uniongyrchol â'r rhai sydd â'r angen mwyaf; Manteisio i'r eithaf ar y defnydd o'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i atal digartrefedd yn y lle cyntaf, ond lle na allem atal digartrefedd, defnyddio cyllid i ddod o hyd i lety amgen;
- Gweithio gyda'r sector rhentu preifat i gynnal a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da y gall rhai ar incymau is eu cyrchu'n hawdd



Tai a Digartrefedd

Yn y tymor canolig i'r tymor hir, bydd ein rhaglen Tai Fforddiadwy uchelgeisiol sy'n cynnwys ystod o ddatrysiadau yn darparu llawer mwy o gartrefi drwy ystod o ddulliau - adeiladu o'r newydd, prynu yn ôl, dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd ac ati. Rydym hefyd yn edrych yn rhagweithiol ar gaffael tir ar gyfer safleoedd mwy a fydd yn galluogi datblygiadau mwy a darpariaeth gyflymach.

Does dim dwywaith nad yw'r sefyllfa o ran pwysau tai yn her sylweddol ac yn risg i gynghorau ledled Cymru a'r DU yn y dyfodol.

Hwb Bach y Wlad

Cwsmer: Mrs M

Rheswm dros ymweld: Ymchwiliad Cynhaliaeth Plant. Mam sengl, dim incwm heblaw Budd-dal Plant, un plentyn, wedi gwahanu oddi wrth ei phartner oherwydd cam-drin domestig gartref.

Bu Ymgynghorydd Hwb yn helpu Mrs M gyda...

- Cynhaliaeth Plant – Dechrau'r broses,
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin ar waith,
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – Tîm o Amgylch y Teulu,
- Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor – £380.39 oddi ar y bil,
- Atgyfeiriad y Ganolfan Cyngor ar Bopeth - Credyd Cynhwysol - £1,147.28 incwm bob 4 wythnos,
- Cronfa Cymorth Dewisol wedi'i dyfarnu – taleb frys o £67 ar gyfer trydan,
- Prydau ysgol am ddim a grant gwisg ysgol - £125,
- Gostyngiad y Dreth Gyngor - £650.16 oddi ar y bil, lleihau'r bil £40 y mis,
- Taleb fwyd wedi'i darparu a pharsel bwyd,
- Cronfa cymorth i aelwydydd – Ôl-ddyledion rhent a'r dreth gyngor dros £8K,
- Cynllun HelpU Dŵr Cymru – Lleihau'r bil i £291.30 gan arbed £228.70,
- Atgyfeiriad cyflogadwyedd - Y cymorth yn parhau.

Canlyniad: Mae Mrs M mewn sefyllfa well, yn cael cefnogaeth reolaidd a £1,230.15 y mis yn well ei byd.



Beth gallwn ni wneud yn well?

Byddwn yn parhau i weithredu ac yn diweddaru'r Cynllun Trechu Tlodi i ymateb i'r heriau presennol sy'n wynebu trigolion a chymunedau.

Byddwn yn parhau i ddarparu rhaglenni buddsoddi newydd ar gyfer y stoc Tai Cyngor ar sail arolygon o gyflwr y stoc a'n huchelgaais datgarboneiddio. Ynghyd â pharhau i ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu'r opsiynau ar gyfer darparu llety dros dro (gan gynnwys darpariaeth â chymorth).

Byddwn yn datblygu ein Hwb Bach y Wlad ymhellach ym mhob tref farchnad wledig yn y Sir, fel bod cynifer o drigolion â phosibl yn cael gwasanaethau, gwybodaeth a chymorth drwy hefyd gynnal digwyddiadau penodol a gweithgareddau pwrpasol mewn rhai ysgolion gwledig drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'n bwysig nodi taw tan Ragfyr 2024 mae hyn wedi'i ariannu ar hyn o bryd.

Yn Gryno


- Cynyddodd yr amser cyfartalog i gwblhau atgyweiriadau tai cyngor yn sylweddol yn ystod 2023/24 oherwydd ôl-groniad o gyfnod Covid, diffyg deunyddiau, a chapasiti contractwyr. Fodd bynnag, aethpwyd i'r afael â'r materion hyn, ac mae'r ôl-groniad hirdymor wedi'i glirio i raddau helaeth.
- Mae canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'r Cyngor yn wag wedi lleihau'n sylweddol, sy'n welliant. Cyflawnwyd hyn drwy amrywiol newidiadau, gan gynnwys safon gosod newydd, gyda gwelliannau pellach wedi'u cynllunio.
- Mae ein hymagwedd ragweithiol at roi cyngor ar dai, opsiynau tai ac atal digartrefedd yn parhau. Rydym yn wynebu pwysau digynsail o ran tai ac er ein bod wedi gwneud yn dda i ymateb yn gyflym i'r gofynion cynyddol, mae angen i ni barhau i sicrhau ein bod yn gwneud yr ymateb hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae pwysau tai sylweddol mewn amryw ardaloedd yn parhau e.e. ymagwedd "Neb heb help" Llywodraeth Cymru, cyflwyno Deddf Rhentu Cartrefi ym mis Gorffennaf 2022, gan gyflawni ein hymrwymadau adsefydlu a'n pryderon parhaus mewn perthynas â cheiswyr lloches, yn enwedig plant heb oedolion. Mae angen i ni hefyd gynyddu ein hopsiynau ar gyfer Llety Dros Dro yn ein prif ganolfannau poblogaeth sef Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman.
- Mae'r rhaglen datblygu adfywio tai yn parhau i ddarparu llawer iawn mwy o dai fforddiadwy i'w rhentu a'u gwerthu, bydd hyn nid yn unig yn cefnogi'r galw cynyddol am dai ond hefyd yn cyfrannu at dwf economaidd, cymunedau cynaliadwy, a'r economi werdd. Yn 2023/24, roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar brynu cartrefi sector preifat, dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd, a datblygu cartrefi newydd. Mae datblygiadau yn Heol Spilman, Caerfyrddin a hen adeilad yr YMCA yn Llanelli yn enghreifftiau o hyn.
- Er mwyn tacio'r argyfwng ail gartrefi, mae'r Cyngor wedi penderfynu codi premiwm ar ail gartrefi ac eiddo sy'n wag yn y tymor hir, a'r disgwyl yw i'r ardrethi gynyddu dros y blynyddoedd nesaf.

Sut ydyn ni'n gwneud?

- Ar gyfartaledd, cymerwyd 27.6 diwrnod calendr i gwblhau'r holl atgyweiriadau i dai cyngor yn ystod 2023/24, ac roedd hwn yn gynnydd sylweddol gyfartaledd y flwyddyn flaenorol, sef 6.3 diwrnod. Y prif reswm oedd targedu a chlirio hen waith oedd wedi cronni gan nad oedd modd ei gwblhau yn ystod Covid, yn ogystal â diffyg deunyddiau a chapasiti'r contractwr. Mae nifer yr atgyweiriadau a gwblhawyd hefyd wedi cynyddu'n sylweddol gyda chynnydd o 52% o lai na 21,000 o swyddi yn 2022/23 i dros 31,000 o swyddi yn 2023/24. Mae'r ôl-groniad o hen waith wedi'i glirio i raddau helaeth a dylai Fframwaith Gwaith ar Eiddo newydd a'n cynlluniau i gynyddu'r capasiti i wneud gwaith mwy ymatebol yn fewnol ein helpu i leihau'r amser mae eiddo'n wag.
- Mae % y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'r Cyngor yn wag bellach wedi gostwng i 2.2%, o gymharu â 3.5% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn bellach yn golygu bod bron i £1m y flwyddyn o rent ychwanegol yn cael ei gynhyrchu o'r 250 o dai ychwanegol sydd bellach ar gael. Cyflwynwyd sawl newid dros y 21 mis diwethaf i ysgogi gwelliant e.e. safon gosod newydd a chyflwyno tîm mewnol o weithwyr i wneud gwaith ar eiddo gwag, yn ogystal â chontractwyr allanol. Byddwn yn parhau i gymryd camau gwella pellach dros y misoedd nesaf.
- Rydym wedi gallu rhoi cartref i dros 1,000 o aelwydydd mewn tai fforddiadwy presennol neu newydd yn ystod 2023/24.


Canlyniad: Argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da ac ynni-ffeithlon yn y Sir.

- O dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), rydym wedi cyflwyno 7,500 o contractau i denantiaid.
- Rydym wedi darparu dros 2,000 o dai fforddiadwy ers dechrau ein cynllun uchelgeisiol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yn y sir. Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy. Rydym wedi parhau i ragori ar dargedau bob blwyddyn a'n ffocws nawr yw prynu tir ychwanegol i sicrhau ein bod yn cynyddu'r cyflenwad o gartrefi ar frys.



- Mae ein rhaglen datblygu adfywio tai yn pennu'r weledigaeth i gefnogi'r gwaith o ddarparu dros 2000 o dai i'w rhentu a'u gwerthu dros y 5 mlynedd nesaf (Chwef 2022-Rhag 2027). Mae'r cynllun yn seiliedig ar ddiwallu angen tai ac ysgogi twf economaidd ledled y Sir gan greu swyddi, adeiladu cymunedau cynaliadwy cryf, a thyfu'r economi werdd.

Roedd y rhaglen ar gyfer 2023/24 wedi darparu 331 o gartrefi ychwanegol ac yn canolbwyntio ar brynu cartrefi sector preifat ar gyfer anghenion cyffredinol ac arbenigol o ran tai, gan ailddefnyddio tai gwag a datblygu cartrefi newydd, yn cynnwys trosi hen swyddfeydd y cyngor sir yn Heol Spilman yn 12 fflat



Mae'n bwysig bod y cynllun hwn yn cysylltu â blaenoriaethau corfforaethol ac adrannol ehangach fel Canol Trefi, Deg Tref Wledig a phrosiectau adfywio allweddol e.e. Pentre Awel, Tyisha, Gorllewin Caerfyrddin a Thŷ Wauniago (Caerfyrddin). Mae swm sylweddol o arian grant ychwanegol hefyd wedi'i dynnu i lawr oddi wrth Lywodraeth Cymru ac wedi cyflawni gwariant llawn o'r Grant Tai Cymdeithasol o £17m yn ystod 2023/24.

- Rydym hefyd wedi bod yn datblygu rhagor ar ein Cynllun Datgarboneiddio ar gyfer ein cartrefi Cyngor presennol, sy'n ein rhoi ni ar y blaen o gymharu â gweddill Cymru. Bydd yr holl weithgareddau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at greu cyfleoedd swyddi a hyfforddiant i bobl leol yn ystod y blynyddoedd nesaf. Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi o ran technolegau newydd.

- Rydym yn cyflwyno cynnig Rheoli Ystadau a Thenantiaethau newydd a fydd yn gweld mwy o swyddogion tai ar ein hystadau, gwasanaeth tasgmon newydd a chynllun cynaliadwy i ymgysylltu'n rheolaidd â thenantiaid ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae cyfradd bodlonrwydd ein tenantiaid wedi gostwng yn ystod 2023/24 (tebyg i dueddiadau ar gyfer pob landlord tai cymdeithasol arall yng Nghymru) ac rydym am sicrhau ein bod yn ymateb yn rhagweithiol i hyn. Fodd bynnag, rydym mewn sefyllfa eithaf da o ran ein dull o gasglu incwm tenantiaid presennol, yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw presennol. Rydym wedi datblygu tîm cynllety cryf sy'n helpu i gynnal tenantiaethau ac yn sicrhau bod tenantiaid yn cael yr hyn mae hawl ganddynt iddo e.e. budd-daliadau, nwyddau gwyn ac ati. Mae ein Tîm Tai Sector Preifat yn parhau i wneud cynnydd, yn enwedig wrth ddatblygu "Cynnig Landlordiaid" newydd a fydd, gobeithio, yn arwain at gadw landlordiaid preifat presennol er mwyn diwallu anghenion tai parhaus yn ogystal â denu rhai newydd. Mae nifer y cartrefi preifat gwag yn parhau i fod yn her a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hynny yn ystod 2024/25. Bu gwelliant enfawr hefyd yn rheolaeth safle Teithwyr Penybryn ac yn ein gwasanaethau cyffredinol i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.
- Dros y tair blynedd nesaf, bydd yr hyn sydd gan y Cyngor ar y gweill o ran datblygu tai newydd yn darparu dros 600 o dai. Bydd ein tai newydd yn diwallu anghenion unigol ein cymunedau ac yn cynnwys tai, byngalos a fflatiau ar gyfer unigolion a theuluoedd. Mae ein holl dai sy'n cael eu codi o'r newydd yn dilyn set glir o egwyddorion dylunio sy'n creu cymunedau newydd cynaliadwy, gydag ymdeimlad gwirioneddol o le.
- Tra'n cefnogi datganiad gweledigaeth y Cabinet i ystyried defnyddio rhagor ar y pwerau ychwanegol roddwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng ail gartrefi, rydym wedi penderfynu defnyddio ein pwerau dewisol i godi premiwm ar ail gartrefi ac eiddo sy'n wag yn yr hirdymor. Bydd premiwm o 50% yn cael ei godi yn 2024/25 mewn perthynas ag ail gartrefi gyda'r bwriad o gynyddu'r premiwm i 100% o Ebrill 2025 ymlaen, ac ar dai sy'n wag yn y tymor hir, codir premiwm o 50% ar eiddo sy'n wag am fwy na blwyddyn a llai na 2 flynedd, 100% am 2 i 5 mlynedd a 200% ar gyfer eiddo sy'n wag dros 5 mlynedd.

Rydym yn gwbl ymwybodol o'r anawsterau parhaus y mae llawer o'n tenantiaid presennol a darpar denantiaid yn wynebu. O ganlyniad, rydym wedi ceisio cydbwysu fforddiadwyedd rhent a'r incwm ychwanegol sydd ei angen arnom (trwy gynyddu rhent yn flynyddol) â'r hyn y mae angen i ni ei fuddsoddi yn ein cartrefi, i'w gwneud yn rhatach i'w rhedeg, (gan gynnwys technolegau datgarboneiddio ac effeithlonrwydd ynni newydd) yn ogystal â darparu cartrefi newydd ychwanegol ar gyfer ein tenantiaid yn y dyfodol.

Drwy leihau ein tai cyngor gwag, cynyddu'r cyflenwad drwy godi tai newydd, prynu'n ôl a gweithio gyda'r sector preifat a landlordiaid cymdeithasol eraill, rydym wedi dyrannu 778 (70% trwy Stoc y Cyngor a 30% gan landlordiaid cymdeithasol eraill) o gartrefi i deuluoedd ac unigolion, yr oedd llawer ohonynt yn wynebu amddifadrwydd.

"Sarah - Oni bai am yr help a gefais gan y Cyngor ar y dechrau i ddod o hyd i rywle i fyw'n syth, ac yna'n fuan wedyn, denantiaeth ddiogel y gallwn ei fforddio, byddai fy nheulu a fi ar y stryd. Erbyn hyn mae gan fy mhlant le diogel i fyw, lle maen nhw wedi setlo, ac rydw i wedi cael y gefnogaeth i reoli fy nghyllid yn iawn".

"X - roeddwn i'n 19 oed ar y pryd, yn drawsryweddol a newydd gael fy ngwneud yn ddigartref oherwydd camdriniaeth gan aelod o'r teulu. Ces fy rhoi mewn prosiect tai â chymorth lle'r oeddwn yn teimlo'n ddiogel ac aeth pethau'n dda yno. Sylweddolais y gallwn i fyw gyda phobl eraill ac ymddiried ynddyn nhw drwy fod yn yr amgylchedd hwnnw a chael y gefnogaeth honno, ac yna ces fy ailgartrefu'n llwyddiannus yn un o dai a rennir y Cyngor."

Beth gallwn ni wneud yn well?

- Byddwn yn parhau i ddatblygu opsiynau ymhellach o ran mynediad i dai fforddiadwy trwy ddatblygu ystod fwy o ddewisiadau perchnogaeth cartref cost isel. Bydd hyn yn sicrhau ein bod, fel rhan o'r opsiynau tai fforddiadwy, yn gallu cynnig dewis arall go iawn i'r farchnad rhentu ar gyfer unigolion a theuluoedd a hoffai fod yn berchen ar eu cartref eu hunain ond na allant fforddio prynu cartref ar werthoedd y farchnad agored.
- Bydd ein swyddogion tai yn fwy gweladwy ar ystadau i sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi tenantiaid cyngor sy'n profi anawsterau, ond hefyd i sicrhau bod amodau tenantiaeth yn cael eu gorfodi lle mae tenantiaid yn dewis anwybyddu eu cyfrifoldebau.
- Byddwn yn parhau i fod mor ragweithiol ag y gallwn wrth ailddefnyddio cartrefi gwag yn y sector preifat, nid yn unig i gynyddu argaeledd tai fforddiadwy, ond hefyd i fynd i'r afael â'r "dolur llygaid" lleol sydd weithiau'n gysylltiedig â thai gwag.
- Byddwn hefyd yn parhau i fwyhau incwm rhent ar draws cartrefi, garejis, a thaliadau gwasanaeth, a byddwn yn mynd i'r afael â'r argyfwng ail gartrefi drwy godi premiwm ar ail gartrefi ac eiddo sy'n wag yn y tymor hir. Byddwn yn parhau i ddatblygu model cymorth cyffredinol drwy ein canolfannau Hwb, trwy gyfeirio a brysbenno, gan gynyddu argaeledd mynediad uniongyrchol i wasanaethau arbenigol fel Dewisiadau Tai.

Yn Gryno

- Mae gwelliant nodedig wedi bod wrth i lai o bobl aros yn yr ysbyty am ofal cartref.
- Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau.
- Mae'r amser cyflawni ar gyfer gwaith Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi gwella ychydig, ac mae nifer yr addasiadau a gwblhawyd wedi cynyddu.
- Mae ymdrechion ar y cyd gyda chydweithwyr ieuchyd wedi cael eu cryfhau, yn enwedig drwy'r tîm Gartref yn Gyntaf, sydd wedi ennill sawl gwobr ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar lif ysbytai a lleihau rhestrau aros.
- Mae Strategaeth Atal yn cael ei datblygu ar draws ein Adran Cymunedau, gan ganolbwyntio ar ddull poblogaeth gyfan o atal, a disgwylir bydd hyn yn lleihau'r galw am ymyrraeth statudol.
- Mae buddsoddiadau yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi sefydlu llwybr llesiant ar draws Sir Gaerfyrddin, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal.



Sut ydyn ni'n gwneud?

- Ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 7 o bobl yn aros yn yr ysbyty am ofal cartref, mae hwn yn welliant ar y ffigwr o 35 ar ddiwedd Mawrth 2023.
- Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff wedi cynyddu'n sylweddol, gyda 1,537 wedi dod i law yn ystod 2023/24, sef yr uchaf ers i'r cynllun ddechrau. Mae dros 70% (316/450) o'r rhai a ddechreuodd y cynllun wedi cwblhau'r rhaglen 16 wythnos yn ystod 2023/24, a dyma'r gyfradd gwblhau uchaf ers dechrau cofnodi data.
- Mae nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn parhau i fod yn uchel ar 273 diwrnod yn ystod 2023/24, er bod hyn yn welliant bach ar 277 diwrnod y flwyddyn flaenorol. Roedd cynnydd o 14% yn nifer yr addasiadau gwblhawyd yn y flwyddyn o gymharu â 2022/23. Mae'r ôl-groniad o hen waith nad oedd modd ei gwblhau yn ystod Covid, yn ogystal â diffyg deunyddiau a gallu contractio bellach wedi gwella, ond mae'r galw am addasiadau'n uchel, ac mae angen gwneud gwaith ar gyfer anghenion cymhleth.



Canlyniad: Gwasanaethau integredig di-dor rhwng lechyd a Gofal Cymdeithasol.

- Er nad yw Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi'i integreiddio'n ffurfiol ag iechyd, mae ymrwymiad cryf i gydweithio. Mae'r timau Cymunedol wedi'u cydleoli â chydweithwyr iechyd; mae cydweithredu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn hanfodol i ddatblygu ein hamcanion is-adrannol ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu sawl hanfod strategol e.e. trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu, hunanladdiad ac atal hunan-niweidio.
- Rydym wedi llwyddo i sefydlu trefniant brysbenneu ar gyfer gofal canolradd gyda chydweithwyr iechyd - y tîm Gartref yn Gyntaf. Mae hyn yn cael effaith ar lif ysbytai a lleihau rhestrau aros.
- Rydym wedi datblygu amrywiaeth o lety â chymorth i leihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl. Mae hyn yn gwella canlyniadau, ac yn hyrwyddo annibyniaeth a dewis unigolion. Mae'r rhaglen waith hon wedi effeithio ar dargedau cynilo, drwy leihau gorddarpariaeth mewn rhai achosion. Rydym wedi sefydlu strwythur llywodraethu newydd ar gyfer y gwaith hwn a nodwyd fel maes gwella y llynedd. Mae saith cynllun tai wedi eu hagor ac mae mwy i ddilyn. Mae tua 32 o bobl wedi camu i lawr o ofal preswyl.
- Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i waith y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac mae'n cymryd rôl arweiniol yn sawl un o'i is-grwpiau cysylltiedig.
- Mae Grŵp Gweithredol Diogelu Lleol Sir Gaerfyrddin sy'n cwrdd bob chwarter, yn brawf o ymrwymiad parhaus yr holl asiantaethau lleol i gydweithio i wella diogelu.

Tîm Gofal Cymdeithasol a Diogelu Iechyd

Helpodd y Tîm Gofal Cymdeithasol a Diogelu Iechyd i reoli achosion o Covid-19 mewn cartrefi gofal. Yn ystod achos o Covid-19 mewn cartref gofal bydd y tîm yn cynnig ymweliadau cymorth, cyfarfodydd Teams, a galwadau ffôn i ddarparu cyngor atal a rheoli heintiau i helpu i leihau lledaeniad yr haint a diogelu staff a phreswylwyr yn y cartref gofal. Roedd cyfanswm o 32 achos o Covid-19 ar draws 28 o Gartrefi Gofal yn ystod 2023-2024.

Cafodd y Tîm Gofal Cymdeithasol a Diogelu Iechyd sy'n gweithio mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, eu hyfforddi i olrhain cysylltiadau agos TB (Twbercwlosis) a'u defnyddio i gasglu gwybodaeth allweddol trwy alwadau ffôn, a dilyn sgrïpt y penderfynwyd arni ymlaen llaw i nodi a fyddai unigolyn yn gymwys i gael ei sgrinio, fel cyswllt achos o TB. Cafodd 520 o alwadau eu gwneud gan gysylltu â 283 o bobl dros gyfnod o saith mis. Roedd dros 32% o'r bobl a alwyd yn gymwys i gael eu sgrinio.

Canlyniad: Gwasanaethau hygyrch, cynhwysol a chynaliadwy, sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso dysgu, diwylliant, treftadaeth, gwybodaeth, llesiant a hamdden.

Mae ein taith trawsnewid o ran cyfleoedd dydd anabledd dysgu wedi cael croeso twymgalon gan y tîm staff, sydd yn arloesol drwy'r amser gan gynnwys wrth wneud gweithgareddau ar y cyd â hamdden.

- Mae'r Ganolfan Sgiliau sydd newydd ei sefydlu yn Cross Hands yn cynnig celf a chrefft, gwaith coed, datblygu sgiliau a hyfforddiant achrededig i bobl ag anableddau dysgu neu iechyd meddwl. Cam nesaf yr Hwb Sgiliau yw datblygu cynlluniau gwirfoddoli a chyflogaeth â chymorth, sy'n gam sylweddol o ran darparu cyfleoedd go iawn i bobl ag anableddau dysgu ac iechyd meddwl i gyrraedd eu potensial.
- Nododd adroddiad arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Chwefror 2024 am Ganolfan Seibiant Tir Einon ar gyfer anableddau dysgu, gymaint maent yn gwerthfawrogi'r gwaith aruthrol a wneir gan y gwasanaeth a'r effaith gadarnhaol ar eu hanwyliaid gan ddarparu gofal o safon eithriadol o uchel.

Cynllun Cerdyn Aur

Mae Cynllun Cerdyn Aur Sir Gaerfyrddin yn caniatáu i drigolion sy'n cynrychioli ein gwlad, fel athletwyr sydd heb fod yn cael tâl yn eu camp ddewisol, gael mynediad i gyfleusterau yng Nghanolfannau Hamdden Actif, yn rhad ac am ddim, i ategu eu rhaglen hyfforddi bresennol. Yn ystod 2023/24 derbyniodd Actif 80 o geisiadau am Gerdyn Aur, a rhoddwyd 78 ohonynt. Mae'r ceisiadau yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o chwaraeon sydd ar gael yn y Sir, gan fod 28 o wahanol chwaraeon yn rhan o hyn.

Drwy gydol 2023-24 mae Actif wedi cefnogi clybiau a sefydliadau chwaraeon gyda cheisiadau am grant ar gyfer Cronfa Cymru Actif (BAWF) a chynllun 'Grant Arbed Ynni' Chwaraeon Cymru. Mae hyn wedi arwain at 18 o glybiau chwaraeon Sir Gaerfyrddin yn derbyn cyfanswm cyfunol o £41,157 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf hon trwy'r BAWF. Yn ogystal, derbyniodd 5 clwb yn Sir Gaerfyrddin gyllid drwy'r Grant Arbed Ynni hefyd, gan arwain at fuddsoddi cyfanswm pellach o £94,466.

Cynllun Llysgenhadon Sir Gaerfyrddin

Wedi'i lansio yn 2023 gan y Cyngor Sir ar ôl peilot llwyddiannus dan gefnogaeth Croeso Cymru yng Ngogledd Cymru, nod cynllun Llysgenhadon Sir Gaerfyrddin yw datblygu gwybodaeth y gymuned am hanes a diwylliant y Sir, yn ogystal â phethau i'w gwneud. Yn ogystal â chynyddu balchder cymunedol ac ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael yn lleol, mae hefyd yn helpu cymunedau lleol i gefnogi busnesau lleol i ennill mwy o incwm gan ymwelwyr. Crëwyd cyfres o fodiwlau ar-lein ar bynciau sy'n amrywio o Gestyll a Gerddi, Iaith, Diwylliant a Hanes, Llwybrau Cerdded a Beicio a Threfi unigol ar draws tair lefel wahanol, gan ganiatáu i gyfranogwyr ennill ardystiad lefel efydd, arian ac aur.

Ar gael trwy wefan ddwyieithog, mae'r modiwlau wedi'u hysgrifennu a'u dylunio gan y swyddogion datblygu twristiaeth i fod yn addysgiadol ac yn hwyl gyda chwis i'w gwblhau ar ddiwedd pob modiwl. Lansiwyd modiwl Y Gymraeg a diwylliant Cymru fel rhan o'n gweithgareddau i gefnogi'r Urdd tra bo mewnbwn trefi lleol wedi bod drwy fforymau a'r prosiect 10 tref.

Trwy hyrwyddo parhaus, mae'r niferoedd bellach wedi cyrraedd dros 400, gan gynnwys y rheiny sy'n gweithio'n uniongyrchol ym maes twristiaeth, megis gwestai, myfyrwyr yng Ngholeg Sir Gâr, sgowntiaid ffilm, swyddogion llyfrgelloedd a chanolfannau cyswllt, yn ogystal â gweithwyr lletygarwch yn y trefi. Dyfernir tystysgrif i bob un gyda rhai bellach yn defnyddio'r cynllun fel rhan o'u proses sefydlu staff.

Darganfod Sir Gâr

Mae sianelau cyfryngau cymdeithasol Darganfod Sir Gâr wedi cael eu defnyddio bron yn ddyddiol i gyfathrebu pethau i'w gwneud a'u gweld ledled y Sir i breswylwyr a'r rhai sy'n ymweld. Gan ddefnyddio swyddi organig a grëwyd gan y swyddogion datblygu twristiaeth a pheth hysbysebu y talwyd ar ei gyfer drwy ddefnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, rydym wedi gallu cynyddu dilynwyr y cyfrif Facebook i 22,000 a chyrraedd dros 3 miliwn, a chyrhaeddwyd dros 65,000 o gyfrifon Instagram o fis Ionawr i fis Mawrth. Defnyddir fideos dwyieithog a lluniau trawiadol i roi gwybod i bobl am lefydd am ddim i fynd, teithiau cerdded hygyrch, llwybrau beicio a bwyd a diod lleol. Mae ymgyrchoedd radio ychwanegol wedi bod yn rhan o'r cynllun cyfathrebu gyda'r holl ddiddordeb yn cael ei sianelu i brif wefan "pethau i'w gwneud" y Sir.

Rydym wedi llwyddo i hyrwyddo dros 200 o ddigwyddiadau cymunedol drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â chefnogi 48 ohonynt drwy roi arweiniad rheoli. Ysgrifennwyd, dyluniwyd ac argraffwyd rhifyn Haf a Gaeaf o Ganllaw Ymwelwyr poblogaidd Sir Gâr yn ystod y flwyddyn, gyda 120,000 yn cael eu dosbarthu i leoliadau allweddol wedi'u targedu gan gynnwys caffis, llyfrgelloedd a gwestai. Mae'r canllaw'n darparu cymorth gweledol gwerthfawr i dros 100 o fusnesau a chaiff ei geisio gan drigolion sydd am ddarganfod eu sir eu hunain yn ogystal â rhai sy'n aros.

Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn

Mae llety Caban a'r Amgueddfa wedi'u hadeiladu ochr yn ochr gan ddefnyddio technolegau adeiladu cynaliadwy a nodweddion ynni adnewyddadwy. Mae'r Arena Ddigwyddiadau awyr agored a'r Rhodfa Arddangos eisoes wedi cynnal calendr helaeth o ddigwyddiadau i ategu'r digwyddiadau blynyddol rheolaidd presennol ym Mhentywyn, megis The Vintage Hot Rods a Straight-liners. I gwblhau'r prosiect, mae ardal chwarae gyffrous i blant, gardd dwyni gydag arwyddion â gwybodaeth am Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig cyfagos, a gwell parcio.

Mae ffynonellau cyllid ychwanegol i wella'r cynnig a'r profiad i ymwelwyr yn cynnwys:

- Arena chwaraeon tywod,
- pwyntiau gwefru cerbydau trydan,
- pwyntiau gwefru E-feiciau,
- loceri beic diogel,
- 30 lle parcio ychwanegol

Yn flaenorol, mae'r fasnach dwristiaeth ym Mhentywyn wedi bod yn dymhorol gyda'r rhan fwyaf o fusnesau'n cau ddiwedd mis Hydref ac yn ailagor yn y Gwanwyn. Mae'r cyfleuster hwn ar agor drwy gydol y flwyddyn, a gyda chalendr digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn, mae'n denu ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr dydd drwy'r tymor tawelach, gan roi cyfle i fusnesau eraill ym Mhentywyn sy'n ddibynnol ar dwristiaeth ymestyn eu misoedd masnachu, a thrwy hynny gynnal a chadw eu staff hefyd.

Mae busnesau lleol wedi ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleusterau newydd ac yn awyddus i gydweithio i hyrwyddo busnesau, digwyddiadau ac ati ei gilydd ac ymestyn amserau agor i'r tymhorau tawelach.

Mae'r gymuned wedi ymateb yn gadarnhaol ac yn awyddus i fwynhau'r cyfleusterau, cael mewnbwn i galendr digwyddiadau gydol y flwyddyn, a bod yn rhan o'r gyrchfan arfordirol fywiog a chynaliadwy newydd lle ceir amrywiaeth o fusnesau twristiaeth, o gaffis a siopau hufen iâ i logi cyfarpar ar gyfer y traeth a syrffio a gweithgareddau awyr agored, ac maent yn annog busnesau newydd i fuddsoddi ym Mhentywyn.

Mae'r Amgueddfa Cyflymder Tir a Caban, ynghyd â'r gwelliannau allanol, wedi ennill gwobr VAQAS Croeso Cymru (Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr).

Rhaglen Wirfoddoli'r Amgueddfa

Lansiwyd rhaglen wirfoddoli'r amgueddfa ym mis Tachwedd 2023, a chafodd 15 o wirfoddolwyr eu recriwtio yn y pedwar mis cyntaf. Yn dilyn diwrnod agored gydag Ymddiriedolaeth Coleg Elydir fe wnaethom hefyd ddatblygu rhaglen o gyfleoedd gwirfoddoli i'w dysgwyr oedd ag anghenion cymorth ychwanegol. Mae'r gwaith hwn wedi elwa ar y cysylltiad â'r Prosiect Gwirfoddoli Strategol mewn Hamdden a chynllun gwobrwyo Credyd Amser Tempo, y mae'r Amgueddfa Cyflymder Tir yn ei gefnogi. Roedd ein gwasanaeth allgymorth cymunedol yn cynnwys ymweld â grŵp cymorth dementia a dirywiad macwlaidd i helpu i lunio gwasanaeth hel atgofion a chynllun blychau cof, meithrin partneriaeth ehangach gyda Phrosiect Ysbrydoli Atgofion Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Wlân Cymru.

Canlyniad: Gwell gwasanaethau ataliol i fodloni gofynion poblogaeth sy'n heneiddio.

Hyfforddiant ac Arweiniad

Darparodd y Tîm Gofal Cymdeithasol a Diogelu Iechyd hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau i 124 o staff cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol a chartrefi gofal preifat, yn ogystal â 196 o ofalwyr gofal cartref yr Awdurdod Lleol.

Darparwyd sesiynau hyfforddi hefyd i 734 o staff ar draws 44 Awdurdod Lleol a gwahanol fathau o gartrefi gofal preifat. Nod y sesiwn oedd darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb i staff i loywi'u gwybodaeth am wisgo a thynnu PPE a hylendid dwylo.

Strategaeth Atal

Mae Strategaeth Atal yn cael ei datblygu o fewn ein Hadrannau Cymunedau. Bellach mae gennym Uwch-reolwr yn gweithio ar draws y gwasanaethau integredig a gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn datblygu dull poblogaeth gyfan ar gyfer atal. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r galw am ymyrraeth statudol ac yn mwyhau potensial unigolion.

Mae atal hunanladdiad a hunan-niweidio ac iechyd meddwl plant ac oedolion ifanc yn flaenoriaeth barhaus. Mae ymarfer mapio yn cael ei ddatblygu i nodi cefnogaeth a gwasanaethau yn ogystal â'r rhwystrau i'r rhai sy'n ceisio cymorth. Bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio'r strategaeth.

Mae pob tîm yn y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi cyflawni neu'n gweithio tuag at y cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. Mae'r cynllun yn gofyn am dystiolaeth bod gofalwyr yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl ofalu. Mae'r gwaith hwn yn elfen allweddol o'n strategaeth atal sy'n datblygu.

Y Gwasanaeth Llesiant Iechyd

Mae'r buddsoddiad yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi ein galluogi i sefydlu llwybr llesiant ar draws Sir Gaerfyrddin sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal.

Sefydlwyd y gwasanaeth Lles Iechyd sy'n gweithredu fel gwasanaeth ataliol, gyda'r nod o ddarparu cymorth i bobl cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. Gwasanaeth sy'n gynhwysol ac yn gweithredu'n brydlon i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir sydd eu hangen arnynt, pan fydd ei angen arnynt. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio dull amlddisgyblaethol o fynd i'r afael â straen cymdeithasol pobl, gan gysylltu â thimau meddygon teulu, tai, prawf, a gwaith cymdeithasol ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae'r gwasanaeth yn darparu:

- Dull cynhwysol o gefnogi iechyd meddwl,
- Dull ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau,
- Y nod yw gwella gwytnwch ac iechyd meddwl oedolion ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae'r galw am y gwasanaeth hwn yn cynyddu gyda rhai canlyniadau cadarnhaol yn cael eu hadrodd gan y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Canlyniad Rheoleiddo a Chanmoliaethau

- Roedd Llesiant Delta yn llwyddiannus yng Ngwobrau Gofal Prydain 2024 gan ennill y wobr 'Rhoi Pobl yn Gyntaf'. Nododd arolygiad diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru fod Llesiant Delta yn lle gwyach i weithio ac yn cael cefnogaeth dda gan y rheolwyragement.
- Yn clodfori'r gweithwyr gofal a'r gofal maent yn ei ddarparu Nododd arolygiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Tachwedd 2023 fod y cwsmeriaid a'u perthnasau.
- Nododd arolygiad diweddar gan AGC o Gartref Gofal Preswyl Awel Tywi ym mis Mehefin 2023 fod y staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn wybodus am y bobl maent yn eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Cyhoeddodd Archwiliad Cymru adroddiad lleol **'Adolygiad dilynol o'r Trefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu – Cyngor Sir Gaerfyrddin** ym mis Hydref 2023. Roedd yr adroddiad yn edrych a oedd gennym fel Cyngor, drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer Diogelu Corfforaethol, i sicrhau bod pob un o'i weithwyr yn chwarae eu rhan i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion a all fod mewn perygl o niwed.



Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y trefniadau corfforaethol ar draws y Cyngor ar gyfer diogelu. Nid oedd yn adolygiad o drefniadau diogelu[2] penodol mewn Addysg na Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nododd yr adroddiad nad oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion yn adroddiad cenedlaethol 2015 ar ddiogelu corfforaethol ac roedd gwendidau yn ei drefniadau goruchwyllo a sicrwydd diogelu corfforaethol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw fel y gall y Cyngor sicrhau ei hun bod y risg yn cael ei leihau. Gwnaed pum argymhelliad, ac ymatebom a mynd i'r afael â'r rhain drwy gytuno ar gynllun gweithredu gyda sawl cam bellach wedi'u cwblhau.

Addasiadau

Cwblhawyd 894 o addasiadau yng nghartrefi'r Cyngor a chartrefi preifat drwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ystod 2023/24. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 40% o gymharu â 2 flynedd yn ôl. Mae'r galw am addasiadau yn uchel, cafwyd cynnydd o 58% yn y galw dros yr un cyfnod, ac mae'r gwaith sydd ei angen yn cynyddu ar gyfer anghenion mwy cymhleth.

Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

Mae Chwaraeon a Hamdden Actif yn darparu ystod eang o ymyriadau iechyd mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Thimau Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol. Mae'r cynllun cenedlaethol i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff yn ymyrraeth ymarfer corff 16 wythnos ar gyfer unigolion â chyflyrau cronig, rhaglen cyn-diabetes sy'n cynnwys cyngor am ymarfer corff a chyngor maethol sy'n targedu'n benodol unigolion sy'n cael eu hystyried yn gyn-diabetig a'n rhaglen Atal Cwmpadau Rhagweithiol sy'n targedu pobl sydd mewn perygl o gwmpo neu'n ofni cwmpo ac yn rhoi cryfder a chydbywedd iddynt i'w hatal rhag cwmpo.

[2] Safeguarding is defined as 'Preventing and protecting children and adults at risk from abuse or neglect and educating those around them to recognise the signs and dangers'

Cynlluniau Llety

O fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, rydym wedi datblygu sawl cynllun llety sydd wedi gwella ansawdd bywyd unigolion ag anabledd dysgu yn sylweddol. Isod mae tystiolaethau gan ddau berson sydd wedi symud i mewn i un o'r eiddo newydd.

Meddai K, *"Mae'n dda byw yno, rwy'n hoffi gwnio, celf diemwnt, nofio yn y ganolfan hamdden, y grŵp cerdded, Dance Gold ac rwy' wedi dechrau nôl yn ioga, maen nhw i gyd gerllaw yn y ganolfan hamdden, ac mae staff yn dod gyda fi i wneud yn siŵr fy mod i'n croesi'r ffordd yn saff, ac rwy'n gweld rhai o'm ffrindiau yno. Dw i'n gweld fy ngheulu ar y penwythnos."* Gofynnais am fyw yn y cartref a dywedodd K *"Rwy'n hoffi fy ngwely, fy ystafell ac rwy'n ei lanhau ac yn helpu gyda'r siopa. Rwy' wrth fy modd â'r holl bethau rwy'n eu gwneud yma."* *"Heddiw dwi'n mynd i Techniquet gyda'r lleill sy'n byw yma a'r staff, ni'n mynd ar y trŵn."*

Dywedodd rhiant; *"Mae'n gwirfoddoli cwpwl o weithiau yn yr Ysbyty a phan wnes i alw yn gynharach yr wythnos hon, doedd ganddo ddim amser i siarad gan ei fod yn mynd allan i siopa bwyd i'r aelwyd. Mae e fel dyn newydd, mae'n ffynnu ac yn mwynhau cael mwy o annibyniaeth."*


Beth gallwn ni wneud yn well?

Gofal cymdeithasol i oedolion

Mae'r agenda atal yn un y mae angen i ni ei symud ymlaen yn gyflym yn ystod 2024. Mae yna enghreifftiau o arfer arloesol yn ein gwasanaethau dydd lle rydym wedi defnyddio cyfleusterau cymunedol a hamdden i atal pobl rhag gorfod mynychu gwasanaeth mewn adeilad. Mae gennym hefyd enghreifftiau o ymyrraeth greadigol gan ein timau cymunedol, megis y llwybrau llesiant yn y timau Iechyd Meddwl Cymunedol i ddarparu gwybodaeth a chymorth ar bwynt cynharach i atal yr angen am ymyrraeth statudol, ond mae gennym lawer i'w wneud yn y maes hwn i allu ateb y galw yn y dyfodol.

Un o'r meysydd lle mae angen mwy o ffocws eleni yw atal hunanladdiad gan ein bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o hunanladdiad a amheuir yn Sir Gaerfyrddin ac ar draws y rhanbarth. Yn 2023, fe wnaethom sefydlu Ymateb Cyflym i hunanladdiad a amheuir sy'n ein galluogi i estyn allan ar unwaith at y rhai yr effeithir arnynt a chynnig cefnogaeth. Cawsom arian grant hefyd i gyflogi swyddog i ymgymryd ag ymarfer mapio i nodi cefnogaeth a gwasanaethau yn ogystal â'r rhwystrau i'r rhai sy'n ceisio cymorth. Bydd y gwaith hwn yn llywio ein strategaeth atal sy'n datblygu.

Y llynedd, gwnaethom gydnabod yr angen am wella ein hymgyssylltiad â gofalwyr wrth ddatblygu gwasanaethau, felly yn gynharach eleni fe wnaethom gynnal cynhadledd i sicrhau dull cydgynhyrchiol o lywio'r gwaith hwn.



Amcan Llesiant 3

Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)

Trosolwg cynnydd

Mae economi iach a gweithredol yn darparu'r sylfaen ar gyfer twf cynaliadwy, gwell safonau byw a datblygu cymunedau ffyniannus. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyflogaeth deg ac ystyrlon, sylfaen fusnes ffyniannus a marchnad lafur fedrus yn sylfeini i economi iach, ac mae wedi ymrwymo i yrru'r agenda hon yn ei blaen. Mae'r adferiad economaidd yn dilyn cyfnod heriol Covid yn parhau ar gyflymder, fodd bynnag mae rhai heriau'n parhau. Mae incwm gwario aelwydydd yn parhau i fod yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol ac mae cyfraddau anweithgarwch economaidd dal yn uwch na'r cyfartaleddau.

Mae busnesau'n parhau i gael eu cefnogi drwy ystod o ymyriadau, gan gynnwys gwell mynediad i ofod masnachol, cyfleoedd rhwydweithio, mynediad at gyllid a mwy o ffocws ar sicrhau y gall busnesau fanteisio ar gadwyni cyflenwi lleol a chyfleoedd caffael. Mae gweithgarwch adfywio ehangach wedi gweld gwelliannau i ganol ein trefi gyda'r nod o gynyddu nifer yr ymwelwyr a denu buddsoddiad mewnol.

Mae ein cynlluniau cyflogadwyedd yn parhau i gefnogi'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, ac mae swyddi'n cael eu creu drwy ymyrraeth gan y Cyngor i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at gyfleoedd i wella eu bywydau. Mae hyfforddi ac uwchsgilio i greu gweithlu wedi'i ddiogelu yn parhau ac mae cynnydd yn nifer y rhai sy'n gymwys i lefel 4 ac uwch.

Mae'r gwaith ar Bentre Awel yn parhau'n hwylus a bydd gan hynny fanteision pellgyrhaeddol i'r Sir, ac mae rhai ohonynt eisoes yn cael eu gwireddu drwy Fudd i'r Gymuned.

Mae'r gwaith yn parhau i fynd i'r afael ag un o'r rhwystrau cyffredin sy'n wynebu unigolion sydd am ddychwelyd i gyflogaeth neu ddod o hyd i waith drwy geisio cynyddu argaeledd gofal plant yn y Sir lle nad yw'r galw yn cael ei fodloni.

Mae'r Amgylchedd Naturiol yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r Cyngor wedi datgan ei ymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a bydd yn parhau i weithio tuag at fod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030, gan fynd i'r afael â'r materion sy'n sbarduno dirywiad yn ein bioamrywiaeth ac yn cefnogi adferiad natur. Gwelwyd cynnydd bychan yn lefelau Nitrogen Deuocsid, fodd bynnag, mae hyn yn dal yn is na chyfartaledd Cymru. Mae cam cyntaf y Strategaeth Wastraff ar waith ac mae newidiadau wedi arwain at gynnydd mewn ailddefnyddio ac ailgylchu perfformiad tunelledd sydd eisoes wedi rhagori ar y targed cenedlaethol oedd yn ddisgwyliedig erbyn 2025. Ar ben hynny, mae canran y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi wedi lleihau, gan weithio tuag at y targed Cenedlaethol o beidio ag anfon Dim Gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025. Mae ardaloedd o'r Sir yn agored i effeithiau negyddol yr argyfwng hinsawdd, yn enwedig llifogydd. Mae'r Cyngor wedi gweithredu ymyriadau drwy'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a'r Cynllun Rheoli'r Traethlin i liniaru effeithiau llifogydd, sy'n bryder cynyddol ymhlith trigolion.

Mae'r Sir yn parhau i fod yn gadarnle strategol allweddol ar gyfer dyfodol y Gymraeg a chydabyddir manteision cymdeithasol ac economaidd dwyieithrwydd yn eang. Mae ein 'Strategaeth i hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin 2023-28' yn nodi'r hyn byddwn yn ei wneud i weithio tuag at adfer y Gymraeg yn y Sir drwy gynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r sefyllfaoedd lle gall pobl siarad Cymraeg, codi statws yr iaith, cefnogi cymunedau i gynnal yr iaith a thrwy gael effaith gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth.

Mae cyfanswm troseddau yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng dros 14% yn ystod 2023/24, sy'n gadarnhaol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol i gynnal y cyfraddau isel hyn, a dangosir hyn drwy waith y diogelwch cymunedol, y Tîm Cydlyniant Cymunedol, a'r cydweithio sy'n ofynnol o ran y Ddyletswydd Trais Difrifol.

Mae cludiant a phriffyrdd yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi a chynnal ein cymunedau, gan ddarparu'r seilwaith hanfodol sy'n cysylltu pobl â'i gilydd, yn cefnogi mynediad at wasanaethau, ac yn cefnogi economi sy'n ffynnu. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu cynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd o fewn ei fodd, fodd bynnag, gwneir darpariaeth arbennig yn ystod y gaeaf i sicrhau mynediad di-dor i wasanaethau hanfodol.

Mae'r Sir yn helaeth ac yn gymysg o ran ei thirwedd wledig/trefol, ac mae hyn yn peri heriau sy'n anodd mynd i'r afael â nhw, yn enwedig gyda llai o adnoddau. Rydym wedi parhau â'n gwaith i wella seilwaith ffyrdd a datblygu atebion trafnidiaeth ar gyfer ardaloedd mwy gwledig y Sir.

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y bobl laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ffyrdd Sir Gâr, gyda chynnydd o 66% o 2022 i 2023. Rydym wedi ymrwmo i wneud ffyrdd yn fwy diogel trwy weithio mewn partneriaeth, codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant i wella sgiliau ac ymddygiad defnyddwyr ffordd.

Chwaraeon, hamdden, diwylliant a hamdden awyr agored yw curiad calon ein cymunedau. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu amrywiaeth o weithgareddau, cyfleusterau a rhaglenni iechyd a llesiant er mwyn cefnogi ein trigolion a'n cymunedau i fyw bywydau iach, diogel a llewyrchus. Yn debyg ddigon, mae hyrwyddo ein Sir fel lle deniadol a hyfyw yn fasnachol i ymweld â hi a buddsoddi ynddi yn ffactor allweddol o safbwynt economaidd a llesiant. Cyfrannodd ymwelwyr dros nos a dydd â'r Sir £597m i'r economi leol gan gefnogi 6,652 o swyddi amser llawn. Yn ogystal, mae ymweliadau â llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden wedi cynyddu'n sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Mae nifer o fentrau hamdden a llesiant arloesol hefyd yn cael eu darparu trwy amrywiaeth o fecanweithiau i sicrhau bod gan bobl ystod eang o opsiynau a chyfleoedd i fyw bywydau egniol a chyfoethog.



Yn Gryno

Mae economi Sir Gaerfyrddin wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn cyfnod o ansicrwydd ac adferiad yn dilyn y pandemig. Cydnabyddir hyn wrth i ni symud tuag at weledigaeth economaidd o'r newydd sy'n anelu at ganolbwyntio ar y cyfleoedd sydd ar gael i ni, a'r heriau mae'n rhaid i ni eu goresgyn i wireddu twf economaidd go iawn.

- Mae'r sir yn parhau i arddangos lefelau uwch na'r cyfartaledd o anweithgarwch economaidd, ac mae cyfraddau cyflogaeth yn parhau i fod yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae cyfraddau diweithdra wedi cynyddu ychydig ond yn parhau i fod yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- Bu gostyngiad mewn genedigaethau busnes a chynnydd mewn marwolaethau busnes, ond mae'r Cyngor wedi ymrwmo i ddarparu cymorth i fusnesau i sicrhau eu cynaliadwyedd a'u gallu i arallgyfeirio ac uwchraddio.
- Dros y tymor hir, mae Gwerth Ychwanegol Gros Sir Gaerfyrddin wedi tyfu'n gymharol araf. Er hynny, mae'r darlun diweddar yn fwy positif ers y pandemig, ac mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU wedi lleihau, ond mae dal rhywfaint o ffordd i fynd i leihau'r bwlch i'r lefel oedd ar ddechrau'r mileniwm.
- Mae lefelau cymwysterau wedi gwella ac erbyn hyn mae llai o bobl sydd heb unrhyw gymwysterau o gwbl.
- Sicrhawyd cyllid sylweddol gan Datblygu Economaidd, sy'n adlewyrchu cyflawniad sylweddol mewn cyllid allanol a buddsoddiad y sector preifat.
- Cyfrannodd ymwelwyr dros nos a dydd gryn dipyn i'r economi leol gan gefnogi miloedd o swyddi amser llawn.



Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae ffigurau cyflogaeth wedi cynyddu ychydig yn Sir Gaerfyrddin, ac ar ddiwedd Mawrth 2024 roeddent yn 72.0% o gymharu â 71.7% ar ddiwedd Mawrth 2023, er eu bod yn dal i fod yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DU o 73.5% a 75.4%. Cynyddodd y ffigurau diweithdra ychydig i 3.0% ym mis Mawrth 2024 o gymharu â 2.9% ym Mawrth 2023. Mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru a'r DU o 3.5% a 3.8%. Mae anweithgarwch economaidd yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn uchel er gwaethaf gwelliant bach o 23.3% ym mis Mawrth 2023 i 21.7% ym mis Mawrth 2024, mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 20.3% ac yn uwch o dipyn na chyfartaledd y DU o 17.7%.
- Mae gan 46.3% o'r rheiny sydd rhwng 18 a 64 oed yn Sir Gaerfyrddin gymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu uwch (Rhagfyr 2023), ac mae hyn yn welliant ar 40% y flwyddyn flaenorol ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 45.0%. Mae datblygu sgiliau a chymwysterau yn gwella cyflogadwyedd, yn rhoi hwb i ragolygon gyrfa ac yn creu marchnad lafur fedrus a galluog iawn. Mae hefyd yn sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Bu i ganran y rheiny heb gymwysterau yn Sir Gaerfyrddin leihau i 5.3% yn Rhagfyr 2023, o gymharu â 7% y flwyddyn flaenorol, sy'n llai o dipyn na chyfartaledd Cymru o 7.9%. Mae Sir Gâr ar y trywydd iawn o ran cyrraedd Carreg Milltir Dangosydd Llesiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru - 'bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050'.
- Mae genedigaethau busnes wedi gostwng o 820 yn 2021 i 630 yn 2022, ac mae marwolaethau busnes wedi cynyddu o 650 yn 2021 i 700 yn 2022.
- Crëwyd 955 o Swyddi Uniongyrchol ac Anuniongyrchol gyda chymorth Adfywio yn ystod 2024/25, mae hwn yn ostyngiad ar ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 1,466 ond mae peth oedi i ddechrau cyflawni uniongyrchol sylweddol a phrosiectau adeiladu a ariennir gan grant trydydd parti yn golygu y bydd y rhain nawr yn cael eu gwireddu yn 2024/25.
- Cafodd 158 o unigolion eu cefnogi drwy gynlluniau cyflogadwyedd y Cyngor i ennill y cyflog byw gwirioneddol yn ystod 2023/24, ac mae hwn yn ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 204. Roedd llawer o'r cleientiaid a gefnogwyd yn dal i dderbyn cyngor ac arweiniad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan eu bod yn wynebu sawl rhwystr a chan fod ganddynt anghenion cymhleth. Felly, mae angen cymorth ychwanegol cyn iddynt gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth.
- Sicrhawyd dros £35m o gyllid yn ystod 2023/24 gan Datblygu Economaidd trwy Fuddsoddiad Sector Preifat ac amrywiol geisiadau llwyddiannus am gyllid allanol.
- Mae ymwelwyr dros nos a dydd yn cyfrannu £597m i'r economi leol gan gefnogi 6,652 o swyddi amser llawn.

Canlyniad: Cefnogir busnesau a darperir swyddi.

- Yn 2023, roedd tua 8,000 o fusnesau yn Sir Gaerfyrddin. Roedd 91% o fusnesau yn fentrau 'micro' sy'n cyflogi llai na naw o bobl - cyfran ychydig yn uwch o'r stoc fusnes gyffredinol nag yng Nghymru neu'r DU.
- Cefnogwyd 3,071 o ymholiadau busnes gyda chymorth y tîm adfywio yn ystod 2023/24. Mae hyn dipyn uwchlaw'r targed o 1,159 ac mae'n sylweddol uwch na chanlyniad y flwyddyn flaenorol o 1,237.
- Crëwyd 60 o swyddi drwy Fudd i'r Gymuned yn ein prosiectau Adeiladu (rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, prosiectau tai ac adfywio) a 669 o swyddi gyda chymorth adfywio ar draws y sir.
- 2,762 o ymgysylltiadau â disgyblion STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) drwy Fudd i'r Gymuned yn ein Prosiectau Adeiladu (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, prosiectau tai ac adfywio).



Marchnadoedd

Darperir cymorth i fusnesau yn y marchnadoedd lleol dan do ac awyr agored yng Nghaerfyrddin a Llanelli gydag 80 a 56 o denantiaethau. Yng Nghaerfyrddin mae cyfraddau llefydd gwag wedi gwella yn ystod y flwyddyn wrth i nifer yr unedau gwag ostwng o 8 i 3. Yng Nghaerfyrddin, gwnaed cryn ymdrech i hysbysebu a darparu ar gyfer newidiadau yn ôl ceisiadau masnachwyr. Datblygiad allweddol yn y farchnad fu cyflwyno busnesau newydd sy'n denu ymwelwyr newydd.

Yn Llanelli, mae cyfraddau llefydd gwag wedi cael eu cadw i lai na 10% ers cryn amser. Mae ail-hysbysebu stondinau a siopau yn brydlon wedi arwain at lenwi llefydd gwag yn gyflym. Fodd bynnag, oherwydd llai o ymwelwyr, gall cyfraddau tenantiaeth gynyddu yn y dyfodol a bydd angen eu monitro.

Canol Trefi

Mae adfywio canol ein trefi yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Ym mis Gorffennaf 2021 cymeradwywyd Cynllun Adfer Economaidd Sir Gaerfyrddin gan y Cabinet. Dilynwyd hwn gan gynlluniau canol tref penodol ar gyfer Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli ym mis Ionawr 2022. Mae'r prosiectau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i gyd yn cyd-fynd â chamau gweithredu a chynigion sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau adfer canol tref hyn.

Yng nghanol prif drefi Rhydaman, Llanelli a Chaerfyrddin, mae gennym Dasgluoedd a Fforwm Tref yn eu lle. Mae'r grwpiau hyn yn dwyn ynghyd randdeiliaid allweddol yng nghanol y trefi bob chwarter i drafod prosiectau, cyfrannu, ystyried, a chefnogi ei gilydd er mwyn datblygu canol y trefi. Sonnir am gyfleoedd i gael cyllid, darperir cynnydd ar waith pob rhanddeiliad unigol, a gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer gweithgarwch posibl yn y dyfodol. Mae gan bob un o'r trefi ei set ei hun o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n cael eu monitro'n flynyddol, ac mae'r rhain yn cynnwys nifer yr eiddo gwag, lefelau buddsoddiad gan randdeiliaid a niferoedd yr ymwelwyr.

Mae darparu cyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru (Ebrill 2022 – Mawrth 2025) a Chyllid Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (Ebrill 2023 – Mawrth 2025) ar y gweill. Mae'r ddwy gronfa yn rhoi cyfle i ganolbwyntio ar ganol y prif drefi ac mae'r prif amcanion yn cynnwys cynyddu bywiogrwydd, lleihau nifer yr unedau masnachol gwag / nad ydynt yn llawn, a chynyddu nifer yr ymwelwyr.

Aeth y gwaith adeiladu'n dda yn ystod 2023/24 ar yr hen YMCA yn Llanelli. Ar ôl ei gwblhau, bydd 4 uned adwerthu, 4 swyddfa ac 8 o fflatiau 2 ystafell wely. Bydd y gofod masnachol yn cael ei ryddhau i'r farchnad agored ar gyfer tenantiaid. Bydd yr unedau adwerthu yn unedau cychwynnol i bobl leol gymryd y cam nesaf yn eu taith fusnes.

Ailddechreuodd y gwaith adeiladu ar safle Gogledd Stryd y Farchnad ym mis Medi 2023 gyda rhaglen adeiladu 18 mis (65 wythnos) ddisgwyliedig. Bydd y datblygiad yn darparu arwynebedd llawr masnachol 340 metr sgwâr mewn 5 uned fasnachol gyda lle i 17 o swyddi a 10 uned breswyl.

Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn

Yn un o'r 13 prosiect sy'n gyfres o gyrchfannau hanfodol i ymweld â hwy ledled Cymru, mae Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn wedi'i ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin.

Roedd hwn yn brosiect pwysig ar gyfer adain Adfywio'r Cyngor, gan sicrhau miliynau o sawl ffynhonnell i greu cyrchfan o ansawdd da sy'n ceisio annog buddsoddiad mewn busnesau a chyflogaeth yn yr ardal.

Ar lan y môr ym Mhentywyn, uwchlaw'r traeth gwyh 7 milltir o hyd, mae gwesty **Caban** yn lle perffaith i ymlacio a darganfod yr ardal leol. Mae'r lleoliad rhagorol hwn yn golygu gall y gwesteion gyrraedd y traeth a'r arfordir hynod drawiadol yn hwylus, ac mae cyfres o ddigwyddiadau ledled y flwyddyn yno ar gyfer pobl o bob oed beth bynnag eu diddordebau.

Ar agor drwy gydol y flwyddyn, mae'r llety'n cynnwys 14 ystafell ensuite yn amrywio o ystafelloedd deuol/dwbl, ystafelloedd i dri a theuluoedd, a rhai hygyrch ar y llawr gwaelod, yn ogystal â bwyty ar y safle gyda bwydlen amrywiol yn cael ei gweini trwy gydol y dydd.

Yn ogystal â'r llety a'r bwyty trwyddedig mae gan Caban ystafell newid hygyrch ac mae modd llogi cadeiriau olwyn addas i'w defnyddio ar y traeth (trwy gronfa ar wahân), y mae modd i'r cyhoedd eu defnyddio, yn ogystal â chyfleusterau cyhoeddus allanol.

Agorwyd Caban yn 2023, ac mae'n gyrchfan poblogaidd iawn i ymwelwyr a thrigolion lleol, sy'n defnyddio'r bwyty'n rheolaidd i gwrdd a chymdeithasu.

Swyddi – 12 aelod o staff parhaol ar hyn o bryd:

- 8 x Amser Llawn (5 o Bentywyn, 2 o Sanclêr, 1 o Gaerfyrddin)
- 4 x Rhan-amser (2 o Bentywyn, 2 o Sanclêr)
- 5 x achlysurol (2 o Bentywyn, 3 o Gaerfyrddin)

Hefyd yn recriwtio ar y pryd felly bydd yn cynyddu i 16 o staff parhaol.

Mae pedwar o bobl leol ychwanegol wedi cael gwaith yn yr Amgueddfa Cyflymder Tir, sydd hefyd ym Mhentywyn.

Canlyniad: Caiff pobl eu cynorthwyo i fanteisio ar gyfleoedd lleol boed hynny trwy ddechrau busnes, ennill cymwysterau neu gael gwaith ystyrlon.

- Drwy ddarparu Budd i'r Gymuned, cyflwynwyd dros 3,595 wythnos o recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu gennym yn 2023/24 drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor yn ogystal â phrosiectau tai ac adfywio ar draws y Sir.
- Rydym yn cyflawni'r Rhaglen Sgiliau a Thalentau gwerth £30 miliwn ac wedi cefnogi 21 o brosiectau yn ariannol hyd yma gyda'r nod o greu gweithlu medrus yn y dyfodol. Nodau'r rhaglen yw darparu o leiaf 2,200 o sgiliau ychwanegol, cefnogi tua 14,000 o unigolion â sgiliau lefel uwch o fewn 10 mlynedd, a chreu o leiaf 3,000 o gyfleoedd prentisiaeth newydd.
- Mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid i barhau i ddiweddarau Baromedr Sgiliau i fapio'r bylchau presennol o ran darpariaeth a sgiliau nawr ac yn y dyfodol. Mae'r rhaglen yn datblygu'n dda gyda'r Brentisiaeth Gradd newydd sbon gyntaf mewn Profiad Defnyddiwr yn cael ei chyflwyno gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - mae hyn yn ategu'r cynnig prentisiaeth lefel 2 - 5 sy'n cael ei ddarparu trwy Goleg Gŵyr. Y Fframwaith hwn yw'r cyntaf i gael ei ddarparu yng Nghymru gyfan ac mae wedi bod yn ofyniad gan y Diwydiant ers blyneddau lawer.

Roedd gweithgareddau pellach yn cynnwys:

- Helpu grwpiau clwstwr diwydiant i dyfu a chreu llyfryn hyrwyddol i arddangos eu gweledigaeth, buddion a gwaith.
- Datblygu gwefan Explore Engineering rhyngweithiol mewn cydweithrediad â'r sector preifat. Maent hefyd wedi cynhyrchu cyfres ffilm fer i ysbrydoli dysgwyr ifanc ac oedolion i ystyried peirianeg fel dewis gyrfa.
- Trefnu sawl digwyddiad, gan gynnwys gweithdai "Let's Talk GenZ," digwyddiad Sgiliau ar gyfer y Dyfodol ar gyfer Gweithlu'r Dyfodol oedd yn canolbwyntio ar sgiliau digidol, a Chynhadledd o'r enw "Keep Contracts Local" yn y clwstwr adeiladu.
- Gweithio gyda BT i ddod â gofod ymgolli BT i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin, gan eu galluogi i archwilio gwahanol sefyllfaoedd gan ddefnyddio technoleg arloesol.
- Cymryd rhan yn nigwyddiad gyrfaoedd Dewis Eich Dyfodol, â'r nod o roi cipolwg ar wahanol opsiynau gyrfa a llwybrau i fyfyrwyr, gan ganiatáu iddynt ddysgu gan weithwyr proffesiynol yn y diwydiant a chael gwell dealltwriaeth o fyd gwaith.

Neuadd y Farchnad, Llandeilo

Mae 'Hen Farchnad' Llandeilo yn ddatblygiad newydd sy'n darparu 1,249m² o le swyddfa a busnes cymysg, gan gynnwys caffi a gofod digwyddiadau yng nghanol Llandeilo.


Wedi'i drwytho mewn hanes, mae ychydig dros £4 miliwn o waith ailddatblygu wedi'i wneud ar yr adeilad drwy raglen ariannu Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru gyda chyllid hefyd yn dod o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (£1.4 miliwn a £300,000) a'r Cyngor, i greu safle amlddefnydd ysbennnydd ar gyfer busnesau a digwyddiadau.

Gydag 20 uned fusnes wedi'u creu, mae 17 o fusnesau yn 18 ohonynt ar hyn o bryd gan gynnwys barbwyr a llefydd therapi galwedigaethol ac ynni adnewyddadwy solar, gyda'r 2 uned sy'n weddill dan gynnig ar hyn o bryd.

Mae gan yr adeilad fand eang ffeibr llawn hyd at gyflymder lawrlwytho o 900mb, lifft i 8 o deithwyr/pobl anabl i'r llawr cyntaf, un lle parcio fesul uned, dau le ailwefru cerbydau trydan, system wresogi nwy neu drydan gyda rheiddiaduron ar y waliau, a thoiledau a cheginau cymunedol ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf.

Bydd y cyfleuster hefyd yn lleoliad ar gyfer gwyliau a digwyddiadau a gynhelir drwy gydol y flwyddyn, grwpiau cymunedol lleol i'w defnyddio ar gyfer cyngherddau, seremonïau ac ati, yn ogystal â lleoliad parhaol ar gyfer marchnadoedd lleol.

I hyrwyddo'r dref ymhellach fel lle da a diwylliannol gyfoethog ei Chymreictod i fyw ac ymweld ag ef, enw'r cyfleuster yw 'Yr Hen Farchnad'.



Parc Gelli Werdd

Cwblhawyd y gwaith o ddatblygu Parc Gelli Werdd ddechrau 2024, sy'n ddatblygiad o swyddfeydd ac unedau diwydiannol mewn 3 adeilad gan ddarparu 32,500 troedfedd sgwâr i'w gosod yn Cross Hands, Sir Gaerfyrddin. Mae lefel diddordeb tenantiaid yn yr unedau wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda 9 o'r unedau a 5 o'r swyddfeydd i'w meddiannu yn fuan, ac ymholiadau parhaus am y 6 uned a'r 6 swyddfa sy'n weddill.



Y Prosiect:

- Datblygiad Economaidd drwy ddarparu cymysgedd o ofod swyddfa a diwydiant i fusnesau lleol sefydlu a thyfu a bydd yn creu 113 o swyddi.
- Cyfrannu at wella cyfleoedd cyflogaeth i gymunedau lleol, yn cynnwys pobl ifanc drwy ddarparu swyddi yn y dyfodol, gan gadw pobl yn yr ardal.
- Wedi cyflawni 1,390 wythnos recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu a 255 wythnos prentis yn cynnwys 9 prentis, wedi darparu 94 o gyfleoedd i bobl yr ystyrir eu bod dan anfantais yn ogystal â chyflwyno rhaglen seiliedig ar adeiladu i'r ysgol leol.
- Cyfrannu at ddatblygu gallu mewn sgiliau technoleg werdd a chyflenwi cynhyrchion ar gyfer cyflwyno datblygiadau carbon isel.
- Gwella'r elfen ecolegol cymaint ag sy'n bosibl fel rhan o'r datblygiad cyn datblygu'r safle strategol, lliniaru, digolledu, a gwella tir yn Sir Gaerfyrddin. Wedi mabwysiadu systemau draenio cynaliadwy gan ddefnyddio pantiau sy'n caniatáu llifoedd rheoledig sy'n arwain at system ddraenio ehangach.
- Mwyhau Gwerth Cymdeithasol drwy gynnwys egwyddorion dylunio cynhwysol ynghyd â gofynion hygyrchedd, cydraddoldeb a chreu lleoedd a thrwy gymalau cymdeithasol mewn contractau adeiladu.
- Mabwysiadu dull arloesol a chydweithredu, gan gyfrannu at ddatgarboneiddio eiddo masnachol a'i effeithiau tymor hir a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer cymunedau yn yr ardal.

Canlyniad: Caiff busnesau eu cynorthwyo i fanteisio ar gadwyni cyflenwi lleol a chyfleoedd caffael.

Hyrwyddo

Mae ein Hunedau Caffael Corfforaethol a Datblygu Economaidd yn gweithio'n agos i hyrwyddo cyfleoedd i fusnesau Sir Gaerfyrddin. Mae nifer o Gymorthfeydd Caffael a Busnes wedi'u cyflwyno, gan gynnig cyngor ac arweiniad caffael i ddarpar gyflenwyr, cyngor ar grantiau busnes i'r rhai sy'n gymwys, hyrwyddo ymarferion tendro i fusnesau lleol a allai fod â diddordeb mewn tendro, a chymorth busnes ehangach. Rydym wedi cynnal gweithdai tendro byw yn ystod 2023/24, a gweithdy paratoi ar gyfer tendr i dendr Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2024 ym maes adeiladu.

Cynhelir y cymorthfeydd mewn amryw leoliadau ar draws Sir Gaerfyrddin, yn y 3 prif dref a'r 10 tref wledig.

Cynnal a Chadw Eiddo

O ganlyniad i'n harferion caffael strategol ar gyfer gwaith allanol, cyfeiriwyd 63.73% o'r gwariant at gwmnïau yn Sir Gaerfyrddin y llynedd, gyda 29.35% ychwanegol yn mynd i gwmnïau eraill o Gymru.

Er mwyn gwella'r modd rydym yn rheoli contractau, goruchwyllo a chynhyrchiant cyffredinol, mae system rheoli gwaith newydd ar waith o fewn y tîm Cynnal a Chadw Eiddo. Disgwylir i'r datrysiad hwn sy'n cael ei yrru gan dechnoleg symleiddio gweithrediadau a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau.

Pentre Awel

Ar Pentre Awel, Parth 1 cynhelir cyfarfodydd masnachol rheolaidd rhwng tîm masnachol Bouygues UK a'r Cyngor i wneud y gorau o'r cyfleoedd cadwyn gyflenwi a hyrwyddir er mwyn i gyflenwyr lleol allu ymgeisio am waith is-gontractio.

Mae Bouygues yn cynnal Cynllun Caffael byw sy'n amlinellu'r cyfleoedd is-osod ac mae'r rhain wedi'u rhannu â thîm Datblygu Economaidd y Cyngor. Ar ben hynny, rydym yn parhau i weithio gyda Bouygues i dreialu dull o goladu gwariant y gadwyn gyflenwi ac olrhain lleoliadau'r prif gontractwr a'r is-gontractwr a lleoliad unigolion a gyflogir ar y safle.



Mae Buddion Economaidd a Chymunedol yn cael eu holrhain yn ystod y cyfnod adeiladu gan Bouygues i wneud y gorau o'r cyfleoedd cadwyn gyflenwi a hyrwyddir er mwyn i gyflenwyr lleol allu ymgeisio am waith is-gontractio.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r prif fuddion canlynol wedi'u cyflawni:

Cadwyn Gyflenwi Leol	• Dyfarnwyd 72% o'r hyn gaffaelwyd i gyflenwyr o Gymru gyda 9% yn ardal cod post SA. Mae cyflenwyr lleol yn cynnwys Shufflebottom Ltd, Owens Group, Gwasanaeth Ailgylchu Dyfed a Dyfed Steels.
Ymgysylltu	• 93.5 awr o ymgysylltu ag ysgolion lleol a 9 Llysgennad Cymunedol.
Swyddi	• Creu 38 o swyddi newydd • 1,990 o wythnosau person o Recriwtio a Hyfforddi a Dargedwyd ar gyfer y prosiect ond heb gyrraedd y targed o gyflawni 4,680 o wythnosau person erbyn diwedd 2024. Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy gynyddu hybiau cyflogadwyedd ar y safle i wella. • Ni lwyddwyd i lenwi sawl swydd wag oherwydd prinder llafur yn y maes adeiladu a sgiliau eraill, sydd wedi arwain at 463 o wythnosau Recriwtio a Hyfforddi a Dargedwyd ddim yn digwydd.
Dysgwyr	• 31 o brentisiaid/prentisiaid a rennir • 4 o raddedigion • 19 o hyfforddeion • 13 ar brofiad gwaith (mewn addysg) • Cyflawnwyd 586 o ryngweithiadau â disgyblion

BETH SYDD WEDI DIGWYDD AR DRAWS PENTRE AWEL YN YSTOD 2023/24...

Ebrill 2023	• Pentre Awel yn ennill Gwobr Gynaliadwyedd ar draws busnes Bouygues UK • Enillodd Parth 1 wobwr gynaliadwyedd am ei waith i leihau carbon, arbed ynni a lleihau gwastraff ar draws y prosiect
Mehefin	• Cynllun Profiad Gwaith Sgiliau'r 21ain Ganrif Pentre Awel • Lanswyd cynllun profiad gwaith sgiliau'r 21ain ganrif, i rymuso dysgwyr o ysgolion lleol am yrfaedd mewn adeiladu a dylunio.
Awst	• Dechrau adeiladu'r ffrâm ddur • Gydag ymrwymiad i dreftadaeth yr ardal, dechreuodd busnesau lleol godi strwythur ffrâm ddur - 80% o ddeunydd wedi'i ailgylchu a'r trawstiau atgyfnerthu ar gyfer sylfeini'r prosiect - 98% o ddeunydd wedi'i ailgylchu.
Medi	• Bouygues UK a Whitehead Building Services yn cefnogi prentisiaethau drwy Gynllun Rhannu Prentisiaeth Cyfle • Wedi ymrwymo i gefnogi 10 o brentisiaethau mecanyddol a thrydanol drwy gynllun rhannu prentisiaeth Cyfle.
Tachwedd	• Recriwtio pobl leol fel Llysgenhadon Cymunedol • Tri o bobl Llanelli yn Llysgenhadon Cymunedol; rôl bwysig o ran cydlynu a chyfathrebu â'r gymuned leol sy'n byw ac yn gweithio o amgylch y prosiect, gan roi'r diweddaraf iddynt am yr adeiladu.
Rhagfyr	• Digwyddiad pitshio tebyg i Dragon's Den ar gyfer Cynllun Profiad Gwaith Sgiliau'r 21ain Ganrif • Cymerodd pum ysgol leol yn Llanelli ran yn y digwyddiad, i rymuso dysgwyr i ganfod gyrfaoedd mewn adeiladu a dylunio. Cafodd y disgyblion 10 munud yn unig i arddangos eu dyluniadau terfynol..
Chwefror 2024	• Seremoni 'Gosod y garreg gopa' ar ôl blwyddyn o adeiladu • Croesawyd ymwelwyr i seremoni swyddogol 'gosod y garreg gopa', wedi nodi 12 mis o waith adeiladu ar y prosiect drwy gwblhau strwythur dur Parth 1 y datblygiad.

Dylunio Eiddo

Fe wnaethom lansio Fframwaith Gwasanaethau Proffesiynol Adeiladu Sir Gaerfyrddin (2023) yn llwyddiannus am gyfnod o bedair blynedd. Mae hyn yn darparu llwybr ystwyth i'r farchnad ar gyfer ystod o ddisgyblaethau proffesiynol i'n cynorthwyo i ddatblygu ein rhaglenni gwaith uchelgeisiol. Mae'r fframwaith hwn wedi bod yn hanfodol er mwyn caniatáu i ni gael cefnogaeth drwy arbenigedd technegol ychwanegol tra bo trefniadau recriwtio wedi'u rhewi ledled y Cyngor.

Bydd y tendr ar gyfer Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol newydd De-orllewin Cymru 2024 (SWWRCF) yn cael ei lansio a bydd yn gwasanaethu fel ein prif lwybr i'r farchnad ar gyfer yr holl brosiectau adeiladu mawr yn Sir Gaerfyrddin. Bydd SWWRCF hefyd yn cael ei ddefnyddio gan ein hawdurdodau cyfagos yn Ne-orllewin Cymru, yn ogystal â sefydliadau eraill a enwir a'r cyrff cyfranogol.

Canlyniad: Pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i fyw bywydau egnïol ac iach trwy fynediad at wasanaethau a darpariaeth sy'n addas i'r diben.

Cyfleusterau Chwaraeon Rhydaman

Ym mis Tachwedd 2023 agorwyd yn swyddogol gae pob tywydd 3G newydd sbon danlli dan lifoleuadau fel rhan o fuddsoddiad o £2 filiwn mewn cyfleusterau chwaraeon yn Rhydaman. Bydd Ysgol Dyffryn Aman a'r gymuned ehangach hefyd yn elwa ar drac rhedeg synthetig 6 lôn, a chae Hoci pob tywydd 2G wedi'i ail-wynebu.

Roedd yn bosibl gosod wyneb newydd am £300k+ ar y cae pob tywydd drwy gyfuniad o gyllid ysgol, awdurdod lleol ac allanol, ac roedd yn rhan o ail gam y gwaith a'r buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud ar y safle.

Mae cyflawni cae chwaraeon 3G newydd yn Rhydaman yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer darparu caeau pob tywydd ar draws y Sir a fydd o fudd i gymunedau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r buddsoddiad yn hollbwysig o ran datblygu ymagwedd 'chwaraeon i bawb' y Cyngor at gefnogi cael ystod eang i gymryd rhan mewn chwaraeon, o ddechreuwr i'r elfit.

Canlyniad: Ceisio sicrhau bod mwy o leoliadau addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar ar gael ledled y sir a'u bod yn fwy fforddiadwy, i fynd i'r afael ag un o'r rhwystrau cyffredin sy'n wynebu unigolion sydd am ddychwelyd i weithio neu ddod o hyd i waith.

Addysg

Ar hyn o bryd mae 42 o ysgolion yn darparu addysg ran-amser i blant 3 oed. Mae 3 o'r ysgolion hyn yn darparu gofal cofleidiol llawn ychwanegol ar y safle. Mae yna hefyd 27 lleoliad cyn-ysgol sy'n darparu addysg ran-amser, mae 15 o'r lleoliadau hyn hefyd yn lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg cymeradwy.

Mae'r tîm ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar yn darparu hyfforddiant effeithiol rheolaidd i gefnogi'r holl staff i weithredu'r cwricwlwm meithrin blynyddoedd cynnar yn llwyddiannus ym mhob ysgol a lleoliad.

Ar hyn o bryd mae'r tîm Moderneiddio'r Ddarpariaeth Addysg yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r bylchau mewn addysg 3 oed yn dilyn yr ymgynghoriad am Blant sy'n Codi'n 4 oed.

Gofal Plant

Mae adroddiad cryno ein 5ed Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Statudol yn parhau i gael ei rannu gyda darpar-ddarparwyr gofal plant, ac mae hefyd ar gael ar wefan [Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd](#). Mae 213 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn cynnig 4,214 o leoedd gofal plant a ddarperir gan warchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, cylchoedd meithrin, Dechrau'n Deg, Clybiau ar ôl Ysgol a Chlybiau Gwyliau.

Mae'r Tîm Gofal Plant wedi parhau i gefnogi lleoliadau gofal plant preifat i aros ar agor ac maent wedi monitro'n agos nifer y lleoliadau sydd wedi cau/ailagor yn dilyn effaith costau byw uwch. Mae darparwyr yn parhau i boeni am gynaliadwyedd tymor hir. Rydym yn parhau i gyfeirio darparwyr i grantiau sydd ar gael i ddarparwyr er mwyn cefnogi eu cynaliadwyedd. Mae'r tîm yn helpu darparwyr i glustnodi grantiau yn gynnar a chyflwyno ceisiadau lle bo'r angen.

Grantiau a Chyllid

- Grant Cynaliadwyedd 2023-24: Helpu 83 o ddarparwyr gofal plant gyda chyfanswm o £43,443.10 ar gyfer cynaliadwyedd/caledi.
- Grant Cynaliadwyedd Ychwanegol 2023-24: Wedi agor ym mis Ionawr 2024 ar gyfer y rhai na fu'n llwyddiannus yn y rownd flaenorol; 25 o geisiadau a gymeradwywyd wedi derbyn cyfanswm o £18,750.
- Grant Cynllun Chwarae Gwyliau 2023-24: Ym mis Gorffennaf 2023, derbyniodd 11 o glybiau gwyliau grantiau gwerth cyfanswm o £12,050 i gefnogi cynaliadwyedd a chofrestru cynlluniau chwarae gwyliau.
- Grant Bach Cyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar 2022-25: Wedi sicrhau £470k ar gyfer 2023-24; roedd 87 o geisiadau gan amrywiol ddarparwyr gofal plant yn llwyddiannus.

Mae gwefan [Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd](#) yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n rheolaidd gan ddarparu gwybodaeth cymorth ariannol i deuluoedd trwy ddewisiadau gofal plant, gofal plant di-dreth, credyd cynhwysol, Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant. Gall darparwyr gael rhagor o wybodaeth am grantiau allanol a hyfforddiant gorfodol ac arfer gorau â chymhorthdal.

Mae'r tîm yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r bylchau i gynyddu gofal plant lle nad yw'r galw'n cael ei fodloni. Mae niferoedd gwarchodwyr plant wedi gostwng yn genedlaethol ar draws Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hyrwyddwyd gwarchod plant ar y radio a thrwy ddigwyddiadau lleol. Mae pob darpar warchodwr plant yn cael ei gyfeirio at Pacey i ddechrau Cyflwyniad i ofal plant yn y cartref (IHC) a chwrs Cymhwyso Paratoi ar gyfer Ymarfer Gwarchod Plant (PCP). Mae costau cymhwyster gwarchodwr plant yn cael ei gefnogi drwy Raglen Hyfforddiant a Chymorth Grŵp Cleientiaid Masnachol (CCG), ac mae wedi'i groesawu, ac yn achos rhai cynorthwywyr gwarchod plant, yn gam nodedig ymlaen tuag at fod yn warchodwr plant.

Dechreuodd y Tîm Gofal Plant, mewn cydweithrediad â'r Cysylltydd Gyrfaoedd Gofal Rhanbarthol ddarparu Cyflwyniad i Ofal Plant Gofalwn Cymru yn ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin, gan hyrwyddo cyfleoedd gyrfa gofal plant i flynyddoedd 8 a 9 wrth iddynt ystyried eu dewis bynciau ac i flynyddoedd 10 ac 11 sy'n astudio lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cynnig y Gymraeg

Rydym yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg i'r sector gweithlu gofal plant drwy hyrwyddo CAMAU, yn ogystal â mentrau cymorth iaith sefydliadau ymbarél i rieni fel Clwb Cwtsh. Rhennir gwybodaeth gyda darparwyr trwy ein gwefan a thrwy gyfathrebu'n rheolaidd ar e-bost. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i goladu'r holl adnoddau cymorth Cymraeg mewn un man ar dudalen y [Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd](#).

Cynnig Gofal Plant

Bu'r Tîm yn hyrwyddo ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynnig Gofal Plant ledled y Sir. Mae hyrwyddo digidol trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi parhau. Yn 2023-24 cafwyd a phroseswyd 1,143 o geisiadau Cynnig Gofal Plant yn Sir Gaerfyrddin drwy'r gwasanaeth Digidol Cenedlaethol. Mae 156 o ddarparwyr gofal plant wedi'u cymeradwyo ar wasanaeth Digidol Cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant.



Rhwydweithio Busnesau

Mae Stori Cymru yn enghraifft o fusnes a gefnogwyd drwy ddigwyddiad ymgysylltu â busnesau. Fel rhan o Brosiect Ymgysylltu â Busnesau Sir Gâr a ariennir drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, ein hamcanion yw cefnogi busnesau newydd a phresennol i adeiladu a chryfhau cadwyni cyflenwi lleol, rhyng-fasnachu, datgloi contractau sector cyhoeddus, cefnogi mentrau, a darparu cyfleoedd dysgu a masnachu i fusnesau.



Fel rhan o'r sesiwn rhwydweithio, roeddem wedi gofyn i James Owen (Stori Cymru Cyf.) roi cyflwyniad byr ar 'rym dweud storïau' i ysbrydoli busnesau lleol yn y digwyddiad. Roedd 25+ yn bresennol yn y digwyddiad i gael cyfle i gysylltu â busnesau eraill Sir Gaerfyrddin. Yn ystod y rhwydweithio, cafodd James ei gyflwyno i gwmni lleol arall a oedd yn bwriadu datblygu prosiect, y gallai James ddarparu ar ei gyfer. Arweiniodd y sgwrs ddilynol atynt yn cydweithio'n llwyddiannus i gyflawni'r prosiect.

Dywedodd James "Ym mis Tachwedd 2023, cefais y ffrind o fynychu digwyddiad Rhwydweithio Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn Yr Egin, achlysur a fu'n llwyddiannus i mi a fy musnes. Roedd y digwyddiad yn llwyfan bywiog ar gyfer ymgysylltu ag amrywiaeth eang o berchnogion busnes, cyfarwyddwyr a chyd-entrepreneuriaid ar draws De-orllewin Cymru. Cefais nifer o sgysiau diddorol ond roedd un yn sefyll allan. Cefais fy nghyflwyno gan gynrychiolydd o'r Cyngor i gwmni lleol yn Llanelli oedd angen fy ngwasanaethau. Roedd y cyswllt cychwynnol hwn yn paratoi'r ffordd ar gyfer cydweithio llwyddiannus, gan arwain at gyfle busnes llwyddiannus gyda mwy i ddilyn.

Fel perchennog busnes bach yn Llanelli, rwy'n teimlo'n wylaidd iawn am y cyfle i rannu'r llwyfan gyda chwmnïau mawr gwerth miliynau o bunnoedd. Rwy'n argyhoeddedig bod fy awdurdod lleol eisiau helpu busnesau lleol i lwyddo a ffynnu."

Byddwn yn cefnogi cyfleoedd dysgu hanfodol mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol i breswylwyr, gan gefnogi dysgwyr ôl-16 i uwchsgilio er cyflogaeth a chynnydd. Mae'r fenter hon yn cyd-fynd â Charreg Filltir Dangosydd Llesiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, gan anelu at leihau canran yr oedolion oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau i 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050.

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y buddion cymunedol sy'n deillio o ddatblygiad Pentre Awel yn Llanelli, lle bydd 1,800 o swyddi sy'n talu'n dda yn cael eu creu.

Rydym yn sefydlu rhwydwaith i hwyluso cysylltiadau busnes, yn cynnal cyfeiriadur o fusnesau lleol, yn cysylltu mentrau â ffynonellau cyllid posibl, ac yn darparu cyngor a gwybodaeth. Bydd y rhwydwaith hwn yn cefnogi busnesau newydd a phresennol, gan sicrhau bod ganddynt yr adnoddau a'r arweiniad sydd eu hangen i ffynnu.



Yn Gryno

- Dros y chwe blynedd diwethaf rydym wedi lleihau ein hallyriadau carbon dros draean. Mae hwn yn gynydd cryf yn y llwybr tuag at gyflawni ein hymrwymiad i uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus Cymru sero net erbyn 2030 ac o ran cydweithio â phartneriaid lleol a chenedlaethol i gwrdd â'r ymrwymiad cyfreithiol i sicrhau Cymru sero net erbyn 2050.
- Mae Sir Gaerfyrddin wedi buddsoddi mewn prosiectau ynni carbon isel, gyda chynnydd sylweddol mewn cynhyrchu ynni o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r ffigurau'n cymharu'n gadarnhaol â'r cyfartaleddau cenedlaethol.
- Mae ardaloedd o'r Sir yn agored i effeithiau negyddol yr argyfwng hinsawdd, yn enwedig llifogydd. Mae'r Cyngor wedi gweithredu ymyriadau drwy'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a'r Cynllun Rheoli'r Traethlin i liniaru effeithiau llifogydd, sy'n bryder cynyddol ymhlith trigolion.
- Rydym yn gwneud gwahaniaeth i lawer o gymunedau gyda'n dadansoddiad risg llifogydd a'n datblygiadau achos busnes. Mae gennym well dealltwriaeth o risgiau mewn llawer o gymunedau drwy ddatblygu ein Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae'n rhaid i bob datblygiad gael system ddraenio gynaliadwy sy'n rheoli llifogydd ar gyfer datblygiadau newydd a'r gymuned gyfagos.

Sut ydyn ni'n gwneud?

- Sir Gaerfyrddin yw un o'r siroedd mwyaf rhagweithiol yng Nghymru o ran buddsoddi mewn prosiectau ynni carbon isel. Mae hyn yn cadarnhau'r dull blaengar rydym yn ei fabwysiadu o ran mynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan yr argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2022 yn dangos bod cyfanswm o 8,104 o brosiectau yn Sir Gaerfyrddin yn cynhyrchu 333MW o ynni. Dyma'r drydedd lefel uchaf yng Nghymru ac mae'n gynydd ar ffigurau 2021.
- Mae llifogydd yn bryder yn Sir Gaerfyrddin, ac yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru (2019), mae dros 15,000 o Fusnesau a Chartrefi mewn Perygl o lifogydd o afonydd, llanw neu ddŵr wyneb, gyda dros 5,400 o'r rhain mewn perygl canolig neu uchel. Mae bygythiad cynyddol yr argyfyngau hinsawdd a natur yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am amddiffynfeydd llifogydd addas a chymesur i ddiogelu'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Drwy Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a Chynllun Rheoli Traethlin y Cyngor mae amryw ymyriadau wedi'u cwblhau, gan gynnwys gosod amddiffynfeydd newydd a gwella'r amddiffynfeydd presennol. Yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol mae lefel y pryder am lifogydd a fynegwyd gan ymatebwyr Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu o 36.2% yn 2018/19 i 49.3% yn 2022/23. Mae hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 44.7%.
- Yn ein harolwg trigolion 2023, atebodd y gyfran fwyaf o ymatebwyr 'y naill na'r llall' pan ofynnwyd iddynt a oedd yr argyfwng hinsawdd yn cael sylw lleol. Gallai hyn awgrymu nad yw pobl yn ymwybodol o'r mesurau roddwyd ar waith. I'r rhai a atebodd, roedd ychydig yn fwy o bobl yn anghytuno na'n cytuno.

Canlyniad: Parhau i weithio tuag at ddod yn Awdurdod Lleol Carbon Sero Net erbyn 2030.

Dadansoddiad o Ddefnydd Ynni'r Cyngor

	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2023/24 vs 2022/23		
					Cynnydd	% y newid	Sylw
Defnydd (kWh)	63,684,34	67,694,14	63,869,17	61,377,960	Wedi gwella	-3.90%	Cyfuniad yw hwn o adeiladau annomestig a goleuadau stryd, y mae'r ddau ohonynt wedi gwella
Milltired (milltiroedd)	6,679,056	6,773,772	7,272,186	8,420,699	Wedi gwaethgu	15.80%	Er bod cyfanswm milltired y ffylid wedi cynyddu, mae'r tanwydd a ddefnyddir (litrau) a'r allyriadau CO2 wedi gostwng
Ôl Troed Carbon (tCO _{2e})	17,590	18,124	16,984	16,741	Wedi gwella	-1.40%	Cyfuniad yw hwn o adeiladau annomestig, goleuadau stryd, milltired y ffylid a busnes, y maent i gyd wedi gwella heblaw am filltired busnes

Lleihau allyriadau carbon ein ffylid cerbydau

Rydym wedi llwyddo i gael £431,632 o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gaffael 40 o gerbydau trydan newydd sbon ar gyfer gwasanaethau rheng flaen. Mae cyfanswm o 30 o faniau trydan a 10 o geir trydan wedi'u prynu i gymryd lle cerbydau disel ac maent yn darparu ein gwasanaethau ar hyn o bryd. Mae cyfran ein ffylid cerbydau trydan wedi cynyddu o 1% i 8% o'r ffylid.

Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Gaerfyrddin

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Cynllunio Ynni Ardal Leol yn broses gynhwysfawr a manwl a gynlluniwyd i nodi'r llwybr(au) mwyaf effeithiol i ddatgarboneiddio'r system ynni leol erbyn 2050. Mae'r broses yn cael ei harwain gan Lywodraeth Leol a'i datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid diffiniedig.

Mae Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Gaerfyrddin wedi'i gwblhau, gan lunio ein dyfodol, ac mae'n uno'r cydweithio â'r gymuned a rhanddeiliaid yn y dyfodol. Nod ein Cynllun yw galluogi'r defnydd gorau posib o ynni, lleihau dibyniaeth ar un ffynhonnell o ynni, a chynyddu'r defnydd o ffynonellau ynni glân ac adnewyddadwy. Y nod yw creu cymunedau mwy trigiadwy a chynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin drwy fynd i'r afael â materion fel fforddiadwyedd ynni, dibynadwyedd a chynaliadwyedd.

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Mae hwn yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gaiff ei gyflawni rhwng y Bartneriaeth Natur Leol a'r Cyngor. Mae'r prosiect yn gweithio ar draws Cymru i adfer a gwella natur yn ein mannau gwyrdd cyhoeddus, darparu natur "ar garreg y drws" - lle mae pobl yn byw, gweithio a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r canlyniadau'n cynnwys:

- Plannu cyfanswm o 2,110 o goed a llwyni yn 2023/24 ar draws 13 safle gwahanol ar draws y Sir. Roedd 10 o'r safleoedd hyn yn cynnwys neu wedi'u neilltuo i goed ffrwythau treftadaeth. Wedi'u cynnwys yn hyn roedd 5 gwahanol safle o ystadau tai'r Cyngor.
- Prynu peiriannau a threlars 'torri a chasglu' gwair ychwanegol er mwyn gallu rheoli glaswelltir yn well drwy newid arferion torri gwair ar fannau agored cyhoeddus, tir Tai, tir Ystâd, Ysgolion, a thir Cynghorau Tref a Chymuned lle rydym yn gweithio fel contractwyr.
- Gweithio gydag ymgynghoriaeth i asesu'r ystâd glaswelltir i nodi'r drefn rheoli glaswelltir briodol. Mae hyn yn gysylltiedig â pholisi rheoli glaswelltir arfaethedig ar laswelltir amwynder yn y Sir.



Grant Gwres Carbon Isel

Gan adeiladu ar y nifer fawr o brosiectau ynni a gynhaliwyd eisoes ar draws yr ystâd gorfforaethol ac astudiaeth ddichonoldeb gynharach a ariannwyd gan grant Llywodraeth Cymru, rydym wedi sicrhau £3.9m yn ddiweddar mewn cyllid Grant Gwres Carbon Carbon Isel Llywodraeth Cymru i gyfnwio boeleri tanwydd ffosil am dechnoleg pwmp gwres ffynhonnell aer mewn chwe ysgol.

Mae'r grant, sy'n talu am 90% o gost gyffredinol y prosiect £4.4m, hefyd wedi ein galluogi i wella'r inswleiddio mewn adeiladau, ac mewn un achos cyfnwio yr holl ffenestri ffrâm metel sengl presennol am rai cyfatebol gwydr dwbl, modern, sy'n cadw gwres.

Ar hyn o bryd mae technoleg pwmp gwres yn ddrutach i redeg na systemau gwresogi nwy arferol. Bu i hyn lywio ein penderfyniad i fuddsoddi mewn safleoedd oddi ar y grid, a oedd, trwy eu dibyniaeth ar olew ac LPG, eisoes yn ddrud i'w gwresogi.

Er mwyn lleihau'r galw am drydan ymhellach, mae paneli solar Ffotofoltäig (PV) hefyd yn cael eu gosod mewn pump o'r chwe ysgol gan ddefnyddio cyllideb gyfalaf Sero Net CSC, a'r bwriad yw ychwanegu paneli at y chweched, ar y cyd â'r gwaith arfaethedig i osod to newydd.

Strategaeth Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu Strategaeth Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur i gydnabod y rôl ehangach sydd gennym wrth fynd i'r afael â'r Argyfyngau hyn. Ein nod yw bod y Strategaeth yn ategu Cynllun Sero Net y Cyngor, sy'n canolbwyntio ar ein hallyriadau carbon cynhenid ein hunain.

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru: Datgarboneiddio

Rydym yn parhau i weithio gyda chymunedau a phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygu rhaglenni sy'n cefnogi'r nodau datgarboneiddio a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Rydym wedi bod yn llwyddiannus mewn ceisiadau am gyllid i gefnogi sawl rhaglen eleni gan gynnwys rhaglenni trafndiaeth gyhoeddus, gwelliannau i ffyrdd, teithio llesol, rhaglenni seilwaith cerbydau trydan, a llwybrau diogel yn y gymuned.

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, rydym yn ceisio ymgorffori cyfres o bolisiau er mwyn hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cynnwys gofynion sy'n cefnogi ac yn ategu ein Cynllun Sero Net yn ogystal â'r ymateb i'r argyfwng natur.

Gwefru Cerbydau Trydan

Bellach mae gennym 54 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan (EV) ar draws Sir Gaerfyrddin yng Nghaerfyrddin, Llanelli, Rhydaman, Llandeilo, Porth Tywyn, Llanymddyfri, a Cross Hands, a cheir rhai mewn meysydd parcio eraill, canolfannau hamdden a chanolfannau cymunedol. Mae cael rhwydwaith o bwyntiau gwefru EV ar draws y Sir wedi arbed 710 tonnell o CO₂ yn 2023/24.

Ecoleg Prosiect

Mae gwaith Ecoleg Prosiect yr Adain Cadwraeth Wledig wedi'i ehangu yn 2023/24 gan ganolbwyntio ar gefnogi Tai a Chymunedau gyda gofynion ecolegol eu prosiectau. Erbyn diwedd 2023/24, roedd 40 o swyddogion ar draws y timau Tai wedi derbyn hyfforddiant mewn materion Rhywogaethau a Warchodir oedd yn berthnasol i'w gwaith. Mae Ecolegwyr Prosiect hefyd yn cyfrannu at agweddau ecolegol Llwybr Beicio Dyffryn Tywi, gan sicrhau bod gofynion deddfwriaethol yn cael eu bodloni.

Lleihau Carbon Pentre Awel


Un llwyddiant mawr hyd yn hyn yw swyddfeydd a chabanau wedi'u pweru gan baneli solar. Pan nad ydynt yn cael eu pweru gan yr haul, maent yn newid i generadur wedi'i bweru gan olew llysiau (HVO) - mae hyn ar ei ben ei hun wedi lleihau ôl troed carbon y rhan hon o'r prosiect 76% mewn tua 15 wythnos ar y safle. Mae'r holl systemau teledu cylch cyfyng ar y safle hefyd wedi'u trosi i bŵer solar.



Mae safle prosiect Pentre Awel wedi trosi'n llawn i danwydd HVO. Gan weithio gyda'r contractwr lleol Alun Griffiths, rydym wedi dod o hyd i ddarparwr tanwydd HVO lleol, ac er bod HVO yn ddrutach na disel gwyn, gall lleihau allyriadau carbon hyd at 90%, ac felly mae wedi cael ei fabwysiadu 100% ar gyfer Pentre Awel.

Hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy a datgarboneiddio ein stoc dai

Ein nod yw gwneud ein cartrefi i gyd yn rhai ynni-ffeithlon a chyflawni sgôr perfformiad ynni Band C o leiaf cyn gynted â phosibl. Mae bron 50% o'n cartrefi eisoes wedi cyrraedd y safon hon. Bydd buddsoddiad yn y dyfodol yn ein cartrefi presennol yn seiliedig ar ddefnyddio dull Fabric First sy'n gwella perfformiad thermol ein cartrefi a chyflwyno systemau gwresogi nad ydynt yn rhai tanwydd ffosil. Bydd y dull hwn yn hyrwyddo cynhesrwydd fforddiadwy i'n tenantiaid.



Mae ein tai Cyngor newydd yn croesawu datgarboneiddio. Mae ein tai yn effeithlon o ran ynni, wedi'u hinswleiddio'n dda; mae ganddynt y technolegau arloesol diweddaraf ac maent yn cefnogi egwyddorion Carbon Sero Net y Cyngor. Byddant yn helpu i leihau ein hallyriadau carbon 70% ar gyfartaledd ac yn creu cynhesrwydd fforddiadwy i denantiaid gan dyfu'r economi werdd a chreu cymunedau cynaliadwy.

Hyrwyddwyr Gwyrdd y Gwasanaethau Hamdden

O fewn y Gwasanaethau Hamdden mae grŵp o Hyrwyddwyr Gwyrdd wedi cael eu ffurfio sy'n cyfarfod yn fisol i edrych ar sut y gallwn leihau ôl troed carbon ein cyfleusterau a rhannu arfer gorau. Mae matrices o brosiectau wedi'i ddatblygu. Gan weithio ar y cyd â chydweithwyr corfforaethol, rydym wedi clustnodi'r prosiectau mewn cyfleusterau sy'n defnyddio fwyaf o ynni er mwyn ceisio unioni a gwneud ein cyfleusterau'n fwy effeithlon a chynaliadwy o ran yr agenda werdd ac o safbwynt ariannol.

Canlyniad: Gwella datblygiadau presennol ac archwilio datblygiadau newydd i gyfyngu ar effeithiau llifogydd a bygythiadau amgylcheddol eraill sy'n effeithio ar ein trigolion a defnyddwyr gwasanaethau.

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

Cynhaliwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol i arwain a llywio dosbarthiad a lleoliad datblygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys tai a chyflogaeth, a phenderfyniadau yn y dyfodol. Roedd hyn yn diffinio hyd a lled y perygl llifogydd a ragwelir gan ymgorffori tybiaethau newid yn yr hinsawdd, ac mae'n ffurfio tystiolaeth allweddol i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig gan gynnwys ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Strategaeth Rheoli Llifogydd Lleol 2024-2030 (LFRMS)

Rydym wedi datblygu ac ymgynghori ynghylch ein Strategaeth Leol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Mae'r Strategaeth yn nodi ein nodau a'n hamcanion lefel uchel o ran rheoli perygl llifogydd dros y 7 mlynedd nesaf ac yn tynnu sylw at ein nod o leihau'r perygl o lifogydd i bobl, busnesau a chymunedau. Byddwn yn gwneud hyn trwy foderneiddio ein dull o Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gwella ein data i gefnogi gwell penderfyniadau, a hyrwyddo datrysiadau cynaliadwy ar gyfer draenio a natur, gan hyrwyddo addasu cymunedol, gweithio mewn partneriaeth, a grymuso cymunedau i fod yn fwy gwydn.

Ochr yn ochr â'n LFRMS, rydym hefyd yn datblygu ein cynllun rheoli perygl llifogydd a fydd yn hoelio sylw ar ein 30 cymuned sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd. Bydd y cynllun yn ddogfen fwy tactegol/gweithredol a bydd yn canolbwyntio ar y camau i leihau'r perygl llifogydd yn y tymor byr, canolig a hir.

Cynlluniau Llifogydd

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein rhaglen gwaith cyfalaf rheoli perygl llifogydd. Yn 2023/24, roeddem unwaith eto yn llwyddiannus gyda'n ceisiadau grant gan Lywodraeth Cymru a datblygwyd 9 cynllun newydd a ariannwyd gan grant Llywodraeth Cymru gwerth tua £1 miliwn.

At ei gilydd, roedd rhaglen gwaith cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol 2023/24 yn cynnwys 15 cynllun a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac 8 cynllun arall a fydd, yn dibynnu ar achosion busnes llwyddiannus a cheisiadau am gyllid, yn dod â manteision rheoli perygl llifogydd i fwy na 680 o gartrefi a 145 o fusnesau.

Yn 2023/24 fe wnaethom gwblhau cynlluniau yng Nghastellnewydd Emlyn a Dafen (Llanelli). Mae'r cynlluniau hyn yn fuddsoddiad sylweddol, ac maent o fudd i 64 o eiddo a busnesau yn yr ardaloedd hynny. Byddwn yn parhau gydag o leiaf 2 brosiect y flwyddyn, yn amodol ar gyllid, ac yn parhau i ddatblygu ein gwaith sydd ar y gweill yn y cymunedau yn y perygl mwyaf.

Systemau Draenio Cynaliadwy

Rydym hefyd yn parhau i ysgogi a hyrwyddo draenio gwirioneddol gynaliadwy yn y Sir. Mae ceisiadau wedi parhau i dyfu yn y 5 mlynedd ers i'r ddeddfwriaeth hon gael ei deddfu ac erbyn hyn mae'n rhaid bod system ddraenio gynaliadwy gan bob datblygiad newydd sy'n fwy na 100m² yn y Sir. Mae'r systemau nid yn unig yn rheoli perygl llifogydd, gyda lwfans ar gyfer newid hinsawdd, ond maent hefyd yn sicrhau manteision lluosog gan gynnwys rheoli llygredd a gwella bioamrywiaeth. Yn 2023/24, cymeradwywyd systemau draenio cynaliadwy ar gyfer 397 o unedau preswyl newydd a 48 o anheddau masnachol, gan gwmpasu ardal o tua 30 hectar.

Rheoli ac ymchwilio Digwyddiadau Llifogydd

Mae 1 o bob 6 eiddo yn Sir Gaerfyrddin, cyfanswm o dros 12,600 i gyd, mewn perygl o lifogydd. Gyda 12 storm wedi'u henwi yn nhymor y gaeaf hwn, 2023/24 yw'r cyfnod cydradd stormusaf ers 2015. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi awgrymu'n ddiweddar mai dyma'r Gaeaf gwlypaf ers 180 o flynyddoedd. Ar draws Sir Gaerfyrddin, cofnododd yr uned fusnes llifogydd a diogelu'r arfordir 384 o ddigwyddiadau, yr oedd 68 (18%) ohonynt yn rhai Categori 1 llifogydd mewnol.

Ym mis Hydref a chyfnod y Nadolig/Flwyddyn Newydd gwelwyd y llifogydd gwaethaf, pryd bu i lawiad trwm iawn am gyfnod byr effeithio ar nifer o gymunedau.



Rydym yn parhau i weithio gyda'r cymunedau a'r sefydliadau partner hyn gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i sicrhau ein bod yn deall yr achosion a'r risg ac yn gweithredu mesurau lliniaru cyfannol cadarn lle bo hynny'n bosibl.

Ymgynghoriadau Llifogydd

Mae cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus wedi dod yn rhan allweddol o'r ffordd yr ydym yn rheoli perygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin. Rydym yn cynnal digwyddiadau cyhoeddus i ddeall perygl llifogydd yn well, a hynny'n uniongyrchol gan y rheiny sydd wedi ei brofi. Mae'r trigolion a'r busnesau yn allweddol o ran ein hysbysu o'r llifogydd ond hefyd yn bwysicaf oll, dylent fod yn rhan o atebion ac ymyriadau'r dyfodol.

Ar ôl llifogydd sylweddol yng Nglanyfferi a Llansteffan dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, cynhaliwyd 4 digwyddiad cymunedol. Daeth dros 100 o bobl i'r digwyddiadau hyn ac maent wedi helpu i'n hysbysu ni a'n hasiantaethau partner o'r llifogydd. Ar ben hynny, yn sgil llifogydd yn y gorffennol mae grŵp llifogydd cymunedol wedi'i sefydlu yng Nghydweli, ac mae cynrychiolwyr o'r grŵp, ynghyd â'r aelodau lleol, yn cwrdd yn rheolaidd ag aelodau'r tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol i drafod yr ymyriadau a'r camau gweithredu parhaus.

Fel rhan o'n rhaglen gwaith cyfalaf, rydym yn trefnu cyfarfodydd cymunedol i ddarparu addysg a diweddariadau ar ein gwaith, yn ogystal â chasglu gwybodaeth yn raddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflwyno digwyddiadau ym Mhen y Fan (Llanelli) a Llangennech lle rydym yn datblygu achosion busnes i gefnogi ceisiadau i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer gwaith cyfalaf.

Beth gallwn ni
wneud yn well?

Byddwn yn cwblhau adroddiad ymchwiliad i lifogydd Adran 19 ar gyfer y digwyddiadau llifogydd yn Llansteffan ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, ac yn sicrhau bod y cynllun gweithredu cyfatebol yn cael ei gyflawni. Mae hyn ar y cyd â gweithredu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd 2 (FRMP2) ar gyfer y cyfnod 2024-2030. Ein nod yw datblygu'r rhaglen gwaith cyfalaf hyd at 2030, yn unol â'r amcanion a amlinellir yn FRMP2.

Rydym yn bwriadu datblygu a gweithredu rhaglen ddwy flynedd gyda'r nod o wella gwytnwch, addasu ac ymgysylltu mewn cymunedau lle digwydd llifogydd. Mewn cymunedau a nodwyd yn rhai sydd â'r perygl llifogydd uchaf yng Nghynllun Rheoli Perygl Llifogydd 2, byddwn yn trefnu digwyddiadau i addysgu trigolion am eu perygl llifogydd a'u harferion rheoli cynaliadwy. Bydd y digwyddiadau hyn hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol o brosesau rheoli perygl llifogydd a chyfrifoldebau rhanddeiliaid.

Mae'r nodau amgylcheddol ehangach yn cynnwys ymdrechion parhaus a dwys i sicrhau statws Carbon Sero Net i'r Awdurdod Lleol erbyn 2030, ac mae hyn yn cynnwys cyflawni Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Gaerfyrddin a rheoli datblygiad y Strategaeth Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur.


Yn Gryno

- Mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn gwneud Sir Gaerfyrddin yn unigryw. Mae ein cymunedau Cymraeg yn wydn; fodd bynnag, mae gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr wedi bod ar draws y Sir. Mae'r Canlyniadau hyn wedi cynyddu ymhellach bwysigrwydd hyrwyddo a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg.
- Wrth i Sir Gaerfyrddin ddioddef y golled ganrannol uchaf o siaradwyr Cymraeg o blith holl siroedd Cymru am yr ail ddegawd yn olynol, rhaid cymryd camau cadarn a hyderus fel yr amlinellir yn 'Strategaeth Hybu'r Gymraeg Sir Gaerfyrddin 2023-2028' i atal y duedd hon.

Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae data'r Cyfrifiad ar gyfer 2021 yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn gartref i 72,838 o siaradwyr Cymraeg, sef 39.9% o'r boblogaeth.

siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran



- Yn ein harolwg preswylwyr 2023, mae mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno ei bod yn bwysig hyrwyddo ac amddiffyn y Gymraeg.
- 242 aelod o staff wedi bod ar gyrsiau Dysgu Cymraeg o wahanol lefel rhwng Medi 2022 a Mehefin 2023 (Blwyddyn Academaidd), mae hyn yn uwch na ffigur y flwyddyn flaenorol o 227.



Canlyniad: Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

- Mae ein 'Strategaeth i hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin 2023-28' yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i weithio tuag at adfer y Gymraeg yn y Sir drwy gynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r sefyllfaoedd lle gall pobl siarad Cymraeg, codi statws yr iaith, cefnogi cymunedau i gynnal yr iaith a thrwy gael effaith gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth.
- Rydym am gynyddu cyfran trigolion Sir Gâr sydd yn gallu siarad Cymraeg ac yn defnyddio'u Cymraeg yn gyson. Rydym eisiau gweld y Gymraeg yn norm gweithio a gweithredu yn sefydliadau cyhoeddus y Sir ac yn fwyfwy cyffredin ym musnesau'r Sir. Rydym eisiau i'n pobl ifanc weld dyfodol iddynt eu hunain yn y Sir mewn cymunedau Cymraeg cynaliadwy a ffyniannus, yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Rydym eisiau i bawb fod yn falch o'r Gymraeg yn Sir Gâr.
- Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ei gweinyddiaeth ddyddiol. Mae wedi gosod gweledigaeth o ran cefnogi ac annog ein staff i symud ar hyd y continwwm iaith. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi gweithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor, drwy brosiect ARFer, i ddarparu cefnogaeth ac ymyriadau trwy blatfform digidol.
- Rydym wedi hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg drwy ymgyrch benodol, gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Roedd "Defnyddia dy Gymraeg" yn ymgyrch ar draws Cymru gyfan, i annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau iaith wrth ddefnyddio gwasanaethau.
- Rydym wedi cyhoeddi polisi 'Grantiau a'r Gymraeg' i gefnogi ac annog unrhyw sefydliadau sy'n cael mynediad at grantiau drwy'r Cyngor i wreiddio a hyrwyddo'r iaith yn eu prosiectau.
- Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Fforwm Strategol y Gymraeg Sir Gaerfyrddin, gan edrych ar feysydd allweddol fel Tai, Cynllunio ac Adfywio ein cymunedau.
- Rydym wedi gweithio'n agos gyda Pentre Awel i asesu effaith bosibl y datblygiad ar yr iaith ac wedi creu cynllun gweithredu manwl i hyrwyddo a gwreiddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar y cynllunio a'r cyflawni - yn ein gwaith recriwtio, ein gwasanaethau a'n cyfleoedd academaidd ac ymchwil.
- Rydym wedi gweld cynnydd bach yn nifer y cwynion mewn perthynas â diffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ac mae dau ymchwiliad wedi'u cynnal i'n cydymffurfiaeth, yn dilyn adborth gan ein trigolion.
- Rydym wedi gweithio'n agos gyda busnesau ar draws y Sir, drwy raglen Arfor 2, i gefnogi'r defnydd o'r iaith. Gofynnwyd i fusnesau hefyd annog eu staff i ddysgu Cymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae 38 o fusnesau lleol wedi cofrestru ar gyfer Cymraeg Gwaith i Ddysgwyr. Bydd y busnesau yn gweithio tuag at fframwaith 'Cynnig Cymraeg' Comisiynydd y Gymraeg, ac mae llawer wedi derbyn cyllid grant i gynyddu'r ddarpariaeth ddwyieithog yn eu gwasanaethau.

Canlyniad: Mwy o hyder a defnydd o'r Gymraeg fel iaith ffyniannus.

Rydym yn parhau i weithredu Safonau'r Gymraeg ar draws y Cyngor a chafwyd trafodaethau rheolaidd gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi targedu negeseuon gyda gwasanaethau'r Cyngor ar nodi a chofnodi dewis ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth, yn dilyn adborth o ymchwiliad gan Swyddfa'r Comisiynydd. Caiff negeseuon am y Safonau eu cyfleu i staff trwy gyflwyniadau gan y Tîm Polisi a Chyfranogiad a thrwy'r ffrydiau cyfathrebu a gynhelir gan Marchnata a'r Cyfryngau.

Fforwm Strategol y Gymraeg ar gyfer y Sir

Mae Fforwm Strategol y Gymraeg ar gyfer y Sir, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau hyrwyddo iaith a chyrff cyhoeddus y Sir hefyd wedi parhau â'i rôl o ddatblygu rhaglen o hybu'r Gymraeg yn y Sir. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd ail Strategaeth Hybu'r Gymraeg ac mae cynlluniau gweithredu manwl yn cael eu paratoi i gefnogi pob Amcan. Y weledigaeth ar gyfer y Strategaeth yw:

“Gwneud y Gymraeg yn brif iaith y sir. Ein nod ni yw adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd o fywyd”.

Campweithiau'r Amgueddfa

Yn ystod 2023/24, roedd partneriaeth y Daith Campweithiau rhwng yr Oriel Genedlaethol, Llundain, Amgueddfa Sir Gaerfyrddin a dau leoliad rhanbarthol arall, wedi arddangos paentiadau gan Rembrandt a Verrocchio yn Abergwili, gan arwain at niferoedd ymwelwyr uwch nag erioed. Curadwyd yr arddangosfeydd campweithiau yn thematig, o ysbrydoli comisiynau newydd o farddoniaeth a chelf Cymreig i hanes cyfoethog Sir Gaerfyrddin a straeon am iachâu a diogelu. Ymwelodd dros 17,000 o bobl â'r amgueddfa, a oedd yn gynnydd o 18% ar y flwyddyn flaenorol a chynnydd o 81% o'i gymharu â'r flwyddyn weithredol ddiwethaf cyn bod ar gau yn ystod y pandemig. Gofynnodd ni i dros 1,000 o ymwelwyr am eu profiad a dywedodd bron i 80% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod ymweld â'r amgueddfa wedi gwella eu synnwyr o lesiant, ac roedd 98% o'r farn bod eu profiad yn 'rhagorol' neu'n 'dda'. Derbyniodd yr amgueddfa ei gwobr VAQAS (Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr) gyntaf ers 2014.

Rhaglenni Cymraeg Theatrau

Cynhyrchodd Theatrau Sir Gâr ei gynhyrchiad mewnol llawn cyntaf erioed, a gwnaed hyn drwy gyfrwng y Gymraeg ym mis Mai 2023. Nod y cynhyrchiad oedd darparu profiad theatr difyr, prif ffrwd i helpu i gefnogi datblygiad cynulleidfya Gymraeg, cefnogi pobl greadigol ar ddechrau a chanol eu gyrfa, a chwistrellu gwaed newydd mawr ei angen i sector theatr Cymru. Agorwyd gyda dau berfformiad yn Y Ffwrnes, Llanelli, yna teithiwyd i 9 lleoliad arall ledled Cymru cyn cau gyda pherfformiad yn Y Lyric, Caerfyrddin (cyfanswm o 12 perfformiad). Denodd y cynhyrchiad 717 o bobl, gyda chyfartaledd o 60 ym mhob lleoliad. Mae'r sgiliau a'r dysgu o'r prosiect hwn wedi bod yn amhrisiadwy, gan gynnwys partneriaethau newydd a ffurfiwyd gyda Chanolfan Dysgu Cymraeg, cysylltiadau newydd yn y wasg a'r cyfryngau, a mwy o hyder a gwybodaeth am weithio'n ddwyieithog ac ymgorffori mynediad a chynhwysiant.

Roedd Sibrwd (cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar gael ym mhob perfformiad, a threfnwyd 3 o berfformiadau gyda dehongliadau Iaith Arwyddion Prydain. Roedd y cynhyrchiad hefyd yn darparu dau gyfle lleoliad i bobl greadigol byddar neu anabl ar ddechrau eu gyrfa drwy Brosiect Cysylltu a Ffynnu gyda Taking Flight.

Rhodddwyd adolygiad 5 seren gan gylchgrawn Buzz a ddywedodd "Drama Gymraeg yw hon sy'n integreiddio'n fedrus gapsiynau Saesneg, yn cofleidio hiwmor a dychan, ac yn cynnig dewis arall i'r hen naratif ailadroddus "Fod Cymru'n llawn pobl drist, dosbarth gweithiol mewn hofelau trist, dosbarth gweithiol..."

Actif Unrhyw Le

Gan ychwanegu at y plattform 'Actif Unrhyw Le' presennol, sy'n darparu sesiynau iechyd a ffitrwydd ar-lein ar sail Ar Alw a Ffrydio Byw, cafodd Actif ei gydnabod am ymestyn y cysyniad hwn i greu plattform ysgol cyfatebol. Mae hyn wedi creu'r unig blatfform dwyieithog yng Nghymru, sy'n cael ei gyflwyno ar draws Sir Gaerfyrddin gyda bwriad i'w ymestyn ledled Cymru, a chyrhaeddodd y rhestr fer mewn seremoni wobrwyo genedlaethol er cydnabyddiaeth.

Cynllun Llysgenhadon Twristiaeth

Gyda chyrhaeddiad o dros 5 miliwn rhyngddynt, cyfrifon Facebook a gwefan [Darganfod Sir Gâr](#) yw dwy o'r sianeli mwyaf poblogaidd ar gyfer preswylwyr a'r rheiny sydd am ymweld â'r Sir. Mae sioeau teithiol busnes twristiaeth a chylchlythyrau i'r sector busnes yn hyrwyddo'r nifer sy'n rhan o gynlluniau fel Helo Blod, gyda swyddogion yn ei gynnwys yn eu gwasanaethau gwybodaeth ymwelwyr i drefnwyr digwyddiadau. Mae gan gynllun Llysgennad Twristiaeth newydd fodiwl Cymraeg penodol a lansiwyd y llynedd fel rhan o'r gweithgareddau i gefnogi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae ein rôl fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ceisiadau ffilm wedi meithrin perthynas ardderchog gyda'r sector cynhyrchu Cymreig, gan ei gwneud yn haws iddyn nhw ffilmio yn y sir a thrwy hynny gynyddu ymwybyddiaeth o'r Sir a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig.



Annog pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2023

Daeth Eisteddfod yr Urdd, un o wyliau ieuenctid mwyaf Ewrop, i Sir Gaerfyrddin ym mis Mai 2023 ac i ddathlu hyn, gosododd y Cyngor her i bob ysgol yn y Sir gystadlu yn yr Eisteddfod.

Aethom ati i arwain partneriaeth i gynorthwyo'r ysgolion i gystadlu, yn enwedig ysgolion nad ydynt fel arfer yn cystadlu yn yr Eisteddfod. Eglurwyd trwy ddeunyddiau hyrwyddo fod pob math o gystadlaethau ar gael; o ganu, adrodd ac actio ar y llwyfan i ddawnsio, celf a chrefft a hyd yn oed gwallt a harddwch. Roedd y cystadlaethau yn agored i bawb a rhai yn agored i ddysgwyr Cymraeg yn unig.

Roedd y cyrff gefnogodd y prosiect yn cynnwys Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr, Menter Dinefwr, Menter Cwm Gwendraeth Elli, Yr Egin, Yr Atom, y Cyngor a Choleg Sir Gâr. Er mai dyma'r wythfed tro i Eisteddfod yr Urdd ymweld â Sir Gâr, dyma'r tro cyntaf i Lanymddyfri groesawu'r ŵyl. Mae'r Eisteddfod yn denu oddeutu 100,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac yn hanesyddol mae'n cyfrannu hyd at £6 miliwn i economi leol y sir sy'n ei chynnal, gyda'r diwydiant lletygarwch yn elwa'n fawr iawn.

Beth gallwn ni wneud yn well?

Byddwn yn parhau i gydweithio gydag adrannau, gan ddarparu cyngor a chymorth ar weithredu Safonau'r Gymraeg. Yn unol â hyn, byddwn yn paratoi Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg newydd, sydd wedi'i chynllunio i sicrhau bod gan ein gweithlu y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'n preswylwyr.

Mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, byddwn yn parhau i annog a chefnogi ein staff i ddysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau Cymraeg. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, i gyflawni prosiectau strategol allweddol i rymuso ein cymunedau a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithle.

Rydym wrthi'n datblygu fframwaith asesu ar gyfer ein busnesau. Bydd y fframwaith hwn yn eu cynorthwyo i sefydlu gwaelodlin o dystiolaeth ynghylch datblygiad yr iaith. Rhagwelir y bydd yn esblygu'n ganolfan wybodaeth, gan roi mynediad i fusnesau at gyfoeth o adnoddau dysgu Cymraeg, gan gynnwys fideos, templedi, a mwy.

Yn Gryno

- Gostyngodd cyfanswm y troseddau yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2023/24. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol yn helpu i gadw'r cyfraddau hyn yn isel.
- Dangosodd arolwg preswylwyr 2023 fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amrywio o ardal i ardal, er enghraifft cafodd Llanelli sgôr negyddol ar y cyfan.

Sut ydyn ni'n gwneud?

Arolwg Preswylwyr Datganiad	Y Sgôr Mynegai Cyfartalog 2022 2023		Sylw
Rwy'n hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin	1.32	1.16	Roedd y sgorau ar eu <u>huchaf</u> ar gyfer ardaloedd cymunedol Tywi a Theifi ac ar eu hisaf yn Llanelli. Hefyd mae'n ddiddorol nodi bod y sgoriau ar eu hisaf ymysg y grŵp oedran iau.
Rwy'n teimlo y gallaf fyw'r bywyd yr wyf am ei fyw heb ofn barn na rhagfarn.	0.71	0.49	Mae'r sgôr wedi gostwng ychydig o'r flwyddyn flaenorol. Roedd y niferoedd a gytunai â'r datganiad hwn yn is ymhlith aelodau'r gymuned LGBTQ+ ac ymatebwyr ag anableddau. Mae'n gadarnhaol i Sir Gaerfyrddin fel lle ac i'w phobl bod preswylwyr ar y cyfan yn teimlo y <u>gallant</u> fod yn nhw eu hunain. Mae hyn yn rhan annatod o'r ymdeimlad o berthyn, ac yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at hapusrwydd cyffredinol.
Rwy'n teimlo'n ddiogel yn y gymuned	0.78	0.55	Sir Gaerfyrddin sydd ag un o'r cyfraddau troseddu isaf o blith holl siroedd Cymru ac mae sgôr bositif i'r datganiad hwn yn adlewyrchu hyn. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth o fewn ardaloedd cymunedol lleol, gyda Llanelli yn arddangos sgôr negyddol gyffredinol o -0.08 sy'n cynrychioli lefel sylweddol o anghytundeb, ond dylid nodi y cynhaliwyd yr arolwg hwn yn ystod y sefyllfa ddadleuol yng Ngwesty Parc y Strade, a manteisiodd trigolion lleol ar y cyfle i rannu eu barn trwy'r ymgynghoriad hwn.

- Roedd 99.13% o sefydliadau bwyd yn Sir Gaerfyrddin yn cyrraedd safonau hylendid bwyd yn ystod 2023/24.
- Yn anffodus, dim ond 49% o fusnesau Safonau Masnach risg uchel a oedd yn agored i arolygiad fel rhan o raglen yn ystod 2023/24 gafodd eu harolygu. Y rheswm am hyn yw, yn ystod ail hanner y flwyddyn, bu cynnydd mewn ymchwiliadau troseddol risg uchel adweithiol a gwaith rhagweithiol proffil uchel i fynd i'r afael â gwerthu fêps yn anghyfreithlon ac i blant tan oed, lle roedd angen ailgyfeirio adnoddau o arolygiadau arferol. Blaenoriaethwyd yr holl adeiladau oedd yn weddill yn ystod chwarter cyntaf 2024-25.

Canlyniad: Cynnal cyfraddau troseddu isel gan barhau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r cyfraddau cynyddol sy'n amlwg mewn rhai ardaloedd o'r sir.

Parthau Dim Galw Heb Wahoddiad

Mae Safonau Masnach (mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys) yn gweithredu Parthau Dim Galw Heb Wahoddiad ledled y Sir sy'n gwahardd galw heb wahoddiad mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o bobl oedrannus neu agored i niwed a/neu hanes o ddwyn drwy dynnu sylw. Hyd yn hyn, mae 56 o barthau o'r fath wedi cael eu sefydlu mewn strydoedd/canolfannau tai ac un Pentref Dim Galw Heb Wahoddiad (Cilycwm). Mae'r parthau hyn yn lleihau achosion o droseddau ar stepen y drws a dwyn drwy dynnu sylw, gan amddiffyn pobl agored i niwed a'u galluogi i deimlo'n fwy hyderus a diogel yn eu cartrefi.

Mae ein parthau yn destun monitro ac adolygiadau rheolaidd parhaus, gydag ymweliadau atal troseddau ar y cyd yn cael eu cynnal gan Safonau Masnach, Swyddogion Tai a Thimau Plismona Bro Lleol. Nododd yr adolygiad diweddaraf fod dwy ran o dair o breswylwyr yn teimlo'n fwy diogel yn eu cartrefi eu hunain ar ôl cyflwyno parth o'r fath.

Tîm Cydlyniant Cymunedol


Mae tîm Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De-orllewin Cymru yn un o 8 rhanbarth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni dull cydlyniant cyson ar draws y wlad. Mae'r Tîm Cydlyniant yn gweithio ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys gan gefnogi sawl ymgyrch yn ogystal â phrosiectau hyfforddi a meithrin gallu yn ystod 2023-24:

- Ym mis Mehefin 2023, gweithiodd y tîm gyda Phrifysgol Aberystwyth ar weithdy cyhoeddus yn ystod Wythnos Ffoaduriaid Cymru, ynghylch ymarfer sy'n seiliedig ar drawma a sut y gallwn gefnogi ein ffoaduriaid iau mewn modd sensitif.
- Ym mis Hydref 2023, er mwyn codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb, rhannodd y tîm bostiadau cyfryngau cymdeithasol a chydlynu hyfforddiant troseddau casineb mewn ysgolion ar gyfer disgyblion a llywodraethwyr ysgol.
- Ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost ym mis Ionawr 2024 rhannodd y tîm negeseuon ymwybyddiaeth cyfryngau cymdeithasol a goleuwyd adeiladau yn borffor i godi ymwybyddiaeth.
- Cynhaliwyd ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ym mis Chwefror 2024 i godi ymwybyddiaeth o Hanes LGBT.
- Sesiynau Cydlyniant yn ein Cymunedau yn arddangos arfer da gyda grwpiau cymunedol eraill megis sesiynau cyngor ar gostau byw, rhagenwau Cymraeg, a digwyddiad bwyd o bedwar ban amlddiwylliannol.
- Trefnu a chydlynu gweminar Cymru gyfan fel rhan o gyfarfod Cymorth i Ddioddefwyr, Mynd i'r Afael ag Eithafiaeth Atgas Cymru.
- Hyfforddiant cydlynol ar gyfer aelodau etholedig, staff rheng flaen ac ysgolion ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches ac Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.
- Mae'r tîm cydlyniant wedi parhau i weithio i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches ynghylch monitro tensiwn, cefnogaeth a hyfforddiant, gan gynnwys gwaith yn ymwneud â thensiynau cymunedol penodol.
- Mae'r tîm Cydlyniant Cymunedol yn codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a sut i roi gwybod amdanynt, gan sicrhau bod pobl yn deall beth yw trosedd casineb a gweithio gyda sefydliadau megis Cymorth i Ddioddefwyr i ddatblygu ymgyrchoedd, hyfforddiant a phrosiectau.

Cynhaliodd y tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol gronfa Grantiau Bach i annog grwpiau a sefydliadau cymunedol i wneud cais am arian. Roedd 2 brosiect llwyddiannus yn Sir Gaerfyrddin, sef:

1. **Foothold Cymru**, a drefnodd

ddigwyddiad yn Llanelli i gryfhau cysylltiadau cymunedol ymhlith pobl ifanc a'u teuluoedd o gefndiroedd amrywiol. Pwrpas y digwyddiad oedd uno cymunedau. Yn ganolog



i'r digwyddiad roedd prosiect cydweithredol, crëwyd wal graffiti 5 metr o hyd gan yr artist lleol 'Jenks', i gyfleu hanfod "cartref". Roedd yn hyrwyddo'r syniad bod ein gwerthoedd a rennir yn drech na'n gwahaniaethau ac yn dathlu 'bod mwy yn ein huno nag sy'n ein rhannu'.

2. Bu i **Galw Heibio Amlddiwylliannol Llanelli** ymestyn darpariaeth y grŵp galw heibio a redir gan Rwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli (LMCN) i gefnogi pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol amrywiol ac i hyrwyddo manteision cymdeithas amlddiwylliannol y gall pawb deimlo'n falch ohoni, ei dathlu a rhannu eu treftadaeth ddiwylliannol.

Dyletswydd Trais Difrifol

Cafodd y Ddyletswydd Trais Difrifol ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU yn 2023 i fynd i'r afael â throseddau treisgar difrifol. Yn y bôn, mae'r ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb ar bob rhanbarth i sefydlu partneriaethau cydweithredol cryf i ddeall troseddu treisgar difrifol yn well, beth yw'r ysgogwyr a pha gynlluniau sydd gennym i ymyrryd ac i atal y troseddu hwn. Bellach mae gan ranbarth Dyfed-Powys ei asesiad anghenion a'i strategaeth ategol ei hun.

Mae llawer iawn o waith da yn cael ei wneud, yn enwedig mewn mathau penodol o droseddau sy'n effeithio ar ein rhanbarth, megis troseddau cam-drin domestig a thrais difrifol yn erbyn menywod a merched. Nid yw'r gyllideb ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol yn un fawr ond bydd yn cael ei defnyddio yn ystod 2024-25 er mwyn gadael gwaddol.

Mae ffocws ar sefydlu egwyddorion cryf o 'weithio gyda'n gilydd' sy'n cynnwys yr holl asiantaethau sy'n chwarae rhan ganolog a phwysig mewn lleihau troseddu treisgar difrifol. Drwy gydweithio'n glos, bod yn greadigol yn y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r math hwn o droseddu, a herio normau diwylliannol niweidiol, byddwn yn gwneud gwahaniaeth i sut mae ein cymunedau'n teimlo am ddiogelwch y cyhoedd a'n huchelgais ar y cyd i gefnogi dioddefwyr a thaclo ymddygiad troseddol.

Gwerth Cymdeithasol

Mae Actif yn darparu ystod o opsiynau i gael oedolion a phobl ifanc i arddel arferion cadarnhaol y mae ymchwil yn dangos eu bod yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol, llesiant meddyliol, datblygiad unigol, a datblygiad cymdeithasol a chymunedol (sy'n cynnwys llai o gostau ynghlwm wrth droseddau a manteision cymdeithasol, e.e. gwell rhwydweithiau, ymddiriedaeth a dwyochredd). Fe'i gelwir 'Gwerth Cymdeithasol', ac yn rhan o gronfa ddata canolfan hamdden Actif mae canolfan ymchwil sy'n amcangyfrif gwerth cymdeithasol o dros £4m o ganlyniad i bobl yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r canolfannau, y mae dros 1m ohono i'w briodoli i ddatblygiadau cymdeithasol a chymunedol.

Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn Llanelli

Ym mis Ionawr 2024, cyflwynodd y Cyngor Orchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus mewn ardal yng Nghanol Tref Llanelli i fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau. Bydd y Gorchymyn yn parhau ar waith am dair blynedd a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn y cyfnod hwnnw.

Mae cyflwyno'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus newydd yn dilyn adolygiad o'r Gorchymyn blaenorol gyda'r Heddlu, dadansoddiad o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol yn yr ardal, ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac ymarfer ymgynghori cyhoeddus. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Gorchymyn blaenorol wedi bod yn effeithiol o ran lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol. O ganlyniad i'r adolygiad, estynnwyd yr ardal ddaearyddol roedd y Gorchymyn yn ei chwmpasu.

Transforming Tyisha

Yn hanesyddol, Tyisha sydd â'r gyfradd droseddu uchaf yn Llanelli, gyda'r rhan fwyaf o'r galwadau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais, ynghyd â lefelau uchel o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Datblygwyd sawl ymyriad gan y Tîm Trawsnewid Lleodedd, mewn partneriaeth â'r Heddlu, i wella troseddu yn Tyisha.

Mewn partneriaeth â'r Heddlu, cynhaliwyd Archwiliad Gweledol Amgylcheddol i'n helpu i ddylunio i atal trosedd ar ein datblygiadau tai ac edrych ar fesurau fel ffensio, y cynllun a diogelwch ychwanegol i wella diogelwch cymunedol. Mae'r prosiect ffensio bellach wedi'i gwblhau gyda chyfradd fodlonrwydd o 90%. Byddai'r 10% arall wedi hoffi petai'r ffens ychydig yn uwch, ond ni wnaed hyn er amwynder yr ardal.

Gorfodi Achosion Cymhleth

Rhoddodd y gymuned wybod i'r Wardeiniaid Cymunedol am ddigwyddiadau parhaus mewn perthynas â bloc o fflatiau o fewn Clos Sant Paul. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn awgrymu delio cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig ag un fflat o fewn y bloc. Cynhaliwyd ymchwiliad helaeth ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys, a bu i'r dystiolaeth a gasglwyd ganiatáu troi tenant problemus allan. Cadwyd yr eiddo fel 'llety sensitif' gan warantu cyfnod heb darfu ar denantiaid y bloc.

Drwy wrando a gweithio gyda'r gymuned, bellach mae gan y ward 3 grŵp gwarchod y gymdogaeth a grŵp preswylwyr prysur. Drwy'r ymyriadau gan y tîm a'r Heddlu, mae cyfraddau troseddu wedi gwella 34% ers 2021.

Drwy weithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i wella ymgysylltu cymunedol ac arfer da wrth recriwtio o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda grwpiau allanol perthnasol i hybu cynrychiolaeth a darparu arweiniad clir ar gyfer y cymunedau hyn ar wefan y Cyngor.

Byddwn yn archwilio ac yn mireinio ein dulliau cyfathrebu uniongyrchol â thrigolion anodd eu cyrraedd er mwyn sicrhau cynwysoldeb.

Rydym yn bwriadu cynnwys unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad safonau cenedlaethol ac o arolygiad Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi o gyfiawnder ieuenctid mewn cynllun gweithredu cynhwysfawr. Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid.

Ein nod parhaus yw adolygu ac o bosibl gweithredu llwybrau mwy diogel a mesurau arafu traffig ledled trefi a phentrefi Sir Gaerfyrddin. Wrth i ni ddisgwyl canlyniadau astudiaeth cynllun peilot arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer terfynau cyflymder 20mya, byddwn yn ystyried y canfyddiadau hyn cyn i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniad terfynol ar fabwysiadu'r fenter 20mya yn eang ledled Cymru.

Yn Gryno

- Bu cynnydd sylweddol mewn ymweliadau â llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.
- Mae nifer o fentrau a datblygiadau mawr yn darparu mynediad at gyfleoedd sy'n diwallu anghenion amrywiol preswylwyr ac ymwelwyr.
- Mae'r mentrau hyn wedi cyfrannu at lesiant preswylwyr ac ymwelwyr drwy hybu iechyd, lleihau effaith amgylcheddol, arbed costau, meithrin rhyngweithio cymdeithasol, a gwella seilwaith trefol, gan arwain at ansawdd bywyd gwell yn gyffredinol.

Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr dydd yn cyfrannu £597m i'r economi leol gan gefnogi 6,652 o swyddi amser llawn.
- Roedd dros 660,000 o ymweliadau â'n llyfrgelloedd yn ystod 2023/24 (mewn person ac ar-lein), sef gwelliant o 28% ers y flwyddyn flaenorol. Cyflawnwyd hyn drwy amryw ddigwyddiadau yn ein llyfrgelloedd dros y sir gyfan megis Clip Corner yn Llyfrgell Caerfyrddin, gan gynnig mynediad i filoedd o raglenni radio a theledu o archifau'r BBC, S4C ac ITV Cymru, ymweliadau Siôn Corn, gwneud torchau ac addurniadau, clwb gwyddbwyll a sioeau ffilm, ynghyd ag ymweliadau Diwrnod y Llyfr, sesiynau crefftiau Sul y Mamau a'r Pasg a sesiynau paentio dyfrlliw. Mae ein hymweliadau digidol yn parhau'n uchel gyda chwsmeriaid yn elwa ar ein hystod o e-lyfrau digidol, e-lyfrau llafar, papurau newydd, cylchgronau ac apiau hyfforddi.
- Bu i nifer yr ymwelwyr â'n canolfannau hamdden yn ystod 2023/24 gyrraedd 1.6m am y tro cyntaf, sef cynnydd o 21% ers y flwyddyn flaenorol ac yn uwch na lefelau cyn Covid. Mae hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn y cynnydd yn nifer yr aelodau a'r nifer sy'n dysgu nofio ar y cyd â thwf da mewn gweithgareddau yn y gymuned. Mae buddsoddiad wedi bod yn digwydd mewn seilwaith, ac mae twf sylweddol wedi bod yn aelodaeth rhaglenni i ddosbarthiadau mewn mannau gwledig, yn enwedig Sanclêr a Llanymddyfri. Mae aelodaeth hefyd wedi tyfu yng Nghanolffannau Hamdden Caerfyrddin, Dyffryn Aman a Llanelli. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer sy'n archebu ac yn defnyddio'r caeau newydd yn rheolaidd yn Nyffryn Aman. Mae canolbwyntio ar gadw aelodau a theyrngarwch wedi helpu i weld y niferoedd sy'n aros yn cynyddu, ac mae cael pobl i gyfeirio cyfaill wedi bod yn ysgogydd mawr ar hyd y flwyddyn.



Canlyniad: Pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i fyw bywydau egnïol ac iach trwy fynediad at wasanaethau a darpariaeth sy'n addas i'r diben.

Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru

Creodd Cerdded er Budd Lles Gorllewin Cymru chwe grŵp cerdded bywiog, pob un yn denu nifer dda o gerddwyr yn wythnosol. Bwriad y grwpiau hyn yw hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol trwy weithgareddau cerdded rheolaidd. Er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn llwyddo, caiff gwirfoddolwyr hyfforddiant i fod yn arweinwyr cerdded. Mae'r arweinwyr yn derbyn cefnogaeth gynhwysfawr gan y Swyddogion Oedolion Actif sy'n darparu pecyn cymorth cadarn. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys hyfforddiant arweinyddiaeth, adnoddau ar ddiogelwch a chynllunio llwybrau, a chymorth parhaus i gynnal safonau uchel o reoli ac ymgysylltu grŵp. Mae'r ymdrech ar y cyd rhwng y gwirfoddolwyr hyfforddedig a'r Swyddogion Oedolion Actif yn creu amgylchedd cefnogol a phleserus i bob cerddwr, gan feithrin ymdeimlad o gymuned a llesiant. Mae'r fenter nid yn unig yn annog gweithgarwch corfforol rheolaidd ond hefyd yn helpu cyfranogwyr i feithrin cysylltiadau cymdeithasol, gan gyfrannu at ansawdd eu bywyd yn gyffredinol.

Beicio Cymunedol

Mae menter beicio cymunedol Actif yn rhoi cyfle i gynghorau tref a chymuned wella cyfleoedd beicio lleol trwy fynediad at e-feiciau a beiciau hybrid. Yn 2023-2024 bu i Lanarthne a Phontyberem elwa ar y rhaglen hon, pan gawsant y beiciau am gyfnod o 10 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, trefnwyd sawl taith a sesiwn llogi beiciau ganddynt, gan annog preswylwyr i ystyried beicio fel dull trafnidiaeth iach a chynaliadwy.

Nod y fenter yw gwneud beicio'n fwy hygyrch a phleserus, hyrwyddo gweithgarwch corfforol a lleihau ôl troed carbon. Drwy gynnig e-feiciau a beiciau hybrid, mae'r rhaglen yn darparu ar gyfer ystod eang, o'r rhai sy'n chwilio am daith haws i'r rhai sydd am brofiad beicio mwy traddodiadol.

Llwybrau Beicio ar y Ffordd

Mae cerdded a beicio yn rhan syml ond allweddol o'r hyn gallwn ei gynnig i'r rheiny sydd am wyliau byr yn y DU. Fel gwaddol cynnal digwyddiadau Taith Prydain, creodd swyddogion datblygu twristiaeth chwe llwybr beicio ffordd "eiconig" sy'n ymweld â phob rhan o'r Sir, a'u hyrwyddo'n helaeth gan ddefnyddio fideos digidol, partneriaethau hysbysebu gyda chylchgronau blaenllaw ym myd y beiciau fel Bike Radar, a'u cefnogi trwy adrannau penodol o wefan Darganfod Sir Gâr. Mae'r rhain hefyd yn cael eu hyrwyddo i drigolion drwy hyrwyddo gwefan Darganfod Sir Gâr yn ehangach. Crëwyd adrannau gwe newydd yng Ngwanwyn 2024 ar gyfer beicio di-draffig a beicio mynydd, a gafodd ei hyrwyddo drwy bartneriaeth gyda'r cylchgrawn hynod boblogaidd MB Monthly.

Llwybrau Cerdded

Crëwyd portffolio o 21 llwybr cerdded wedi'u mapio sy'n cwmpasu pob rhan o'r Sir gyda fideos, ffotograffau a thestun ategol. Cyflawnwyd gweithgareddau hyrwyddo i gynyddu gwelededd yn wyneb cystadleuaeth gan lefydd fel y Cotswolds a'r Peak District.

Digwyddiadau Chwaraeon

Darparwyd cymorth marchnata i nifer o ddigwyddiadau beicio gan gynnwys Gritfest, Battle on the Beach a'r Daffodil Ride, gyda chanllawiau logisteg a rheoli digwyddiadau yn cael eu rhoi i bum digwyddiad gan gynnwys Triathlon a 10k Llanelli.

Amgueddfa Cyflymder Tir

Agorodd yr Amgueddfa Cyflymder Tir ym mis Mai 2023 a chroesawodd dros 13,000 o ymwelwyr yn ei blwyddyn gyntaf. Mae'n adrodd hanes eiconig Traeth Pentywyn a'i gysylltiad hir ag ymdrechion i dorri'r record cyflymder dros dir mor bell yn ôl â'r 1920au gyda Parry Thomas yn 'Babs' a Malcolm Campbell yn Bluebird, hyd at ymdrechion diweddar Idris Elba, Zef Eisenberg, a Guy Martin. Mae siop ar y ffordd i mewn a daw'r storïau'n fyw drwy nifer o arddangosfeydd rhagweithiol gan gynnwys ogof fideo lle gall ymwelwyr brofi'r wefr o deithio yn Babs ar gyflymdra uchel ar hyd Traeth Pentywyn.

Mae yna ardal bwrpasol sy'n adrodd hanes y Weinyddiaeth Amddiffyn ym Mhentywyn ac mae gofod arddangos hyblyg y gellir ei ddefnyddio at wahanol ddibenion, er enghraifft, gall myfyrwyr dylunio ceir arddangos eu dyluniadau. I fyny'r grisïau, mae gan yr ystafell gynadledda 40 sedd (i'w llogi gan y cyhoedd a sefydliadau corfforaethol) olygfeydd ysblennydd ar hyd y traeth 7 milltir.


Prosiect Map Degwm Talylylchau

Yn dilyn ailagor Archifdy Sir Gaerfyrddin y llynedd, adneuwyd map degwm godidog a dosraniad ysgrifenedig cysylltiedig ar gyfer plwyf Talylylchau gyda'r gwasanaeth archifau. Yn dyddio o 1839, mae'r dogfennau hyn yn ffynonellau gwybodaeth hynod werthfawr am blwyf Talylylchau yn y 19eg ganrif.

Yn anffodus, roedd y dogfennau mewn cyflwr gwael iawn ac roedd angen eu trwsio ar frys. Diolch i grant hael o £3,450 gan Lywodraeth Cymru, llwyddodd staff yr archifau i anfon y dogfennau i ffwrdd ar gyfer triniaeth gadwraeth broffesiynol, a hefyd creu profiad dysgu pleserus i blant Ysgol Gynradd Talylylchau.

Dros 5 sesiwn ddwyieithog, cymerodd 29 o blant o Ysgol Talylylchau ran mewn profiad creadigol cyffrous yn yr archifdy ac yn yr ysgol. Cafodd y sesiynau hyn eu datblygu a'u harwain gan yr artist lleol. Seren Stacey a staff Archifau Sir Gaerfyrddin. Nod y fenter oedd hyrwyddo dealltwriaeth well o gynefin y plant, ac o rôl a perthnasedd Llyfrgell ac Archifdy Sir Gaerfyrddin.

Penllanw'r profiad hwn oedd creu 2 waith celf hyfryd a ddatgelwyd yn ystafell chwilio'r archifdy gan y Cyng, Gareth John, yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Diwylliant a Thwristiaeth.



**Beth gallwn ni
wneud yn well?**

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu amgylchedd chwaraeon amrywiol a chynhwysol gyda'n dull 'chwaraeon i bawb', gan sicrhau y gall pawb o ddechreuwyr i athletwyr elitaidd gymryd rhan. Mae ein cefnogaeth yn ymestyn i bob Clwb Chwaraeon Cymunedol, gan eu cynorthwyo i ddod yn endidau hunangynhaliol.

Rydym yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer parc sglefrfyrrddio newydd ac yn gwella'r trac BMX Pump ym Mhen-bre i gyfoethogi cyfleusterau chwaraeon ein cymuned ymhellach.


Rydym yn adfywio ein Strategaeth Feicio i werthuso ein cynnydd a sefydlu amcanion newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys adeiladu llwybr beicio a cherdded sy'n cysylltu Caerfyrddin â Llandeilo, a fydd nid yn unig o fudd i drigolion lleol ond hefyd yn hybu twristiaeth a'r economi yn y trefi a'r pentrefi cyfagos yn y Sir.

Yn Gryno

- Daeth cam cyntaf y Strategaeth Wastraff i rym ym mis Ionawr 2023, ac mae'r newidiadau hyn wedi arwain at gynnydd yn y tunelli a aildddefnyddir ac a ailgylchir, gan ragori ar y Targed Cenedlaethol yr oedd disgwyl ei gyrraedd erbyn 2025.
- Mae'r gwastraff trefol cyfartalog fesul person nad yw'n cael ei ailgylchu wedi lleihau.
- Mae canran y gwastraff a anfonir i'w gladdu wedi lleihau ymhellach, gan weithio tuag at y targed cenedlaethol o beidio ag anfon Dim Gwastraff i Safleoedd Tirlenwi erbyn 2025.
- Mae'r Cyngor wedi gweithredu system gasglu newydd ar ymyl y ffordd, wedi cynyddu'r gwydr a gesglir ar ymyl y ffordd, ac wedi bod yn rhan o wasanaeth allgymorth cymunedol cynhwysfawr i hyrwyddo ailgylchu a chynaliadwyedd.
- Mae ehangu ein prosiectau aildddefnyddio Eto hefyd yn cefnogi'r flaenoriaeth hon yn uniongyrchol trwy hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau, adferiad, atgyweirio ac economi gylchol o fewn y Sir.
- Mae'r System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS) yn dangos gostyngiad bach mewn glendid strydoedd a chynnydd mewn lefelau sbwriel.
- Mae'r Cyngor wedi gwella nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i glirio achosion o dipio anghyfreithlon, er gwaethaf cynnydd yn nifer yr achosion.

Sut ydyn ni'n gwneud?

- Mae ein ffigurau ailgylchu ar gyfer 2023/24 wedi gwella i 70.49% sydd eisoes yn uwch na'r Targed Cenedlaethol o 70% a bennwyd ar gyfer diwedd Mawrth 2025. Mae'r ffigurau cymharol diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer 2022/23 yn dangos mai 65.71% oedd y gyfradd ailgylchu gyfartalog ledled Cymru, ac ar y pwynt hwnnw roeddem yn is na chyfartaledd Cymru sef 65.25%.
- Mae % y gwastraff a anfonir i'w gladdu wedi lleihau ymhellach yn ystod 2023/24 a bellach mae lawr i 2.01%, felly ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed cenedlaethol o Ddim Gwastraff i Safleoedd Tirlenwi.
- Cafwyd bron 4,000 o ymatebwyr i'n harolwg preswylwyr, er bod y mwyafrif yn tueddu i gytuno bod eu hamgylchedd lleol yn ddymunol ac yn cael gofal da, mae cyfran gymharol uchel yn anghytuno. Roedd rhai o'r sylwadau'n amlygu problemau ynghylch glanhau strydoedd, gwastraff, sbwriel a chynnal a chadw ymylon ffyrdd/gwrychoedd yn ffactorau a allai gyfrannu at hyn.
- Mae cyfartaledd y gwastraff trefol y person nad yw'n cael ei ailgylchu wedi lleihau ymhellach i 121 cilogram ar ddiwedd 2023/24, o gymharu â 144 cilogram yn 2022/23. Mae'r ffigurau cymharol diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer 2022/23 yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn well na chyfartaledd Cymru a bod gan y sir y ffigur 4ydd gorau yng Nghymru. Ni fydd data cymharol 2023/24 yn cael ei gyhoeddi tan fis Ionawr 2025.



- Mae arolygon deufisol ein System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS) a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 i wirio glendid ein strydoedd, yn dangos gostyngiad mewn glendid - 71.5%, o gymharu â 72.7% y flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd yn lefelau y sbwriel a geir ar y strydoedd.
- Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon wedi gwella i 2.3 diwrnod yn ystod 2023/24 er gwaethaf cynnydd o 5% yn nifer yr achosion o 1,615 i 1,701.

Canlyniad: Rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau ailgylchu cenedlaethol.

Ailgylchu

- Mae ein ffigurau ailgylchu ar gyfer 2023/24 wedi cynyddu i 70.49% ac eisoes wedi rhagori ar y targed cenedlaethol o ailgylchu 70% a bennwyd erbyn diwedd Mawrth 2025. Yr hyn sy'n gyfrifol am y llwyddiant hwn yw system gasglu newydd ar ymyl y ffordd, gyda nodweddion fel casgliadau wythnosol ar gyfer ailgylchu cymysg sych a gwastraff bwyd, a chasgliadau ar wahân ar gyfer gwydr a bagiau du. Mae'r system hon yn cyd-fynd â gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gwasanaeth gwastraff modern sy'n cydymffurfio â methodoleg casglu Glasbriant Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth tanysgrifio i waredu gwastraff gardd hefyd yn cyfrannu at y ffigurau ailgylchu cyffredinol, gyda dros 12,500 o gwsmeriaid a thros 5,500 o dunelli o wastraff gardd yn cael eu casglu ar ymyl y ffordd yn ystod y tymor.
- Cafodd y cynllun casglu gwydr ar ymyl y ffordd ei roi ar waith i gychwyn ar gyfer 95% o aelwydydd yn ystod y newid i'r gwasanaeth gwastraff ym mis Ionawr 2023. Yn ystod 2023/24 ehangwyd y ddarpariaeth hon gennym i 1,000 yn rhagor o dai a bwriedir cynyddu eto yn ystod 2024/25. Er mwyn darparu gwasanaeth cost-effeithiol yn unol â'r gwasanaeth ehangach wrth ymyl y ffordd, rydym wedi ad-drefnu ein safleoedd gwydr, gyda'r safleoedd sy'n weddill mewn lleoliadau strategol o amgylch y Sir tra bo bwriad i helaethu'r gwasanaeth ar ymyl y ffordd ymhellach.
- Lluniwyd amserlen gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn ystod 2023/24 i hyrwyddo ailgylchu a chyflawni ein dyheadau o ailgylchu mwy. Rydym wedi:
 - Cyflwyno pum cyflwyniad i aelodau a phartneriaid.
 - Cefnogi 20 o ddigwyddiadau a arweinir gan y gymuned i hyrwyddo ailgylchu, ailddefnyddio a chynaliadwyedd.
 - Ymgysylltu'n uniongyrchol â 10,000 o aelwydydd drwy alwad ffôn, llythyr, e-bost neu wyneb yn wyneb drwy ymgynghorydd ailgylchu cymunedol i gefnogi cydymffurfiaeth o ran ailgylchu wrth ymyl y ffordd. Darparwyd cymorth uniongyrchol pellach i 1,889 o aelwydydd oedd ei angen, drwy gymorth un i un.
 - Cyflogi chwe warden gwastraff i gryfhau'r weithdrefn addysg a gorfodi sydd ar waith, cynyddu cydymffurfiaeth lawn a lleihau halogi wrth ailgylchu.
 - Datblygu proses addysg a gorfodi pedwar cam i annog preswylwyr i gymryd rhan lawn yn y cynllun ailgylchu.
- Eleni wynebodd y gwasanaeth her sylweddol wrth baratoi a datblygu ateb i'r Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2024. Fel gwasanaeth buom yn gweithio gyda sefydliadau perthnasol fel Wrap Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a CWM Environmental yn dylunio gwasanaeth lleol i sicrhau bod pob un o fusnesau ac adeiladau'r Cyngor yn barod ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd. Roedd hyn yn cynnwys cynnig cymorth a chynghor uniongyrchol i ysgolion, busnesau a sefydliadau'r trydydd sector. Datblygu a rhannu arfer gorau i gyflawni systemau ailgylchu effeithiol ar draws y sector masnachol, gan gyd-fynd â nodau rheoli gwastraff ehangach Cymru.

Economi Gylchol

Mae'r Cyngor yn hyrwyddo Economi Gylchol trwy sawl menter drwy ein prosiect "Eto" cydweithredol:

- Canolfan Eto Nantycaws:
 - Gweithdy a siop ailddefnyddio sy'n derbyn eitemau a roddwyd o'n canolfannau ailgylchu ac yn eu hatgyweirio a'u hailgylchu i'w hailwerthu.
 - Y Ganolfan Addysg.
 - Cyfleuster ailddefnyddio paent lle mae paent sydd heb ei ddefnyddio yn cael ei ailgylchu/ail-gymysgu i'w ailwerthu.
 - Mae ein siop ailddefnyddio yn Nant-y-caws – mae modd prynu nwyddau o Ganolfan Eto ar-lein bellach.
- Mae Eto yn y Gymuned yn gynllun i gryfhau cefnogaeth gymunedol ac yn mynd ag Eto i gymunedau.
- Ym mis Mawrth 2024, trefnom ddigwyddiad (a gynhaliwyd gan Sero) ar gyfer grwpiau lleol a gwirfoddolwyr a Chynghorau Tref a Chymuned i rannu syniadau a chyfleoedd ar gyfer twf prosiectau cymunedol gyda ffocws ar gydweithredu a thwf.
- Trwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin rydym wedi darparu £5,000 i bedwar prosiect yn ardaloedd Deg Tref: Cydweli, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn a Llandeilo ar gyfer syniadau prosiect arloesol a chynaliadwy i hyrwyddo gweithgarwch economi gylchol yn eu hardaloedd.
- Mewn partneriaeth â CWM Environmental rydym wedi trefnu ymweliadau gan ysgolion a grwpiau cymunedol â 'Canolfan Eto' i rannu syniadau am atgyweirio, ailddefnyddio, ac ailgylchu a sut rydym ni fel Cyngor yn blaenoriaethu rheoli adnoddau'n effeithiol a sut y gall unigolion wneud popeth yn eu gallu i'r perwyl hwn hefyd.

Oes Unrhyw Un ar
ei Ennill?

Yr Economi Gylchol ar waith

Rydym yn cydweithio â Nappicycle, cwmni ailgylchu lleol, i lansio prosiect i dreialu defnyddio cewynnau wedi'u hailgylchu i arwynebu ein ffyrdd. Fe wnaeth y prosiect cyntaf ddargyfeirio 4 tunnell o gewynnau, sydd tua 80,000 o gewynnau, o safleoedd tirlenwi. Mae'r ffibrau cewynnau wedi'u hailgylchu yr un mor effeithiol â deunyddiau confensiynol heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o economi gylchol leol ar waith.



Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r fenter ailgylchu ymhlith preswylwyr, ein nod yw darparu rhaglen ymgysylltu â'r gymuned a fydd yn cyrraedd 5% o aelwydydd. Ein nod yw cynnal ein perfformiad o ran targed perfformiad ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru o 70% ym mlwyddyn ariannol 2024/2025.

Er mwyn addysgu plant ysgol am bwysigrwydd mentrau atgyweirio, ailddefnyddio ac ailgylchu, byddwn yn datblygu pecyn adnoddau addysgol a system archebu electronig ar gyfer amserlennu ymweliadau safle 'Eto'.

Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad i ehangu'r gwasanaeth casglu gwydr ar ymyl y ffordd i fwy o aelwydydd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y casgliad hwn ar hyn o bryd. Erbyn 2026, byddwn yn cynllunio ac yn cychwyn cam nesaf y newid i'r gwasanaeth gwastraff ehangach, gan fabwysiadu glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer didoli deunydd ailgylchu ar ymyl y ffordd a chynyddu'r deunyddiau ailgylchadwy a gesglir ar ymyl y ffordd.

Byddwn yn galluogi cymunedau i weithredu prosiectau cynaliadwy yn rhagweithiol, gan ddatblygu strategaeth economi gylchol ehangach trwy rwydweithiau cymunedol presennol a hwyluso datblygu seilwaith pellach i gefnogi dyheadau economi gylchol. Mewn partneriaeth â CWM Environmental, byddwn yn creu cynllun gweithredu manwl i gynyddu cyrhaeddiad Eto, gan ganolbwyntio ar ehangu darpariaethau ar gyfer ailddefnyddio, atgyweirio ac uwchgylchu eitemau ar draws cymunedau yn y Sir. Yn olaf, byddwn yn gwella ymgysylltu â'r cyhoedd i gasglu barn trigolion am y gwasanaethau gwastraff ehangach a datblygiadau yn y dyfodol, gan ystyried eu barn a'u hargymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau.

Yn Gryno

- Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu cynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd, yn enwedig yn ystod y gaeaf, er mwyn sicrhau mynediad di-dor i wasanaethau hanfodol. Fodd bynnag, dirywiodd cyflwr arwyneb y ffordd yn 2023/24, gyda chynnydd sylweddol mewn diffygion a gofnodwyd.
- Rydym wedi parhau i weithio trwy heriau strategol mawr fel ymgyrch genedlaethol 20mya, datblygu cynllunio trafndiaeth ranbarthol a'r llwybr tuag at ddyheadau carbon sero net.
- Rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth gyflawni newid ac wedi llwyddo i gael cyllid grant i gefnogi darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn wynebu heriau o ran cyllidebau cyfalaf a referniw llai ynghyd â disgwyliadau cyhoeddus cynyddol, pwysau ar y gadwyn gyflenwi, a chyflwr dirywiol o ran yr asedau, sy'n arwain at amgylchedd gweithredu anodd ar gyfer gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant.

Sut ydyn ni'n gwneud?

- Ni chwblhawyd unrhyw arolygon o gyflwr ffyrdd yn 2023/24, fodd bynnag cwblhawyd yr arolygon ar ddechrau 2024/25 a byddant yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol 2024/25. Felly, mae'r canlyniadau canlynol yn seiliedig ar arolygon 2022/23, roedd canlyniadau pob un o'r categorïau ffyrdd wedi gwella o'r flwyddyn flaenorol:
 - Roedd **3.1%** o'n ffyrdd Dosbarth **A** mewn cyflwr gwael (3.6%)
 - Roedd **2.4%** o'n ffyrdd Dosbarth **B** mewn cyflwr gwael (2.8%)
 - Roedd **10.1%** o'n ffyrdd Dosbarth **C** mewn cyflwr gwael (11.7%)
- Cafwyd bron 4,000 o ymatebwyr i'n harolwg preswylwyr 2023, ac er bod llawer yn cytuno eu bod yn gallu cyrchu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, roedd nifer tebyg wedi dweud 'y naill na'r llall', ac roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn. Mae hyn wedi arwain at newid o gytuno'n gyffredinol drwy roi Sgôr o 0.05 i anghytuno'n gyffredinol drwy roi Sgôr o -0.05 wrth gymharu canlyniadau eleni â rhai'r llynedd. Mae tueddiadau ar sail lleoliad yn cyd-fynd â'r rhai a welir ar gyfer y datganiad nesaf ar fynediad at dtrafnidiaeth gyhoeddus dda, gyda'r sgoriau isaf i'w gweld yn ardaloedd Tywi a Gwendraeth.
- O ran y datganiad 'mae cysylltiadau cludiant da o'm cwrmpas i', gostyngodd sgôr yr arolwg preswylwyr o -0.41 i -0.45. Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod sgoriau ar eu hisaf ar gyfer ymatebwyr yn byw yn ardaloedd cymunedol Tywi (-0.94) a Gwendraeth (-0.66). Mae hyn i'w ddisgwyl o gofio bod yr ardaloedd hyn yn cynnwys rhai o wardiau mwyaf gwledig y sir.

Canlyniad: Ceisio gwella mynediad at wasanaethau trwy rwydweithiau trafndiaeth a seilwaith gwell.

Rydym wrthi'n buddsoddi mewn gwella trafndiaeth gyhoeddus a seilwaith ar draws y sir. Mae'r mentrau yn cynnwys:

Cysylltu Cymunedau

Pont Phil Bennett: Wedi'i hariannu gan Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru a'i chefnogi gan Trafnidiaeth Cymru, mae'r bont newydd hon yn cysylltu ein cymunedau ac yn gwella hygrychedd gan ddarparu mynediad uniongyrchol i ganolfan adwerthu Parc Trostre, a chyfoethogi cysylltedd cyffredinol yr ardal.

Mynd i'r afael ag Anghenion Trafnidiaeth Wledig

Gwasanaeth Bws Bach y Wlad: Rydym wedi datblygu menter i lenwi'r bwlch mewn trafndiaeth gyhoeddus i drigolion ardaloedd gwledig Gogledd Sir Gaerfyrddin. Ymateb uniongyrchol yw hwn i ddiflaniad gwasanaeth Bwcabus, gan sicrhau y gall preswylwyr gysylltu â chyfleoedd economaidd a meithrin twf a datblygiad rhanbarthol.

Gwella'r Seilwaith Ffyrdd

Gwelliannau i'r A484 Heol y Sandy (Cam 1): Mae'r prosiect gorffenedig hwn wedi rhoi bod i fuddion lu i Lanelli. Mae cylchfan Heol y Sandy ar ei newydd wedd yn hyrwyddo newid tuag at opsiynau teithio lleol fel beicio a cherdded. Mae hyn yn gwella ansawdd aer, yn lleddfu tagfeydd traffig, ac yn gwella dibynadwyedd teithiau ar dtrafnidiaeth gyhoeddus a diogelwch ffyrdd yn gyffredinol.

Cynnal a Chadw Ffyrdd A, B ac C:

Er bod gwelliannau wedi'u gwneud i ffyrdd dosbarth A, B ac C eleni, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am gyllid pellach i fynd i'r afael â chyflwr ffyrdd di-ddosbarth a gwledig. Trwy gronfa Ffyrdd Cydnerth Llywodraeth Cymru, fe wnaethom sicrhau £1.08m o gyllid i wneud gwaith atgyweirio mawr ar draws y Sir. Roedd y cyllid hwn yn help i ni gyda sawl Argyfwng go sylweddol, gan gynnwys 5 arglawdd ffordd yn cwmpo, a wal gynnal a 2 gwlfwr yn dymchwel.

Gwella Gorsaf Fysiau Caerfyrddin

Mae gwaith adnewyddu gwerth £1.125 miliwn ar Gynllun Gwella Gorsaf Fysiau Caerfyrddin, wedi'i ariannu gan grant Cronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru, yn symbolaidd o ymrwymiad y Cyngor i gefnogi gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus o ansawdd da.

Cynnal a Chadw

Rydym yn blaenoriaethu cynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yn ystod y gaeaf, er mwyn sicrhau bod gan breswylwyr fynediad di-dor at wasanaethau hanfodol a bod preswylwyr agored i niwed yn cael gofal a chymorth. Mae llwybrau priffyrdd strategol yn cael eu trin â halen, fel rhan o'n cynllun cynnal a chadw dros y gaeaf, i sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau a chyflenwadau hanfodol.

Parhau i waethygu wnaeth cyflwr wyneb y ffordd yn 2023/24. Cynyddodd nifer y diffygion wyneb a thyllau a adroddwyd gan gwsmeriaid 175%, gyda chynnydd sylweddol yn ystod cyfnod gwlyb iawn y gaeaf, gan gyfrif am 35% o'r holl ddiffygion priffyrdd adroddwyd. Mae cwtdogi ar raglenni cynnal a chadw ataliol yn gadael ein ffyrdd yn agored i ddirywiad cyflym, a hynny'n fwy fyth wrth i dywydd eithafol ein taro'n fwy aml.

Gweithredu Terfynau Cyflymder o 20mya

Roedd newid deddfwriaethol Llywodraeth Cymru o ran gostwng cyfyngiadau cyflymder ar ffyrdd cyfyngedig o 30mya i 20mya yn golygu llwyth gwaith sylweddol i'r Cyngor. Sicrhodd bwrdd prosiect dynodedig fod y cyfan yn digwydd yn hwylus. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorau cymuned a thref, trwy friffiau ar-lein a thudalen we gyhoeddus. Gosodwyd bron i 4,000 o hysbysiadau cyhoeddus, a chyhoeddwyd dros 170 o becynnau gwaith i addasu arwyddion presennol a gosod arwyddion terfyn cyflymder 20mya a 30mya newydd.

Datblygiad Llwybr Dyffryn Tywi

Mae'r gwaith yn parhau ar Lwybr Dyffryn Tywi, sy'n brosiect heriol a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a chyllid £16.7 Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

Hyfforddiant i hyrwyddo Diogelwch ar y Ffyrdd ac i annog Teithio Llesol Diogel i Oedolion

Rydym wedi rhoi ein hyfforddiant Biker-down! i 77 o oedolion ynghyd â'n partneriaid hyfforddi. Nod y cwrs yw lleihau nifer y beicwyr modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol mewn damweiniau ffyrdd, ac fe'i rhoddir gan Ymladdwyr Tân / Tîm Beiciau Tân o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r cwrs yn cynnwys tri modiwl sef Rheoli Sefyllfa Ddamwain; Cymorth Cyntaf; a The Science of Being Seen. Mae'r cwrs yn rhoi gwell dealltwriaeth i bobl o beth i'w wneud os dônt ar draws gwrthdrawiad traffig ffyrdd a sut i'w reoli'n ddiogel.



Rydym wedi darparu hyfforddiant Dragon Rider i 44 o oedolion ynghyd â'n partneriaid hyfforddi. Mae ein hyfforddiant yn cynnwys sesiwn megis dosbarth mewn gorsafoedd Tân ac Achub yng Nghaerfyrddin, Llanelli a Rhydaman yn ogystal â sesiynau awyr agored, gan ddefnyddio amryw ffyrdd drwy gydol y sir a siroedd cyfagos er mwyn diwallu anghenion hyfforddiant beiciau modur reidwyr unigol, ar sail llawlyfr gyrru'r Heddlu, Roadcraft.

Hyfforddiant i hyrwyddo Diogelwch Ffyrdd ac annog Teithio Llesol Diogel i Blant Ysgol

Rydym wedi darparu mentrau kerb craft i 1,064 o ddisgyblion lle rydym yn dysgu plant 5-7 oed i fod yn gerddwyr mwy diogel trwy fynd â nhw at ochr y ffordd a dangos iddynt sut y gall gwneud penderfyniadau cywir ac ymddwyn yn briodol eu helpu i aros yn ddiogel.

Rydym hefyd wedi cyflwyno cyrsiau beicio [Lefel 1 i Lefel 3] i 1,195 o ddisgyblion oedran cynradd i hyrwyddo hyfforddiant diogelwch ar y ffyrdd ac ymgyrchoedd i annog dulliau teithio llesol diogel.



Persbectif Defnyddwyr Gwasanaeth Gorsaf Fysiau Caerfyrddin

Gwnaethom ymgysylltu â holl ddefnyddwyr Gorsaf Fysiau Caerfyrddin ar ôl cwblhau'r gwaith ailddatblygu ym mis Rhagfyr 2023. O'r canlyniadau, roedd 62% o'r ymatebwyr yn credu bod y newidiadau wedi hyrwyddo gorsaf fwy diogel. Cafodd yr orsaf fysiau ar ei newydd wedd sgôr o 7 allan o 10 ar gyfartaledd. Yr agwedd fwyaf boddhaol ar y gwelliant i'r defnyddwyr oedd y cysgodfannau newydd.



**Beth gallwn ni
wneud yn well?**

Byddwn yn meithrin twf economaidd drwy ddatblygu a darparu rhaglenni seilwaith. Mae hyn yn cynnwys cyd-ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n anelu at greu system drafnidiaeth gynaliadwy, carbon isel sydd nid yn unig yn cefnogi twf economaidd a buddsoddiad ond hefyd yn gwella hygyrchedd gwledig. Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Rydym yn cydweithio â phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygu METRO De-orllewin Cymru, a fydd yn cynnig system drafnidiaeth integredig sy'n hyrwyddo lleihau carbon, gweithgarwch economaidd, a chynhwysiant cymdeithasol ar draws y rhanbarth.

Er mwyn mynd i'r afael â dirywiad cynyddol ein rhwydwaith priffyrdd, rydym yn adolygu'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Priffyrdd. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn seilwaith a fydd yn hwyluso'r newid i gerbydau trydan ar gyfer Gwasanaethau Fflyd.

Mae'r adolygiad o Gludiant Ysgol yn fenter allweddol, lle rydym yn ystyried y risgiau a gysylltir â masnachfreinio.

Byddwn yn treialu Cymorthfeydd Trafnidiaeth i feithrin gwell ymgysylltiad â'r cyhoedd.

Rydym yn datblygu strategaeth parcio ceir gadarn sy'n cyd-fynd â'n nodau economaidd a'n hamcanion trafndiaeth gynaliadwy.

Amcan Llesiant 4

Ein Cyngor:

Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon

Trosolwg cynnydd

Mae'r Cyngor, fel pob gwasanaeth cyhoeddus arall, yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, galw cynyddol a heriau o ran y gweithlu dros y blynyddoedd nesaf, yn ogystal ag ymateb i'r agenda sero net, effaith newid demograffig ac anghydraddoldeb.

Mae pwysau cyllidebol yn golygu bod cyllid go iawn rhai gwasanaethau wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, er bod galw'n cynyddu, a bod cymhlethdod y galw hwnnw'n cynyddu hefyd.

Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar ein gweithlu sy'n wynebu galw cynyddol ar adeg pryd mae llai o adnoddau. Mae pwysau recriwtio mewn rhai meysydd yn parhau ac mae pwysau cyllidebol yn golygu bod yn rhaid ystyried unrhyw swyddi gwag yn ofalus cyn eu llenwi. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn profi cynnydd sylweddol mewn absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â straen, gyda chynnydd yn y staff sy'n cael eu cyfeirio at ein Gwasanaeth Cymorth Llesiant. Mae'r cynnydd mewn absenoldeb salwch ar ben y pwysau presennol ar y gweithlu. Rhaid canmol ymrwymiad a gwytnwch staff ond ni ellir cynnal y pwysau presennol yn yr hirdymor, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r pwysau ar y gweithlu yn y dyfodol.

Mae meddwl mewn ffordd hirdymor a chydgyssylltiedig yn anodd wrth wynebu heriau o'r fath ac wrth i adnoddau leihau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, er mwyn parhau â'n gwaith pwysig wrth ddarparu gwasanaethau, bod yn rhaid i ni wneud pethau'n wahanol, gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu cynnig.

Rydym wrthi'n moderneiddio ac yn datblygu fel sefydliad gwydn ac effeithlon i sicrhau ein cynaliadwyedd yn y dyfodol. Mae pwyslais cryf ar gynllunio a chefnogi datblygiad gweithlu medrus ac ystwyth, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd o fewn trawsnewid digidol i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau, lleihau costau, a gwella profiad a boddhad cwsmeriaid.

Mae ein Strategaeth Drawsnewid yn cefnogi amcanion strategol ein Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer 2024-2027 i ddarparu gwell profiad i gwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys gweithredu llofnodion electronig, datrysiadau post hybrid, a chyflwyno technoleg roboteg mewn prosesau penodol, sydd wedi arwain at welliannau cynhyrchiant ac arbedion cost. Mae gwaith hefyd yn digwydd i gyflwyno Strategaeth Fasnacheiddio, i'n galluogi i fanteisio ar greu incwm, er mwyn helpu i daclo heriau ariannol y dyfodol.

Gwnaed buddsoddiadau sylweddol i wella effeithlonrwydd gweithredol ac ystwythder. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar wella amgylchedd y safle i fod yn fwy gwydn.

Mae'r Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer 2024-2027 yn pwysleisio defnyddio elfennau digidol, data a thechnoleg i wella gwasanaethau cyhoeddus, gyda'r nod o greu amgylchedd digidol cynhwysol sy'n grymuso pob preswyllydd.

Sut ydyn ni'n gwneud?

Rydym yn rhoi pwyslais sylweddol ar bwysigrwydd barn ein preswylwyr. Felly, y brif ffordd o fesur cynnydd yn erbyn Amcan Llesiant 4 yw drwy ein harolwg preswylwyr blynyddol. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2023 yn cael eu darparu isod gyda chymharydd ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r datganiadau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Cyngor a'n perfformiad.

	SMG Gyffredinol 2022	SMG Gyffredinol 2023
Gallaf gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor trwy fy newis iaith	1.40	1.37
Pan rwyf yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, mae'r staff yn ddymunol a chyfeillgar	0.82	0.77
Gallaf gael mynediad hwylus i'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor	0.50	0.46
Mae cysylltu â'r Cyngor yn syml a rhwydd	0.31	0.28
Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon dda.	0.27	0.17
Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut mae'n perfformio	-0.10	-0.12
Mae'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i mi gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau	-0.19	-0.19
Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo.	-0.33	-0.46
Mae arian yn cael ei fuddsoddi yn y meysydd cywir	-0.41	-0.57

O'r naw gosodiad a gyflwynwyd yn gysylltiedig â'r Cyngor a'i berfformiad, roedd yr ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â 56% ohonynt. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau a welir am y flwyddyn flaenorol.

Fodd bynnag, tra bo hyn yn wir, roedd wyth o'r naw sgôr mynegai cyfartalog (AIS) wedi gweld gostyngiad bach ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol sy'n awgrymu bod lefelau anghytundeb ar y cyfan ychydig yn uwch ar gyfer 2023.

Cafwyd nifer o ganfyddiadau o'r dystiolaeth ddaeth i law, sef:

- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd da ar y cyfan. Fodd bynnag, rhannodd llawer o drigolion sylwadau i'r gwrthwyneb, gyda'r prif themâu'n cyd-fynd â'r dystiolaeth ddaeth i law'r llynedd. Mae'r themâu hyn yn cynnwys:

- o Casgliad gwastraff annibynadwy ac afreolaidd;
 - o Canfyddiad o ddiffyg adfywio yng nghanol trefi;
 - o Cyflwr gwael y ffyrdd, h.y. tyllau;
 - o Strydoedd heb eu glanhau'n ddigonol;
 - o Aros yn hir am waith atgyweirio tai;
 - o Cynnydd mewn sbwriel a thipio anghyfreithlon;
 - o Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus;
 - o Diffyg goleuadau stryd;
 - o Gwasanaeth gofal cymdeithasol sy'n cael ei weld yn un sy'n tanberfformio.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod staff yn hawdd siarad â nhw ac yn gyfeillgar pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor.
 - Mae proses gyfathrebu'r Cyngor yn effeithiol ar y cyfan o ran caniatáu i breswylwyr gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwasanaethau, a chytuna'r rhan fwyaf fod cysylltu â'r Cyngor yn syml ac yn rhwydd. Fodd bynnag, mae rhai problemau gyda phrosesau cyswllt uniongyrchol megis ar adegau pan fydd preswylwyr yn defnyddio'r prif switsfwrdd, yn defnyddio e-bost i gysylltu â swyddogion neu'n dymuno siarad yn uniongyrchol â swyddogion mewn adrannau unigol. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.
 - Ar y cyfan mae'r ymatebwyr o'r farn nad yw'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ni, ac nad yw buddsoddi'n digwydd yn y meysydd cywir. Dyma oedd y ddau ddatganiad wnaeth sgorio isaf, tuedd gyson â'r llynedd.
 - Yn yr un modd â'r llynedd, ymateb cymysg gafwyd i ddatganiadau ar gyfathrebiadau'r Cyngor mewn perthynas â pherfformiad a chyfleoedd i gyfrannu at benderfyniadau. Ar y cyfan roedd mwy o bobl yn anghytuno â'r datganiadau hyn, ond roedd nifer sylweddol wedi nodi 'y naill na'r llall', a allai ddangos bod problem ehangach â'r math o wybodaeth a rennir â thrigolion ar y themâu hyn a sut rhennir y wybodaeth hon.

Canlyniad: Moderneiddio a datblygu ffyrdd y Cyngor o weithio ymhellach.

Mynd yn Ddi-bapur

Un o brif amcanion Strategaeth Drawsnewid y Cyngor yw 'gwneud gwell defnydd o dechnoleg i ddarparu prosesau gwasanaeth mwy clyfar ac effeithlon a chynnig gwell profiad i gwsmeriaid'. Mae'r ffrwd waith Cwsmeriaid a Digidol yn goruchwyllo gweithrediad rhaglen barhaus o waith sy'n ceisio ad-drefnu a/neu awtomeiddio sawl proses bapur. Mae'r defnydd o lofnodion electronig ac atebion post hybrid yn cael ei gyflwyno ar draws amryw wasanaethau ac mae hyn eisoes yn darparu ffordd fwy cost-effeithiol a chynhyrchiol o weithio, gan arbed dros £100k yn y flwyddyn ddiwethaf.

Awtomeiddio Prosesau Robotig

Mae cyllid Trawsnewid Digidol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cyflwyno technoleg roboteig ar gyfer prosesau penodol. Mae technoleg roboteig yn cael ei defnyddio i gyflawni dwy broses cefn swyddfa o fewn Adnoddau Dynol, ac yn ddiweddar fe'i defnyddiwyd ym mhrosesau'r Grant Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Hanfodion Ysgol. Mae awtomeiddio'r prosesau hyn eisoes yn gwireddu manteision i'r gwasanaethau o ran gwella cynhyrchiant, tra hefyd yn gwireddu manteision sylweddol i gwsmeriaid wrth i geisiadau gael eu prosesu ar unwaith. Ar hyn o bryd mae ymarferion cwmpasu yn cael eu cynnal i nodi a blaenoriaethu'r prosesau nesaf sydd i'w hawtomeiddio gan ddefnyddio technoleg roboteig.

Gweithio Ystwyth/Symudol

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio i sicrhau bod dyfeisiau ein defnyddwyr, gan gynnwys gliniaduron, ffonau clyfar a llechi, nid yn unig yn addas i'r diben ond hefyd yn darparu profiad didrafferth ac effeithlon i'n defnyddwyr. Defnyddio technolegau sy'n galluogi ymagwedd wirioneddol hyblyg at weithio yw ein strategaeth wedi bod, er mwyn i ddefnyddwyr allu cysylltu, cyfathrebu a chyrchu adnoddau o'r manau mwyaf priodol.

Systemau a Chwmwl

Rydym yn defnyddio technoleg i wasanaethu ein trigolion yn well, i wella effeithlonrwydd ar draws ein gwasanaethau, ac i alluogi staff i gael mynediad at ddata, systemau a gwasanaethau o unrhyw ddyfais, unrhyw leoliad, ar unrhyw adeg. Ein gallu i gyrchu adnoddau, systemau a data o unrhyw le ar unrhyw adeg sy'n ategu'r modd darperir gwasanaethau'r sefydliad a'n hymagwedd at weithio symudol ac ystwyth. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi symud llawer iawn o ddeunydd i'r cwmwl, ac mae hynny a gwelliannau wedi bod yn hollbwysig i wella ein heffeithlonrwydd gweithredol a'n hyblygrwydd, a sut darperir gwasanaethau. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar uwchraddio ein hamgylchedd, platfform a meddalwedd i ddarparu gwell gwytnwch.

Mae'r gwelliannau hyn i'r system a'r symudiadau yn brawf o'n hymroddiad i ddefnyddio technoleg i wella darpariaeth gwasanaethau, gwella casglu a dadansoddi data, a darparu ein gweithle â'r offer sydd ei angen arnynt i ragori. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- **TGCh Ysgolion:** Rydym wedi newid 18 ysgol o'r hen blatfformau ffôn i blatfformau llais cwbl ddigidol a diogel i'r dyfodol i baratoi ar gyfer gwaredu analog yn y DU. Nid yn unig mae hyn yn diogelu'r ysgolion yn y dyfodol, ond mae hefyd yn darparu ystod o arbedion ar gostau. Rydym wedi cyfnewid cannoedd o ddyfeisiau ar draws ein hysgolion fel rhan o fuddsoddiad HWB a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod gan bob dysgwr ar draws y Sir fynediad cyfartal at adnoddau digidol.

Seibergadernid


Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cymryd camau sylweddol i gryfhau ein seibergadernid. Rydym wedi cydnabod her gynyddol bygythiadau seiber ac wedi ymateb trwy fuddsoddi mewn technolegau ac adnoddau newydd i wella ein hamddiffynfeydd. Rydym wedi cynyddu ein ffocws ar adfer trychinebau, gan sicrhau seilwaith cadarn a gwydn, ac rydym wedi gweithredu ymarferion a gweithdrefnau digwyddiadau seiber i baratoi ar gyfer bygythiadau posibl.

Strategaeth Trawsnewid Digidol 2024-2027

Mae Strategaeth Ddigidol newydd Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2024-2027 wedi'i datblygu a'i lansio dros y 6 mis diwethaf. Mae'n gynllun cynhwysfawr sy'n rhoi pwyslais ar ddefnyddio elfennau digidol, data a thechnoleg i wella gwasanaethau cyhoeddus. Gyda'r is-bennawd "wedi'i dylunio ar gyfer pobl, a'i galluogi gan dechnoleg," ei nod yw creu amgylchedd digidol cynhwysol sy'n grymuso pob preswlydd. Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar welliant parhaus a datblygiadau strategol, gan osod cyfeiriad clir ar gyfer arloesi digidol, penderfyniadau a seilir ar ddata, a gwasanaethau a arweinir gan dechnoleg sy'n hygyrch i bawb. Mae'n dangos ymrwymiad i ddefnyddio data a thechnoleg ddigidol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon, tryloyw ac ymatebol i ddinasyddion Sir Gaerfyrddin dros y 3 blynedd nesaf.

Canlyniad: Cefnogi datblygiad y Cyngor fel sefydliad modern, amrywiol, cynhwysol ac ymatebol a bod yn 'Gyflogwr o Ddewis'.

- Mae gan Strategaeth Gweithlu newydd y Cyngor nifer o gamau gweithredu a mentrau allweddol wedi'u hanelu at ddenu, recriwtio a chadw talent amrywiol yn ogystal â sicrhau ein bod yn gyflogwr o ddewis.
- Roedd 85 (0.94%) o weithwyr y Cyngor o gymunedau sydd o leiafrifoedd ethnig ar ddiwedd Mawrth 2024 o gymharu â 71 (0.86%) ar ddiwedd Mawrth 2023.
- Mae absenoldeb salwch cyfartalog gweithwyr y Cyngor wedi gwella yn ystod 2023/24, gan leihau o 11.6 diwrnod i 11.1 diwrnod, ond mae'r canlyniadau dal yn uwch na lefelau cyn Covid.



Mae ein his-adran Rheoli Pobl yn darparu cyngor a chefnogaeth i reolwyr, sy'n gyfrifol am reoli presenoldeb. Mae'r tîm Iechyd a Llesiant yn cefnogi drwy fentrau rhagweithiol ac ymyriadau pwrpasol. Mae gweithwyr Iechyd Galwedigaethol proffesiynol yn darparu barn feddygol ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu cyfeirio ac maent yn darparu argymhellion i reolwyr ar addasiadau rhesymol, prognosis a ffitrwydd ar gyfer gwaith.

Diogelu'r Gweithlu at y dyfodol

O ystyried y pwysau sy'n wynebu'r Gwasanaethau Plant, cynhaliwyd adolygiad ar draws y gwasanaeth i sicrhau bod gennym weithlu sefydlog sy'n gymwys, yn meddu ar y sgiliau iawn, ac yn cael cymorth i ddarparu cefnogaeth i blant a theuluoedd. Yn ogystal ag ail-alinio'r tîm rheoli gwasanaethau plant a theuluoedd, mae fframwaith datblygu ymarferwyr profiadol wedi'i roi ar waith a swyddi hyfforddeion gweithwyr cymdeithasol wedi'u creu. Ers mis Hydref 2023, mae 48 o weithwyr cymdeithasol yn maes plant a theuluoedd wedi datblygu drwy'r fframwaith, ac rydym wrthi'n recriwtio 10 o hyfforddeion hefyd.

Ar draws y Cyngor cyfan mae 107 o brentisiaid ar hyn o bryd ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol, gyda 4 arall yn cael eu recriwtio i fodloni dyheadau cynllunio'r gweithlu drwy brosiect Amdani. Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle i brentisiaid ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio eu sgiliau Cymraeg i gynnig gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid. Mae dros 65 o leoliadau profiad gwaith wedi cael eu cefnogi, ynghyd â 6 phrentisiaeth a rennir gan Cyfle a Phrentis Technegol a rennir sy'n gweithio yn y Theatrau mewn partneriaeth â Chanolfan Mileniwm Cymru. Mae gan yr Academi Gofal 12 o bobl ar y rhaglen, gyda 4 yn symud ymlaen ar y llwybr carlam i wneud eu Cymwysterau Gwaith Cymdeithasol gan ddechrau ym Medi 2024. Mae un wedi cael gwaith yn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, tra bo un arall wedi gadael i ddilyn astudiaethau yn y brifysgol. Mae 6 gweithiwr dan hyfforddiant arall yn cael eu recriwtio ar gyfer Medi 2024. Mae 30 o staff wedi ymgymryd â'r Academi Arweinyddiaeth, a bellach mae'r broses ymgeisio ar agor ar gyfer y sawl fydd yn dechrau ym mis Medi.

Canlyniad: Gwrando ar ein staff drwy ymgysylltu'n rheolaidd â staff a'u grymuso i wella eu meysydd gwasanaeth eu hunain.

Cawsom ychydig o dan 1,500 o ymatebion i'n harolwg staff yn ystod 2023/24, gellir gweld y sgoriau a'r cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn isod. Dadansoddwyd sylwadau'r staff a'r camau a gymerir i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd.

Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr	Y Sgôr Mynegai Cyfartalog		Sylw
	2022	2023	
Nifer y bobl sy'n ymfalchïo mewn gweithio i'r Cyngor	1.04	1.06	Dengys y canlyniad o 1.06 fod cytundeb cryf yn gyffredinol fod ein staff yn ymfalchïo mewn gweithio i'r Cyngor, ac mae'r canlyniad wedi gwella ychydig ers 2022/23.
Nifer y bobl fyddai'n argymhell y Cyngor fel cyflogwr	1.04	1.10	Mae'r canlyniad o 1.10 yn dangos gwelliant bach ar y flwyddyn flaenorol ac mae'n parhau i fod yn gytundeb cryf cyffredinol y byddai ein staff yn argymhell y Cyngor fel cyflogwr.

Canlyniad: Sicrhau bod y gwaith a wneir mewn partneriaeth yn lleol ac yn rhanbarthol yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn ychwanegu gwerth at waith y Cyngor.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dwyn ynghyd sawl sefydliad gwahanol sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n gweithio gyda'i gilydd er budd Sir Gaerfyrddin. Mae ganddynt hanes llwyddiannus o weithio mewn partneriaeth ers amser maith ac maent yn parhau i adeiladu ar hynny.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gydweithio, gan ganolbwyntio egni, ymdrech ac adnoddau ar y cyd ar ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i gymunedau lleol. Byddant yn parhau i wneud hyn drwy gydweithio i ychwanegu gwerth at wasanaethau ei gilydd a byddant yn edrych ar ddulliau arloesol a ffyrdd newydd a gwahanol o weithio i gyflawni hyn.

Yn dilyn cyhoeddi Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin, adeiladodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y dystiolaeth i baratoi Cynllun Llesiant ar gyfer 2023-28. Amlinellodd y cynllun uchelgais y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer y Sir a sut maent yn dymuno gweld gwelliannau gwirioneddol yn lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein trigolion.

Rydym wedi gwneud cynnydd o ran y gwaith hwn drwy ddatblygu fframwaith cyflawni newydd, er mwyn sicrhau cynnydd o ran yr amcanion lesiant drwy sefydlu sawl grŵp gorchwyl a gorffen amlasiantaethol. Bydd y grwpiau hyn yn ysgogi cymryd y camau nesaf a nodwyd yng Nghynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Hyd yn hyn, mae'r grwpiau canlynol wedi'u sefydlu:

- Dan amcan lesiant 'Trechu Tlodi a'i effeithiau', ffocws ar nodi a gweithredu cyfleoedd i staff sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 'Wneud i Bob Cysylltiad Gyfrif' a gwella'r trefniadau cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth, ac adeiladu ar gyngor, gwasanaethau a chymorth i breswylwyr drwy Hwb y Cyngor, trwy ddatblygu cyfleoedd cydweithio i sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Dan amcan lesiant 'Sicrhau economi gynaliadwy a chyflogaeth deg', y nod i gynllunio ar gyfer ein gweithlu i'r dyfodol drwy gydweithio i hyrwyddo cyfleoedd gwaith a gyrfa yn y sector cyhoeddus.
- Dan amcan lesiant 'Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur', ffocws ar gynyddu cydweithio ar Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan mewn lleoliadau sector cyhoeddus.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28

Yn ystod 2023-24, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ledled Ceredigion, Sir Benfro a Phowys i gynnwys ein trigolion yn yr adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gwnaed yr holl waith o gynllunio, paratoi arolygon a chysylltu â phartneriaid ar draws y pedair sir, gyda chyrff allweddol y sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gynyddu nifer y lleisiau a glywir yn ein gwaith.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn fuddsoddiad nas gwelwyd ei debyg o'r blaen o hyd at £1.3 biliwn erbyn 2033 gan greu 9,000 o swyddi ar draws portffolio o naw o brif brosiectau a rhaglenni ledled siroedd Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro.

Gan gyd-fynd â thair thema cyflymu'r economi, ynni a gweithgynhyrchu clyfar, a gwyddor bywyd a lles, mae'r portffolio yn cael ei ddarparu'n llawn. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i lawer o fusnesau rhanbarthol presennol a newydd, yn ogystal â thrigolion ar draws y rhanbarth.

PARTNERIAETH

Sefydlwyd PARTNERIAETH yn dilyn diddymu gwasanaeth ERW i gefnogi ysgolion mewn partneriaeth â chynghorau Abertawe a Sir Benfro. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor newydd, a datblygwyd Cytundeb Cyfreithiol i reoli gwaith yr endid newydd. Mae staff craidd wedi cael eu hailstrwythuro i greu tîm o swyddogion i gefnogi ac ategu gweithgareddau gwella ysgolion yn y tair sir. Mae gwaith yn parhau i gryfhau'r gwaith o lywodraethu, monitro a dwyn PARTNERIAETH i gyfrif am ei gyfraniad at wella ysgolion yn y rhanbarth.

Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru (CJC)

Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru (CJC) fel corff corfforaethol rhanbarthol gan Weinidogion Cymru. Mae'r aelodaeth yn cynnwys arweinwyr gweithredol Cynghorau Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe, ynghyd ag aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Bu i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol gyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2023-2028, sy'n cydnabod ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau yn Ne-orllewin Cymru o ran llesiant economaidd, ynni, trafnidiaeth a chynllunio strategol, gan gyfleu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn yn ogystal â nodi uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. I'r perwyl hwn, mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys Gweledigaeth ar gyfer De-orllewin Cymru 2035, yn ogystal â 3 amcan llesiant ac amcan cydraddoldeb.

Canlyniad: Mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ymgysylltu, cyfranogi ac ymgynghori.

Mae gan y Cyngor ddull sefydledig o ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid allweddol eraill ar draws holl swyddogaethau allweddol y Cyngor. Mae yna sawl grŵp rhwydwaith sy'n cynrychioli amrywiaeth o fuddiannau o'r fforwm ieuencid i'r rhwydwaith heneiddio'n dda. Rydym hefyd yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac yn gofyn am farn y rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig penodol fel y'u cydnabyddir gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Rydym yn mynd ati i gyflwyno Siarter Cwsmeriaid Corfforaethol a fydd nawr yn cael ei chwblhau yn ystod 2024/25. Disgwylir gwasanaeth da i gwsmeriaid gan ein holl feysydd gwasanaeth, a hyn ddylai ein nod fod, yn enwedig yn yr hinsawdd bresennol o gyllidebau llai a llwyth gwaith cynyddol. Hefyd mae disgwyliadau cwsmeriaid yn uchel, yn bennaf oherwydd cyflymder a hwylustod technoleg symudol. Ein nod drwy'r siarter cwsmeriaid newydd hon yw rhoi ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar-lein. Wrth werthuso ymgynghoriadau tebyg, cafwyd 2,004 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Gyllideb yn 2020 a oedd yn ymgynghori ar gynnig penodol, tra chafwyd 4,294 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2023. Priodolir y cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan i'r berthynas agosach a ddatblygwyd gyda'r tîm Marchnata a'r Cyfryngau gan sicrhau bod ymgynghoriadau'n cael eu hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan gorfforaethol a'u bod yn cael eu hanfon at yr holl randdeiliaid allweddol.

Mae'r Cyngor newydd lansio adran newydd ar y wefan gorfforaethol sy'n helpu i hyrwyddo ac arddangos canlyniadau pob ymgynghoriad mewn ymgais i sicrhau gwell eglurder a thryloywder. Felly, bydd yr adroddiad blynyddol nesaf yn gallu tynnu sylw at y newidiadau rydym wedi'u gwneud i amlygu cynnydd pob ymgynghoriad a'r canlyniadau a'r camau gweithredu sy'n deillio o bob arolwg.

Gweithgarwch Ymgynghori Blynyddol

Yn unol â'r rhwymedigaeth statudol sydd arnom drwy'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau, ymgynghorodd y Cyngor â phreswylwyr, busnesau, staff ac undebau llafur ar y graddau yr ydym yn bodloni ein gofynion perfformiad. Ceir diweddariad ar y gweithgareddau ar gyfer 2023 isod:

Arolwg	Diweddariad
Arolwg Preswylwyr: 2023	Cawsom ychydig o dan 4,000 o ymatebion i'n Harolwg Preswylwyr yn ystod 2023 , ac mae hyn yn gynnydd o 1,748 o ymatebion ar y flwyddyn flaenorol. Dadansoddwyd a chrynowyd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn gyfres o adroddiadau a'u cyflwyno i wahanol fforymau'r Cyngor. Manylir ar y prif ganfyddiadau a'r angen am ddatblygiad ar ein gwefan Arolwg Trigolion Sir Gaerfyrddin 2023 - Canlyniad yr Ymgynghoriad ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu a gweithgarwch rydym yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i hynny.
Arolwg Staff (Rheoli Pobl): 2023	Dewisodd cyfanswm o 1,475 aelod o staff gymryd rhan yn yr arolwg , sef tua 18% o'n gweithlu cyfan, mae hyn yn ostyngiad bach o gymharu ag arolwg staff 2022. Serch hynny, mae'n dal i fod yn sampl ystadegol dibynadwy. Ar y cyfan, mae'r canlyniadau'n gadarnhaol gyda'r holl ddangosyddion yn denu sgôr gadarnhaol o <i>Cytuno'n Gryf</i> neu <i>Cytuno</i> ac yn dangos gwelliant ar ganlyniadau 2022 (gweler Canlyniad 3 uchod i gael manylion). Dadansoddwyd y sylwadau a ddaeth i law a chyhoeddwyd y canlyniadau ar ein Mewnwyd a'u dosbarthu i staff.
Arolwg Busnes: 2023	Cawsom 110 o ymatebion i'n Harolwg Busnes yn ystod 2023 , ac mae hwn yn gynnydd o 74 o ymatebion ar y flwyddyn flaenorol. Crynowyd y dadansoddi a'r canfyddiadau mewn adroddiad a roddai syniad sut mae'r canlyniadau'n cymharu â rhai'r flwyddyn flaenorol.
Arolwg Undebau Llafur: 2023	Cawsom ymateb gan 3 o'n Hundebau Llafur yn ein harolwg yn 2023, sydd dau yn llai nag yn 2022. Gall hyn fod yn arwydd bod undebau penodol yn teimlo eu bod eisoes wedi rhannu eu barn â'r Cyngor drwy'r ymgysylltu oedd yn gysylltiedig ag arolygiad Estyn. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi'i chrynhoi mewn adroddiad a ystyriwyd.

Ymgynghori ynghylch y Gyllideb

Cafodd trigolion, busnesau, sefydliadau cymunedol a gwirfoddol ddweud eu dweud ar ystod o gynigion polisi newydd i arbed arian, a ddeilliai o bob un o wasanaethau'r Cyngor. Cyflwynwyd cyfanswm o 11 o gynigion cyllideb i'w hystyried. Cafodd y rhain eu hystyried ochr yn ochr â mwy na 100 o gynigion rheolaeth manwl, fel trefniadau caffael, strwythurau staffio, a swyddogaethau mewnol a chefn swyddfa.

Sgôr Net Promoter (NPS)

Mae Actif wedi hen fabwysiadu Sgôr Net Promoter ar gyfer casglu adborth cwsmeriaid. Gan gysylltu â chwsmeriaid canolfannau hamdden yn rhagweithiol, daeth bron i 1,800 o sgorau/sylwadau i law yn 2023-24 i roi barn am eu profiad fel cwsmeriaid ac unrhyw sylwadau i esbonio neu ein helpu i wella.

Gyda'r wybodaeth hon, ein sgôr NPS ar gyfer 2023-24 oedd 45% ar gyfartaledd, gan ragori ar y meincnod rhyngwladol (40%) a bron yn cyfateb i'r meincnod cenedlaethol (47%), gyda Chanolfannau Hamdden Castellnewydd Emlyn a Llanymddyfri yn sgorio 76% a 78%.

Canlyniad: Datblygu agwedd fwy masnachol at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor gyda'r bwriad o gynyddu lefel yr incwm a gynhyrchir.

Ystadau a Rheoli Asedau

Rydym yn parhau i adolygu ein portffolios eiddo amrywiol i fanteisio ar gyfleoedd i gynyddu incwm a lleihau rhwymedigaethau i ddatblygu gwytnwch ariannol ac amgylcheddol. Roedd y portffolio gwledig yn destun adolygiad yn 2023-24.

- Un canlyniad oedd gwerthu ffermdy a rhywfaint o dir cysylltiedig am £725,000 gan gadw'r rhan fwyaf o'r tir, a'i ailosod wedyn i ddarparu cynnydd o tua 80% mewn refeniw ar yr ased.
- Fe wnaethom hefyd barhau â'n gwaith ar yr Ystâd Weinyddol mewn perthynas â gwneud gwell defnydd o drefniadau gweithio hybrid.
- Gwerthwyd Parc Dewi Sant, Caerfyrddin, a gwnaed mwy o ddefnydd o adeiladau yng Nghanol y Dref yng Nghaerfyrddin a Llanelli gyda'r olaf yn creu incwm ychwanegol drwy rannu lle gyda sefydliadau partner.
- Rydym hefyd yn parhau i wneud gwaith ar ran sefydliadau partner gyda chyngor prisio'n cael ei roi i Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan greu incwm ar gyfer ein gwasanaeth.

Hamdden

Mae Actif yn ceisio cynyddu incwm drwy'r amser trwy raglenni a chynnyrch arloesol, gwerthiannau aelodaeth, ac ati. O ganlyniad, roedd cynnydd o 16% mewn incwm o £4.7m yn 2022-23 i ychydig o dan £5.5m yn 2023-24. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i ffocws mawr ar ddau faes busnes allweddol ffitrwydd a gweithgareddau dŵr, sy'n gyfrifol am oddeutu dwy ran o dair o incwm Actif sy'n gysylltiedig â gwerthiannau.

Mae ymdrechion sylweddol i recriwtio a hyfforddi athrawon nofio ychwanegol, er enghraifft, wedi cynyddu'r gallu i ateb y galw am wersi nofio, gan fynd â'n haelodaeth dysgu nofio o 2,480 (Mawrth 2023) i 2,998 (Mawrth 2024), neu dwf o 21% / £20k ychwanegol y mis calendr.

O ran busnes ffitrwydd, gwnaed ymdrech i sicrhau bod cymaint o le ag sy'n bosib ar gael (e.e. rhoi offer ffitrwydd ar ochrau'r stiwdios fel y gall campfeydd weithredu'r tu allan i oriau dosbarth) a chynnal ymgyrchoedd marchnata llwyddiannus i greu gwerthiannau a chadw cwsmeriaid. O ganlyniad, mae'r aelodaeth wedi tyfu o 3,511 (Mawrth 2023) i 3,997 (Mawrth 2024), neu 14% o dwf/£25k ychwanegol y mis calendr.

Canlyniad: Parhau i wneud gwell defnyddo dechnoleg ddigidol i drawsnewid ein gwasanaethau ymhellach yn brosesau gwasanaeth mwy clyfar ac effeithlon a chynnig gwell profiad i gwsmeriaid.

- Yn ystod 2023/24 sicrhawyd bod 8 o wasanaethau trafodiadol y Cyngor gael i'r cyhoedd ar-lein. Mae dros 60 o wasanaethau trafodiadol wedi cael eu hychwanegu ar-lein yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, sy'n ffordd ychwanegol o gael mynediad at y gwasanaethau hyn.
- Roedd dros 4.5m o sesiynau defnyddwyr i wefan y Cyngor yn ystod 2023/24, sef cynnydd o 37% o gymharu â'r llynedd.
- Ychwanegwyd cyfleuster 'Dewisiadau' i'n llinellau ffôn sy'n cyfeirio cwsmeriaid i rannau o'r sefydliad y maent eu hangen. Mae hyn wedi lleihau'r arfer o drin galwadau ddwywaith, gyda'r galwadau'n mynd yn uniongyrchol i'r tîm angenrheidiol yn hytrach na chael eu trosglwyddo drwy'r ganolfan gyswilt, ac mae hyn yn ei dro wedi lleihau nifer y galwadau sy'n dod drwy'r ganolfan gyswilt. Mae hefyd wedi golygu bod galwadau'n cael eu hateb yn gynt, o gyfartaledd o 6.32 munud yn 2022/23 i 1.05 munud erbyn diwedd 2023/24. Hefyd mae cwsmeriaid yn dewis dulliau cysylltu eraill e.e. e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, ffurflenni ar-lein ac ati yn hytrach na'r ffôn.
- Roedd cynnydd o 37% yn nifer y cwynion gafodd y Cyngor yn ystod 2023/24, sef 1,958 o gymharu â 1,430 y flwyddyn flaenorol, gyda'r nifer uchaf o gwynion yn dod i law'r gwasanaethau gwastraff ac atgyweiriadau tai. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu natur y gwasanaethau gan eu bod yn dod wyneb yn wyneb â'r cyhoedd. Ymdriniwyd ag ychydig llai na 61% o'r holl gwynion ar amser.

Canlyniad: Croesawu a hyrwyddo arferion gweithio ystwyth, cyfarfodydd hybrid a ffyrdd newydd o weithio ar draws y sefydliad, drwy fod yn fwy cynaliadwy a chreadigol i wella gwasanaethau'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn hyrwyddo gweithio ystwyth a hybrid, sy'n gwella gwasanaethau'r Cyngor ac yn cefnogi llesiant a chynhyrchiant staff. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn offer a llwyfannau digidol gan gynnwys llwyfannau cyfrifiadurol yn y cwmwl a seilwaith digidol arall i gefnogi gwaith o bell a chyfarfodydd rhithwir.

Ar ben hynny, mae canllawiau newydd ar weithio ystwyth a hybrid wedi'u rhoi ar waith. Mae'r fenter hon yn lleihau costau teithio ac allyriadau, yn gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, yn gwella arloesedd, yn cynyddu gwytnwch ac addasrwydd, ac yn arwain at ddarparu gwell gwasanaethau a mwy o foddhad yn eu cylch.

Mae'r Cyngor yn ad-drefnu ei bortffolio adeiladau drwy leihau a gwella adeiladau'r Cyngor. Mae'r fenter hon yn cael ei galluogi gan weithio hybrid, sy'n lleihau'r angen am ofod swyddfa. Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth a chynllun adeiladau newydd, sy'n nodi'r weledigaeth, yr amcanion a'r camau gweithredu ar gyfer defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o ystâd y Cyngor. Mae'r fenter hon yn lleihau costau a gwariant ar eiddo, yn gwella perfformiad a defnydd asedau, yn gwella safonau iechyd a diogelwch, yn gwneud y gorau o le a chyfleusterau, ac yn cynyddu incwm a derbynebaw.

Mae'r mentrau hyn yn rhan o ymdrechion ehangach y Cyngor i foderneiddio ei weithrediadau yn unol â'r Strategaeth Drawsnewid. Disgwylir i'r mentrau hyn roi bod i fuddion sylweddol i'r Cyngor, ei staff, a'r cyhoedd.

Rydym felly yn mynd i hyrwyddo ymhellach y defnydd o opsiynau teithio staff mwy cynaliadwy gyda'r bwriad o gyflawni arbedion ariannol ac amgylcheddol y flwyddyn nesaf.

Canlyniad: Sicrhau newid sefydliadol sy'n cefnogi targedau allweddol Carbon Sero Net

Rheoli Asedau

Mae Grŵp Defnydd Tir Strategol y Cyngor yn adolygu ein daliadau a'r hyn rydym yn gobeithio ei werthu. Ei ffocws yw cydbwysu'r gofynion presennol gydag anghenion y dyfodol. Mae'r cyfleoedd gall ein hasedau eu darparu o bosibl ar gyfer cynhyrchu ynni, plannu coed, lliniaru ffosffad, gwella bioamrywiaeth, cynhyrchu bwyd ac anghenion cymunedol yn cael eu hystyried gan y grŵp.

Dylunio Eiddo

Rydym yn parhau i gasglu data i adrodd ar fethodoleg carbon, gan gydweithio â'r tîm cynaliadwyedd corfforaethol ac yn unol â Chynllun Gweithredu Carbon Sero Net Sir Gaerfyrddin. Ein nod yw datblygu setiau data cynhwysfawr am effeithiau carbon yn ystod y gwaith adeiladu ac am allyriadau carbon gweddilliol pan gaiff ein hadeiladau eu defnyddio. Bydd hyn yn ein galluogi i lunio strategaeth ar gyfer adfywio ffisegol cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin a darparu data ar gyfer ceisiadau am gyllid i Lywodraeth Cymru.

Canlyniad: Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Yn dilyn setliad cyllido is na chwyddiant Llywodraeth Cymru o 3.3%, rhaid i'r Cyngor bontio diffyg o dros £22 miliwn yn ei gyllideb ar gyfer 2024/25.

Bu i Lywodraeth Cymru gydnabod iddi wynebu'r "dewisiadau cyllideb mwyaf llym a phoenus i Gymru yn yr oes ddatganol" wrth baratoi ei chyllideb ddrafft, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw (RSG) hollbwysig a ddyrannwyd i awdurdodau lleol. Mae'r cynnydd o 3.3% yn yr RSG, sy'n cyfrif am tua thri chwarter ein cyllid, yn brin iawn o'r cyfraniad sydd ei angen ar y Cyngor i gynnal y gwasanaethau fel y maent yn cael eu darparu ar hyn o bryd.

"Rwy'n ddiolchgar i'r 4,300 o drigolion a ymatebodd i'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb ac i'r bobl ifanc a lenwodd Siambr y Cyngor i ddweud wrthym beth sy'n bwysig iddyn nhw. Yn seiliedig ar yr ymatebion, trafododd y Cabinet yn helaeth yr opsiynau roeddem wedi'u cyflwyno i'r cyhoedd, a chynnig dyrannu £2m ychwanegol i ohirio toriadau mewn sawl gwasanaeth. Gresyn gen i ddweud fod y blynyddoedd nesaf yn edrych yn llwm i bob cyngor, gan ei bod yn bur debyg mai cynyddu fydd y pwysau ar wariant cyhoeddus. Ond beth bynnag wnaiff ddigwydd, gallaf sicrhau pobl Sir Gaerfyrddin y byddwn yn gwneud ein gorau glas i ddiogelu'r gwasanaethau hanfodol yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt."

Aelod Cabinet dros Adnoddau - Y Cynghorydd Alun Lenny

Mae'r pwysau enfawr sydd ar gynghorau lleol oherwydd cyllid annigonol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ers dros ddegawd, ac mae bellach ar lefel uwch nag erioed. Yn Sir Gaerfyrddin, rydym tua £120m yn waeth ein byd nag yr oeddem yn 2010.

Ym mis Chwefror 2024 cymeradwywyd Rhaglen Gyfalaf 5 mlynedd Cyngor Sir Caerfyrddin, a fydd yn gweld buddsoddiad o £193m o fewn y sir dros y pum mlynedd nesa. Bydd £61m yn cael ei gyfeirio at ymrwymiad parhaus y Cyngor i wella adeiladau ysgolion, £12m tuag at Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl i helpu i drawsnewid ansawdd bywyd llawer o bobl yn eu cartrefi eu hunain, £34m ar gyfer prosiectau adfywio i hybu gweithgarwch economaidd a £16m i gwblhau'r prosiect Pentre Awel a gefnogir gan y Fargen Ddinesig - sy'n cynnwys canolfan hamdden newydd i Lanelli. Mae £43m wedi'i ddyrannu tuag at wella seilwaith priffyrdd economaidd lleol a seilwaith ailgylchu Sir Gaerfyrddin, ac mae £21m wedi'i glustnodi ar gyfer caledwedd a seilwaith TG digidol critigol.




“Yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi cyflwyno rhaglen enfawr o fuddsoddiadau cyfalaf ar gyfer pobl Sir Gaerfyrddin. Buddsoddiadau yn ein hysgolion, yn ein cysylltiadau a'n seilwaith trafnidiaeth, a'n cyfleusterau diwylliannol a hamdden; rydym wedi cyflawni ym mhob maes er gwaethaf wynebu heriau digynsail o ganlyniad i'r costau cynyddol a'r gostyngiadau yng nghyllid y llywodraeth.”


Aelod Cabinet dros Adnoddau, Y Cynghorydd Alun Lenny

- Cafodd 97.01% o'r Dreth Gyngor ei gasglu yn ystod 2023/24, ychydig yn is na'r llynedd (97.33%) er bod gennym y gyfradd gasglu 5ed uchaf yng Nghymru ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o 95.97%. Rydym yn cymryd ymagwedd ragweithiol tuag at adennill ac wedi darparu cefnogaeth a chynghor perthnasol i'r rheiny sy'n mynd i ôl-ddyledion er mwyn sicrhau'r ffordd orau bosibl ymlaen o ran trefniadau ad-dalu.

% Treth y Cyngor a gasglwyd fesul Awdurdod yn ystod 2023/24



- Casglwyd 99.24% o'r ardrethi annomestig dyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol gan y Cyngor, mae hyn yn welliant ar 97.97% y flwyddyn flaenorol a'r gyfradd gasglu uchaf yng Nghymru.



- Gyda mwy o fynediad at wasanaethau ar-lein, mae hyn wedi creu newid naturiol at daliadau ar-lein gyda llawer o gwsmeriaid yn cysylltu â ni, yn cyflwyno ffurflenni a dogfennau, ac yn talu am ein gwasanaethau'n electronig gyda chynnydd o 5.72% yn nifer y taliadau ar-lein o 59,995 yn 2022/23 i 63,427 yn ystod 2023/24.
- Tra'n cefnogi ymrwymiad y Cyngor i 'ystyried defnydd mwy o'r pwerau ychwanegol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng ail gartrefi', mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd yn defnyddio ei bwerau dewisol i godi premiwm ar ail gartrefi ac eiddo sy'n wag yn y tymor hir; codir premiwm o 50% yn 2024/25 ar ail gartrefi ac ar eiddo sy'n wag yn y tymor hir, codir premiwm o 50% ar eiddo sy'n wag am fwy na blwyddyn a llai na 2 flynedd, 100% am 2 i 5 mlynedd, a 200% ar eiddo sy'n wag am dros 5 mlynedd.
- Talwyd ychydig llai na 95% o anfonebau o fewn 30 diwrnod yn ystod 2023/24, mae hyn oddi ar y targed ac i lawr ar 2022/23, ond bu cynnydd o 5% yn nifer yr anfonebau a dalwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Canlyniad: Ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wna'r Cyngor.

Mae egwyddorion a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ategu popeth a wnawn fel sefydliad. Mae hyn yn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd datblygu a gweithredu strategaethau.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn sail i'n hymagwedd at hunanasesu blynyddol, gyda gofynion y Ddeddf yn atgyfnerthu'r ymagwedd at ddatblygiad a gweithrediad dilynol y Rhaglen Drawsnewid.

Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023

(cyhoeddwyd Ebrill 2024)

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Cymru ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf (Mawrth 2023).

Mae'r crynodeb archwilio yn ffurfio rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.



Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod, wir a theg ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2022-23. Mae hyn yn golygu i'r Archwilydd Cyffredinol ganfod bod y datganiadau ariannol yn gywir, yn gyflawn ac yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn gyffredinol, dengys barn yr Archwilydd Cyffredinol yr ystyrid datganiadau ariannol yr Awdurdod yn ddibynadwy.

Canfu'r archwiliad hefyd fod y Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd. Fodd bynnag, roedd hefyd yn nodi y gallai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer cynnwys dinasyddion a monitro cynnydd yr amcanion hyn. Mae hyn yn awgrymu, er bod y Cyngor wedi cymryd camau i sefydlu amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, fod lle i wella'r ymgysylltu â dinasyddion a monitro cynnydd yr amcanion hyn yn effeithiol.

Meithrinfa Sêr Ni a Chanolfan Blant Llwynhendy yn croesawu Myfyrwyr yr Academi Gofal

Mae Sêr Ni Llwynhendy a Meithrinfa Sêr Ni y Bynea yn y grŵp cyntaf o leoliadau Gofal Cymdeithasol i gael Myfyrwyr yr Academi Gofal yn Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin. Dean Watkins oedd y pedwerydd myfyriwr i gael ei groesawu yn lleoliadau Sêr Ni ym mlwyddyn gyntaf yr Academi Gofal 2022-2023. Roedd myfyrwyr yr Academi Gofal yn gallu profi bywyd yn uniongyrchol mewn meithrinfa o fewn yr alwedigaeth Gofal Cymdeithasol. Mae'r timau yn y lleoliadau Meithrin wedi cefnogi ac annog dysgu a chyfranogi ym mhob agwedd ar ddarpariaeth y gwasanaeth. Mae'r holl blant yn y lleoliadau Meithrin wedi croesawu'r myfyrwyr ac wedi gwneud cysylltiadau â'r myfyrwyr trwy chwarae a dysgu. Daeth lleoliad Dean Watkins i ben ychydig cyn gwyliau'r haf ar ôl wyth wythnos llwyddiannus lle daeth yn aelod pwysig o'r tîm. Mae Academi Gofal Sir Gaerfyrddin yn cynnig cyfle cyffrous i ddatblygu gyrfa ym maes gofal cymdeithasol.



Galluogwyr Busnes Craidd

Yn ogystal â'r blaenoriaethau thematig a'r blaenoriaethau gwasanaeth a nodwyd, ceir amrywiaeth o alluogwyr busnes craidd sy'n sail i swyddogaethau dyddiol y Cyngor a'n gwasanaethau. Nodir sawl un yn yr adran hon; fodd bynnag mae TGCh, Marchnata a'r Cyfryngau, Cyllid, Rheoli Pobl, Polisi a Pherfformiad, Ystadau a Rheoli Asedau a Chymorth Busnes wedi'u plethu o fewn y cynnwys yn amcanion llesiant 1-4 uchod.

Cyfreithiol

- Rydym wedi sicrhau cyfreithlondeb a chywirdeb wrth wneud penderfyniadau'r Cyngor.
- Rydym yn gweithio o fewn fframwaith statudol sy'n llywodraethu pethau megis sut y cynhelir cyfarfodydd, sut y gwneir penderfyniadau a'r ddeddfwriaeth y tu ôl i bob penderfyniad sydd angen ei wneud.
- Rydym yn ceisio gwneud cymaint ag y gallwn o'r gwaith cyfreithiol sydd ei angen gan y Cyngor yn fewnol, er y bydd yna adegau pryd y bydd angen i ni anfon gwaith at gyfreithwyr allanol.
- Rhai o'r meysydd ffocws allweddol yn ystod 2023/24 oedd cefnogi gwaith y Tîm Adfywio mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ein cydweithwyr Tai wrth ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, chwarae rhan allweddol yn y Prosiect Adfer Dyledion, cynghori ar gyflwyniadau'r Cyngor i'r ymchwiliad COVID-19 Cenedlaethol a gweithredu newidiadau i weithdrefnau llysoedd mewn achosion amddiffyn plant.
- Mae'r ystod o waith cyfreithiol a wneir nid yn unig yn cynnwys achosion llys a thribiwnlysoedd, ond hefyd cynghori pwyllgorau'r Cyngor, drafftio dogfennaeth gyfreithiol a rhoi cyngor cyfreithiol.

Cynllunio

- Penderfynwyd ar 87.5% (1,202 / 1,373) o geisiadau cynllunio ar amser yn ystod 2023/24, mae hwn yn ostyngiad bach ar ganran y llynedd o 89%.
- O'r 27 o apeliadau cynllunio a gafwyd yn ystod 2023/24, cafodd 19 eu diystyru (70.4%). Mae hwn yn welliant ar ffigur y flwyddyn flaenorol o 66.7%, ac yn uwch na Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Da' sef 66%.
- Cwblhawyd 22 o'r 33 o geisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt yn y flwyddyn yn yr amser gofynnol, i roi canlyniad o 69.7%, sydd yn is na'r targed (80%) ac yn waeth na'r llynedd (72.4%), ond fe wnaeth penderfynu ar 10 hen achos effeithio ar y canlyniad cyffredinol. Dylid nodi mai 60% yw'r sgôr mae Llywodraeth Cymru yn ei hystyried fel 'Da'.
- Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i gymryd camau gorfodi cynllunio cadarnhaol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2023/24 i 306 o ddiwrnodau (211 o ddiwrnodau'r flwyddyn flaenorol), mae hyn yn bennaf oherwydd canolbwyntio ar yr achosion sydd wedi ôl-gronni. Fodd bynnag, wrth i'r achosion hanesyddol hyn gau, maent yn parhau i ogwyddo'r diwrnodau cyfartalog.
- Gwnaeth ein perfformiad Gorfodi Cynllunio wella'n sylweddol wrth i'r achosion gorfodi cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod fynd o 68.8% yn 2022/23 i 84.3% yn 2023/24.
- Derbyniwyd Sgôr Sicrwydd o 'Uchel' yn ystod arolygiad Archwilio Mewnol ar Orfodi Cynllunio i sicrhau bod y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer Gorfodi Cynllunio yn gadarn.

Caffael

- Rydym yn gwario dros £376 miliwn y flwyddyn ar nwyddau, gwaith a gwasanaethau, a chaiff hyn effaith fawr ar ansawdd bywyd y gymuned. Mae'n hanfodol bod gennym yr ymagwedd strategol at gaffael er mwyn sicrhau bod nwyddau, gwaith, a gwasanaethau yn cael eu caffael mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.
- O dan y Ddeddf Gaffael newydd (2023), o fis Hydref 2024, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi cyfres o dendrau wedi'u cynllunio dros £2m (rhaid cyhoeddi'r gyfres gyntaf hon 1 Ebrill 2025 - o fewn 56 diwrnod i'r dyddiad cau hwnnw). Bydd yr Uned Gaffael yn parhau i weithio gydag adrannau i sicrhau bod pob tendr dros y gwerth hwn yn barod erbyn y dyddiad cau hwn.
- Cynhaliwyd amrywiaeth o fentrau a digwyddiadau ymgysylltu â chyflenwyr yn 2023-24 i ddarparu ar gyfer rhaglen o ymarferion tendro. Mae'r Fframwaith Gwaith Proffesiynol £160m yn enghraifft o dendr a fabwysiadodd amrywiaeth eang o fentrau ymgysylltu â chyflenwyr, i ddenu contractwyr lleol i dendro, i hyrwyddo'r gofynion tendro ac i wella'r tendrau a gyflwynir drwy gynnig cymorth tendro.
- Yn 2023/24 fe wnaethom helpu Rhaglen Seilwaith Digidol Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i benodi darparwr ar gyfer dylunio, adeiladu a gweithredu rhwydwaith ffibr tywyll sy'n cysylltu safleoedd allweddol o fewn Rhaglen Lleodd Cysylltiedig Bargaen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD), er mwyn hwyluso a buddsoddi mewn darparu cysylltedd gigabit-alluog a seilwaith cysylltiedig i safleoedd strategol allweddol a thwf economaidd ar draws y Rhanbarth. Mae'r tendr wedi'i ddyfarnu i Virgin Media ac mae contractau'n cael eu cyfnewid ar y pryd. Rydym hefyd yn gweithio gyda Thîm Seilwaith Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i gefnogi cyflwyno Ffibr Tywyll 2 (£4m) a'r Prosiect Mewnlenni Gwledig (£6m) sy'n anelu at ddod â band eang cyflym iawn i ardaloedd gwledig anodd eu cyrraedd.
- Rydym yn gweithio gydag adrannau i ymgorffori ffyrdd o leihau effaith carbon nwyddau, gwaith neu wasanaethau a gaffaelir. Cwblheir Asesiad Risg Cynaliadwy (SRA) ar gyfer pob tendr sydd werth dros £25k (yn unol â'n Rheolau Caffael Contract) sy'n helpu i nodi cyfleoedd i gynnwys camau gweithredu yn y tendr i wella cynaliadwyedd.

Archwiliad Mewnol

- Mae Archwilio Mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori annibynnol a gwrthrychol, sydd â'r nod o ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad.
- Cwblhawyd 89% o'r Archwiliadau Mewnol a gynlluniwyd yn ystod 2023/24. Er gwaethaf rhai cyfyngiadau ar adnoddau, aeth y Cynllun Archwilio rhagddo'n hwylus iawn drwy gydol y flwyddyn, a chafodd y 30 o adroddiadau terfynol eu cyhoeddi o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr ymatebion rheoli.
- Cynhaliwyd adolygiad o'n gwasanaeth Archwilio Mewnol gan asesydd allanol ar gyfer Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn ystod 2023/24, a ddaeth i'r casgliad bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r safonau.
- Mae Archwilio Mewnol yn adrodd i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, gan ddarparu diweddariadau cynnydd rheolaidd, gyda phob Adroddiad Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.
- Mae gennym Raglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliant ar waith, sy'n helpu i hybu effeithlonrwydd a gwelliant. Mae rhannu gwybodaeth a chanolfannau cymorth wedi'u croesawu gan weithgorau mewnol o fewn y Cyngor, ac yn allanol drwy gysylltu â thimau Archwilio Mewnol awdurdodau cyfagos a grŵp Prif Archwilwyr Mewnol Cymru.

Gwasanaethau Democrataidd

- Mae'r Gwasanaethau Democrataidd yn rheoli proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn cyflwyno sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn gyfreithiol ofynnol, tra bo eraill yn fater o ddewis i'r Cyngor.
- Derbyniwyd 3,099 o ymholiadau gan aelodau yn ystod 2023/24, sef gostyngiad o 21% ar y flwyddyn flaenorol (4,365). Ymatebwyd i dros 76% o fewn 7 diwrnod gwaith, gwelliant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (73%).
- Roedd y gwasanaeth yn allweddol wrth gyflawni argymhellion yr Adolygiad o Ymholiadau Aelodau a gweithredu'r Porth Aelodau Ar-lein newydd a lansiwyd ym mis Chwefror 2024, ac yn darparu llwyfan newydd a gwell i aelodau fewngofnodi a monitro ceisiadau gwasanaeth ac ymholiadau gan Gynghorwyr.
- Mae'r gwasanaeth yn parhau i weinyddu trefniadau cydweithio ar gyfer Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru, Panel Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys, a Partneriaeth. Mae hefyd yn gyfrifol am weinyddu Grŵp Llywodraethu Llesiant Delta a Bwrdd Cyfranddalwyr CWM.

Y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil

- Mae ein gwasanaethau etholiadol yn seiliedig ar fframwaith cyfreithiol sy'n pennu sut y caiff etholiadau eu cynnal. Mae'n pennu pwy sy'n cael pleidleisio a'r gwahanol ffyrdd y gallant fwrw eu pleidlais a dweud eu dweud. Mae gennym DîmProsiect Etholiad cryf sy'n ein helpu i gynnal etholiadau diogel, tryloyw ac agored.
- Rydym yn parhau i weinyddu pob math o etholiadau (etholiadau wedi'u trefnu neu etholiadau snap), ac mae cyflwyno'r Modern Democracy app yn sicrhau cywirdeb o ran cyfrifon y papurau pleidleisio.
- Fe wnaethom barhau i weithio i gymharu data ein cofnodion â chofnodion y Dreth Gyngor, Budd-daliadau Tai, y Gyflogres ac Addysg i sicrhau bod y Gofrestr Etholiadol yn gyfredol. Ni fydd un o'r ychydig Awdurdodau yng Nghymru a fydd yn cymryd rhan mewn Peilot Cofrestru Awtomatig a fydd yn dechrau yn hydref 2024.
- Dechreuom adolygiad statudol o'n Dosbarthau Pleidleisio a'n Mannau Pleidleisio, a'r nod yw sicrhau bod gennym y cyfleusterau pleidleisio cywir ym mhob adran etholiadol, gan ystyried datblygiadau newydd a chwilio am leoliadau eraill sydd â mynediad addas i bobl anabl.
- Mae gan Wasanaeth Cofrestru'r Cyngor y swyddogaeth statudol o ddarparu gwasanaeth ymatebol i'r cyhoedd ar gyfer cofrestru genedigaethau, marw-enedigaethau, marwolaethau; hysbysiadau priodas a phartneriaeth sifil a seremonïau dilynol; llunio dogfennaeth gyfreithiol a chymeradwyo safleoedd ar gyfer priodasau a phartneriaethau; mae hefyd yn gyfrifol am seremonïau dinasyddiaeth. Mae'r Gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o seremonïau anstatudol ac mae hefyd yn darparu, ar gais, y gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith' ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- Cynhaliwyd 15 o Seremonïau Dinasyddiaeth yn ystod 2023/24, a chawsant i gyd eu cwblhau o fewn 60 diwrnod i wahoddiad y Swyddfa Gartref, roedd y rhain yn cynnwys 76 o Oedolion a 9 o blant, o gymharu â 50 o oedolion a 4 o blant yn ystod 2022/23.
- Cofnodwyd 2,461 o gofrestriadau genedigaethau yn ystod 2023/24, sy'n gynydd ar 2,395 yn 2022/23 a chofnodwyd 2,447 o gofrestriadau marwolaethau, sydd yn is na'r 2,721 yn 2022/23.
- Mae nifer y priodasau a phartneriaethau sifil wedi gostwng o 800 yn 2022/23 i 706 yn 2023/24, er taw gostyngiad o 13% mewn priodasau ydyw a chynnydd o 44% mewn partneriaethau sifil.

Rheoli Risg

- Cwblhawyd 94% o'r ymatebion i llythyrau hawliad o fewn 6 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddod i law'r Is-adran Rheoli Risg yn ystod 2023/24, ac roedd hyn yn cynnwys cyflwyno llythyr cydnabod i'r hawlydd / cynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd, ac atgyfeirio'r hawliad at yswiriwr priodol.
- Buddsoddodd y Grŵp Llywio Rheoli Risg £250k yn ystod 2023/24 i leihau'r perygl o hawliadau neu achosion cyfreithiol drud, gan gymryd camau megis hyfforddi gyrwyr, penodi swyddog dros dro ar gyfer Prosiect Adolygu Iechyd - Rheoli Contractau, ac ariannu ffensys diogelwch yn rhai o ysgolion y sir.
- Caiff Data o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwe mis yn dilyn adolygiad deufisol ac asesiad beirniadol o'r risgiau gan y Tîm Rheoli Corfforaethol.
- Mae Cynllun Gweithredu Rheoli Risg ar gyfer Gwella ar waith, sy'n monitro'r cynnydd mewn perthynas ag argymhellion Archwilio Cymru, Archwilio Mewnol, a'r Bwrdd Trawsnewid.